



CYSTADLEUAETH

GWARCHODAETH

GWYBODAETH

BUDSODDIAD

CYSYLLTIAD

GWASANAETHAU

GWASANAETHAU

DEWIS

ARLOESIEDD

CYDGYFEIRIANT

MYNEDIAD

ADLONIANT

SYMUDEDD

CYNHWYSIANT

RHEOLAETH

ARGAELEDD

CYFRANOGIAD

LLWYFANNAU • BAND EANG
SBECTRWM RADIO • RHWYDWEITHIAU • SYMUDOL
STRWYTHURAU • LLWYFANNAU • CYDGYFEIRIANT

SBECTRWM RADIO • MARCHNADOEDD • SYMUDOL
CYNWYS • MARCHNADOEDD • BAND EANG
SBECTRWM RADIO • MARCHNADOEDD • SYMUDOL



Y Swyddfa Gyfathrebiadau
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2009
i 31 Mawrth 2010

Cynnwys

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2009 i 31 Mawrth 2010

Adran A Cyflwyniad

- 6 Neges y Cadeirydd
- 8 Datganiad y Prif Weithredwr
- 12 Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cynnwys

Adran B Meysydd Gweithgarwch Craidd

- 16 Bwrw ymlaen ag ymagwedd at y sbectrwm sy'n seiliedig ar y farchnad
- 18 Cystadleuaeth ac arloesedd mewn marchnadoedd sy'n cydgyfeirio
- 21 Gwireddu amcanion budd cyhoeddus wrth i blatfformau a gwasanaethau gydgyfeirio
- 24 Grymuso dinasyddion a defnyddwyr a gwella'r cydymffurfio rheoleiddiol lle bo angen
- 30 Symleiddio rheoleiddio a sicrhau cyn lleied o feichiau gweinyddol ag y bo modd
- 31 Sicrhau cymaint o ddylanwad ag y bo modd ar ddatblygu polisi rhyngwladol

Adran C Adolygiad Gweithredol ac Ariannol

- 32 Perfformiad a gwerthuso
- 41 Data ystadegol
- 45 Perfformiad ariannol

Adran Ch Datganiad o Gyfrifon a Llywodraethu Corfforaethol

- 48 Rhagair
- 50 Bwrdd Ofcom
- 52 Llywodraethu Corfforaethol
- 53 Pwyllgorau'r Bwrdd
- 56 Pwyllgorau Heblaw Rhai'r Bwrdd
- 59 Datganiad o Gyfrifoldebau
- 60 Datganiad ar Reolaeth Fewnol
- 64 Adroddiad Taliadau

Adran D Cyfrifon ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2010

- 71 Tystysgrif rheolwr ac archwiliwr cyffredinol y senedd
- 73 Datganiad incwm a gwariant
- 74 Datganiad newidiadau ecwiti
- 75 Datganiad sefyllfa ariannol
- 76 Datganiad llif arian
- 77 Nodiadau'r cyfrifon

Atodiad 1 Trwyddedu'r Sbectrwm

Atodiad 2 Gwaith ar y Sbectrwm – Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer Gorfodaeth a Pheirianeg Sbectrwm



Ofcom yw'r rheoleiddiwr ar gyfer sector cyfathrebu'r DU, gyda chyfrifoldebau ar draws gwasanaethau cyfathrebu di-wifr, teledu, radio a thelegyfathrebiadau.

Ein bwriad yw sicrhau bod pobl yn y DU yn cael y gorau o'u gwasanaethau cyfathrebu ac yn cael eu gwarchod rhag arferion masnachu annheg. Yr ydym hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod marchnadoedd cyfathrebiadau yn parhau i fod yn gystadleuol a bod gan gyflenwyr gymhelliant i fuddsoddi mewn datblygu gwasanaethau cyfathrebu.

Mae Ofcom yn gweithredu dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae'r Ddeddf Seneddol hon yn dweud y dylai Ofcom hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr fel rhan o'i ddyletswyddau cyffredinol. Mae hefyd yn amlinellu cyfrifoldebau penodol Ofcom, sef:

- Sicrhau bod amrediad eang o wasanaethau cyfathrebu electronig – gan gynnwys gwasanaethau data cyflymder uchel – ar gael ledled y DU
- Sicrhau y defnyddir sbectrwm yn effeithiol ac yn effeithlon
- Sicrhau amrediad eang o wasanaethau teledu a radio o safon uchel ac apêl eang
- Sicrhau bod gan gynulleidfaoedd fynediad at amrywiaeth o wasanaethau darlledu
- Sicrhau gwarchodaeth ddigonol i gynulleidfaoedd rhag deunydd tramgwyddus neu niweidiol
- Sicrhau gwarchodaeth ddigonol i gynulleidfaoedd rhag annhegwch neu darfu ar breifatrwydd





NEGES Y CADEIRYDD



COLETTE BOWE

Bob blwyddyn ers i Ofcom gael ei sefydlu, mae'r cadeirydd wedi adrodd ar flwyddyn o newid yn sector cyfathrebu'r DU. Unwaith eto, mae hyn wedi bod yn wir yn 2009/10.

Bellach, gwelir band eang cyflym iawn, sydd ar gael i oddeutu hanner cartrefi'r DU, fel cyfrannwr pwysig at adferiad economaidd y DU a'i ffyniant yn y dyfodol. Mae'r newid i'r digidol, a roddwyd ar waith mewn oddeutu 70,000 o gartrefi'r adeg hon y llynedd, heddiw wedi'i gwblhau drwy Gymru gyfan, yn ninasoedd mawr Manceinion a Lerpwl, ac yn y rhan fwyaf o Orllewin Lloegr.

Yn Adroddiad Blynyddol y llynedd, fe addewais y byddai Ofcom yn parhau i fod yn asiant pwerus ar ran buddion dinasyddion a defnyddwyr. Mae rhai o'r materion y byddwn yn mynd i'r afael â nhw ar ran defnyddwyr a dinasyddion yn cipio penawdau'r newyddion. Ond gall materion eraill, nad oes fyth adrodd amdanynt, neu prin ddim adrodd amdanynt, gael yr un faint o effaith ar fywydau pobl. O gyngor diduedd am sut mae cael y fargen orau o ran ffonau symudol, y rheolau newydd sy'n rhoi hwb i nifer y rhaglenni teledu sy'n cael eu gwneud ar gyfer defnyddwyr iaith arwyddion, a'r meincnodi arloesol o gyflymder band eang, yr ydym yn cadw ein haddewid i ddinasyddion a defnyddwyr.

Cyfrifoldebau Newydd

Yn y flwyddyn dan sylw, mae'r Senedd wedi ystyried a phasio deddfwriaeth newydd ar gyfer y sector cyfathrebu. Mae'r Ddeddf Economi Ddigidol yn rhoi cyfrifoldebau a phwerau newydd i Ofcom mewn meysydd megis seilwaith, cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, enwau parthau rhynggrwyd, radio a sbectrwm. Yr ydym hefyd wedi ein gorchymyn i oruchwylio a rhoi ar waith agweddau penodol ar y drefn newydd i fynd i'r afael â thorri hawlfraint ar-lein. Mae'r gwaith eisoes wedi dechrau yn rhai o'r meysydd hyn. Mewn meysydd eraill, bydd yn dechrau'n fuan.

Y llynedd, gwelsom hefyd ddiwygiadau hir ddisgwyliedig i becyn Fframwaith yr Undeb Ewropeaidd. Diwygiad allweddol oedd creu corff pan-Ewropeaidd newydd, sef Corff Rheoleiddwyr Ewrop ym maes Cyfathrebu Electronig

NEGES Y CADEIRYDD

(BEREC), a fydd yn cyfrannu dadansoddiad rheoleiddiol manwl at drafodaethau'r Comisiwn, a bydd Ofcom yn chwarae rhan lawn ynddo.

Heriau newydd

Mae'r newidiadau deddfwriaethol hyn yn digwydd mewn byd a sector yr effeithiwyd arnynt yn sylweddol gan ddirwasgiad y flwyddyn ddiwethaf. Er i ni weld twf unwaith eto yn economi'r DU, yr ydym yn parhau i deimlo effaith y cywasgu. Yr ydym wedi gweld swyddi'n cael eu dileu a thoriadau yn y sector cyfathrebu, ond yr ydym hefyd wedi gweld tystiolaeth o wytnwch go iawn wedi'i feithrin o amgylchedd cystadleuol caled. Yr her ar gyfer y dyfodol yw cynnal y gystadleuaeth hon a sicrhau bod pobl yn parhau i fuddsoddi mwy a mwy yn rhwydweithiau'r dyfodol ar yr un pryd.

Mae'r drafodaeth gyhoeddus ynglŷn â darparu seilwaith, yn enwedig ar gyfer y genhedlaeth nesaf o fand eang, wedi canolbwyntio ar y rhannau hynny o'r DU sy'n debygol o beidio â chael eu gwasanaethu gan y farchnad, neu i beidio â chael eu gwasanaethu ddigon. Ochr arall y geiniog yw defnyddio a chyfranogi. Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Prydain Ddigidol, gofynnodd y Llywodraeth i Ofcom arwain consortiwm Cyfranogiad Digidol newydd, yn cynnwys nifer o brif gyfranogwyr megis BT, BSkyB, AOL, y BBC a Google. Mae tua 12.5 miliwn o bobl yn y DU nad ydynt yn mynd ar-lein, ac ni ellir mynd i'r afael â'r lefel hon o allgau drwy gynyddu mynediad yn unig.

Ochr yn ochr â'r cyfrifoldebau newydd hyn, bydd ein gwaith o gynllunio gofynion sbectrwm y DU ar gyfer Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012 yn dwysáu drwy gydol y flwyddyn nesaf. Felly, yr wyf yn falch ein bod wedi torri ein cyllideb ar sail debyg i debyg am y chweched flwyddyn yn olynol, a'n bod wedi llwyddo i wneud rhagor o arbedion drwy rewi cyflogau, drwy reoli eiddo a chaffael yn well a drwy integreiddio TG yn well.

Adnewyddu atebolrwydd ac ymgysylltu

Mae Ofcom yn gweithredu dan statud, ac mae atebolrwydd i'r Senedd yn ganolog i'r modd yr ydym yn gweithio. Ar hyn o bryd, mae gan San Steffan gyfran fwy o ASau newydd nag ar unrhyw adeg arall mewn cof, ac mae nifer ohonynt – yn ddigon teg – yn poeni llai am yr hyn yr ydym wedi ei wneud ac yn dangos mwy o ddiddordeb yn yr hyn y byddwn yn ei wneud i wella gwasanaethau cyfathrebu ar gyfer eu hetholwyr ac ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr yn gyffredinol. Byddwn yn gweithio'n galed i roi cyfrif am ein gweithredoedd a'n cynigion rheoleiddiol, ac i gymryd camau i gefnogi ein cylch gwaith statudol.

Ym mis Medi, yr oeddwn yn falch iawn o groesawu Norman Blackwell i fwrdd Ofcom. Ymunodd Hyacinth

“H” Nwana â ni fel Partner Sbectrwm newydd Ofcom, a chymerodd Christopher Woolard rôl fel ein Partner Materion Allanol a Rheolaeth. Yn anffodus, byddwn yn dweud ffarwel wrth Stewart Purvis, ein Partner Cynnwys a Safonau, yn hwyrach ymlaen yn yr haf. Ymunodd Stewart ag Ofcom yn 2007 ar ôl iddo gael gyrfa ddisglair ym maes darlledu, ac mae wedi rhoi cyngor, barn ac arweiniad amhrisiadwy i Ofcom yn ystod ei amser gyda ni. Mae Stewart yn bwriadu dilyn yr yrfa academiaidd y rhoddodd i'r naill ochor pan ymunodd ag Ofcom, ac wrth iddo ein gadael, hoffai'r Bwrdd a'r Bwrdd Cynnwys ddiolch yn fawr iawn iddo am ei gyfraniad.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae dinasyddion a defnyddwyr wedi'u gwasanaethu'n dda gan bwyllgorau ymgynghorol statudol Ofcom ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn y Pwyllgor Ymgynghori ar gyfer Pobl Hŷn ac Anabl, gwnaethom ddweud ffarwel wrth y Cadeirydd Mike Whitlam a John Welsman, a chroesawu Jo Connell i'w rôl fel y Cadeirydd newydd. Ar ran Bwrdd Ofcom, yr wyf yn diolch i aelodau Bwrdd Cynnwys Ofcom, ac i'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau am eu gwaith parhaus. Hoffwn ddiolch yn benodol i Syr David Brown sy'n ymddeol o'i rôl fel Cadeirydd y Bwrdd Ymgynghori ar Faterion Sbectrwm, am y cyngor doeth a roddodd i Ofcom dros flynyddoedd lawer – ond yr wyf yn hynod falch ei fod am barhau i fod o gymorth i ni drwy Gadeirio'r Pwyllgor Cyllid Clirio Sbectrwm.

Yn olaf, ac eto ar ran y Bwrdd, hoffwn ddiolch i staff Ofcom ledled y DU am eu gwaith caled ac effeithiol yn ystod blwyddyn sydd wedi bod yn heriol iawn.

Mae'n amlwg y bydd y flwyddyn sydd o'n blaenau yn fwy heriol eto. Bydd yn rhaid i Ofcom gyflawni amrywiaeth eang o gyfrifoldebau rheoleiddio o hyd; ond, yr un fath â chorfforaethau cyhoeddus eraill, bydd yn rhaid iddo leihau ei gostau.

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid ydym yn gwybod sut yn union y bydd yn rhaid i ni ail-lunio ein sylfaen costau. Ond, teimlaf mai'r peth cywir i'w wneud mewn sefyllfa o'r fath yw lleihau fy nhâl fy hun: ac yr wyf am leihau 10% arno. Fel y byddwch yn ei ddarllen yn Adroddiad y Prif Weithredwr, mae Ed Richards wedi gwneud penderfyniad tebyg.

Colette Bowe Cadeirydd

DATGANIAD Y PRIF WEITHREDWR



ED RICHARDS

“Heb eich cyngor chi...efallai y byddai fy musnes wedi mynd i’r wal.”

“Oherwydd ymyriad Ofcom, mae fy narparwr gwasanaeth wedi cytuno i hepgor y bil...ac nid oes yn rhaid i mi bellach boeni am godi ail forgais ar fy nhŷ; diolch.”

Mae ein tîm cyngori yn rhan fechan a diymhongar o Ofcom, a dim ond dau o’r holl negeseuon y cafodd y tîm y llynedd yw’r rhain. Gwnaeth y tîm ddelio â bron i 200,000 o ymholiadau gan bobl o bob cwr o’r DU, dros y ffôn, drwy’r wefan a dros e-bost.

Negeseuon o ddiolch fel y rhain sy’n helpu i’n hatgoffa bod Ofcom yn bodoli er mwyn hybu budd dinasyddion a defnyddwyr. Mae hyn wrth wraidd y Ddeddf Cyfathrebiadau sy’n diffinio’r hyn a wnawn.

Gall y sawl sy’n edrych o’r tu allan, ac sy’n darllen penawdau’r papurau newydd fethu hyn. Ond, mae’n dangos bod ein gwaith wedi’i gynllunio i wella’r hyn y mae dinasyddion a defnyddwyr yn ei gael – ni waeth a ydym wrthi’n gosod prisiau cyfanwerthol rheoledig er mwyn rhwystro’r rheini sy’n ceisio cyfyngu’r gystadleuaeth, neu’n rhoi cyngor i aelodau o’r cyhoedd ynglŷn â’u problemau o ran telegyfathrebiadau.

Y defnyddiwr a’r dinesydd wrth galon gwaith Ofcom

GWARCHOD DEFNYDDWYR

Un maes pwysig o waith Ofcom yw gwarchod defnyddwyr rhag niwed. Yn 2009/10, gwnaethom gyflwyno rheolau newydd er mwyn mynd i’r afael â cham-werthu gwasanaethau ffonau symudol a ffonau llinell sefydlog. Mae’r mesurau wedi’u cynllunio i roi terfyn ar arferion marchnata anonest, twyllodrus a chamarweiniol.

DATGANIAD Y PRIF WEITHREDWR

Yn ffodus, yr ydym wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y cwynion yr ydym wedi'u cael o ran cam-werthu ffonau symudol, ers i ni awgrymu am y tro cyntaf y byddai rheolau newydd yn cael eu cyflwyno. O ran cam-werthu ffonau llinell sefydlog, yr ydym yn gweithredu ar ran defnyddwyr gyda rhaglen orfodi agored ac yr ydym yn ymchwilio'n weithredol i nifer o gwmnïau y gallant fod yn torri'r rheolau.

RADIO CYMUNEDOL

Eleni, roedd Radio Cymunedol yn dathlu ei ben-blwydd yn bump oed. Mae wedi bod yn llwyddiannus iawn. Ers i'r orsaf gyntaf – The Eye yn Melton Mowbray – ddechrau darlledu ym mis Tachwedd 2005, mae gennym ni orsafoedd ym mhob cwr o'r DU sydd wedi'u trwyddedu i bobl fedrus a pharod sydd yn frwdfrydig dros eu cymunedau a dros ddarlledu. Heddiw, mae dros 160 o orsafoedd yn cael eu darlledu, gyda chynulleidfa bosibl o wyth miliwn o bobl, yn darparu cyfoeth o gynnwys amrywiol, ac yn darparu eitemau addas ar gyfer pobl ifanc, pobl hŷn, gwahanol grwpiau ethnig, gwahanol grefyddau a genres gwahanol o gerddoriaeth arbenigol.

RHOI GWYBOD AM GYFLYMDER BAND EANG

Mae cyflymder band eang yn faes sydd o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd, ac mae'n achosi mwy o ymweliadau i'n gwefan nag unrhyw bwnic arall. Yn 2009/10, drwy ymchwil eang, gwnaethom ddatgelu manylion y cyflymder uchaf y gallai cwsmeriaid ei gael gan eu darparwyr. Ar gefn hyn, gwnaethom ddatblygu côd ymarfer gwirfoddol i sicrhau bod cwmnïau rhyngwyd yn rhoi gwybodaeth o ansawdd da am gyflymder band eang wrth eu gwerthu i ddefnyddwyr. Gyda'r wybodaeth hon, gall defnyddwyr chwilio a chymharu, a gwneud penderfyniadau doeth ynglŷn â'r gwasanaeth y mae arnynt ei eisiau a phwy all ei ddarparu. Nid yw lefel y cydymffurfio â'r Côd eto ar y lefel y byddem yn ei ddisgwyl, a byddwn yn ystyried hyn eto yn 2010/11.

Annog buddsoddi

Y GENHEDLAETH NESAF O FAND EANG

Yr ydym hefyd am i ddefnyddwyr gael budd o'r genhedlaeth nesaf o rwydweithiau band eang. Bydd y rhain yn cynnig lled band sy'n uwch o lawer, a fydd yn gallu darparu gwasanaethau mewn amrywiol gyfryngau dros y rhyngwyd i'r cartref.

Y llynedd, gwnaethom gyhoeddi sut y byddem yn rheoleiddio rwydweithiau o'r fath yn y dyfodol. Yn 2009/10 gyrrwyd ein gwaith yn ei flaen yn sylweddol gan set o gynigion manwl i hwyluso dosbarthu band eang cyflym iawn yn y DU. Roedd y cynigion yn cynnwys mynediad cyfanwerthol at linellau ffibr newydd a osodwyd gan BT a mynediad at

seilwaith megis y pibellau tanddaearol a'r polion telegraff sy'n cario ceblau, i alluogi cwmnïau i fuddsoddi'n uniongyrchol mewn technoleg band eang cyflym iawn.

DADREOLEIDDIO TELEGYFATHREBIADAU

Mae Ofcom yn credu'n gryf mewn dadreoleiddio lle bynnag y bo hynny'n bosibl ac yn briodol. Un o egwyddorion craidd Ofcom yw datod y cyffion sy'n caethiwo busnesau wrth hen reoliadau, er mwyn rhoi dewis i ddefnyddwyr ac er mwyn hyrwyddo buddsoddi mewn gwasanaethau a chynhyrchion newydd.

Sbardun ar gyfer dadreoleiddio yw ymddangosiad cystadleuaeth iach mewn marchnadoedd yr oeddynt unwaith wedi'u dominyddu gan gyfranogwyr unigol. Enghraifft wych o hyn yw telegyfathrebiadau sefydlog ar y lefel adwerthu.

Ym mis Medi 2009, tynnodd Ofcom ymaith un o'r darnau olaf o reoleiddio adwerthol yn y farchnad ffonau llinell sefydlog. Daeth y penderfyniad 25 mlynedd ar ôl preifateiddio BT a gwnaed y penderfyniad ar ôl dod i'r casgliad nad oedd gan y cwmni bellach bŵer marchnad sylweddol yn y rhan fwyaf o farchnadoedd adwerthu ffonau llinell sefydlog. Un arwydd o hyn oedd ymddangosiad darparwyr eraill megis TalkTalk, Virgin Media a Sky, a oedd yn darparu cystadleuaeth effeithiol i BT ac yn helpu i gynnig prisiau adwerthol is i gwsmeriaid. Roedd y darn hwn o ddadreoleiddio yn caniatáu i BT gynnig bwndeli o wasanaethau rhatach am y tro cyntaf, a chyhoeddwyd pecynnau newydd ym mis Mawrth 2010.

Yr ydym hefyd wedi gwneud cynnydd gwirioneddol ym maes argaeledd, dewis a phrisiau band eang. Mae ymchwil Ofcom yn dangos bod defnyddwyr yn talu £23.50 y mis ar gyfartaledd yn 2005 (heb gynnwys TAW) am wasanaeth band eang a oedd yn cael ei ddarparu dros linell ffôn copr. Maent nawr yn talu tua £13.61 am yr un gwasanaeth.

TELEDU HD DRWY'R ERIAL

Roedd y flwyddyn hefyd yn un arwyddocaol ar gyfer sbectrwm. Cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol hwn yn ystod Cwpan Pêl Droed y Byd yn Ne Affrica. Am y tro cyntaf, mae gwylwyr teledu yn y DU yn gwyllo'r gemau mewn manylder uwch (HD) drwy'r erial. Mae hyn o ganlyniad uniongyrchol i brosiect cymhleth iawn a ddechreuwyd gan Ofcom dros ddwy flynedd yn ôl, i gyflwyno safonau darlledu technegol newydd ac i aildrefnu'r sbectrwm a ddefnyddir ar gyfer darlledu teledu digidol. Dangosodd y prosiect hwn y lluniau HD cyntaf ar deledu daearol digidol ar ddechrau 2010. Yr ydym yn ddiolchgar am gydweithrediad agos darlledwyr a chwmnïau trosglwyddo wrth gyflawni'r amcan hwn.

DATGANIAD Y PRIF WEITHREDWR

Hyrwyddo cystadleuaeth

BAND EANG CYFANWERTHOL

Mae angen rheoleiddio prisiau mewn rhai rhannau o'r farchnad gyfathrebiadau. Er enghraifft, mae cyfyngiad yn parhau i fod ar y farchnad mynediad cyfanwerthol ar gyfer telegyfathrebiadau llinell sefydlog, sy'n cael ei reoli gan BT Openreach. Oherwydd hyn, mae Ofcom yn rheoleiddio'r prisiau y gall BT eu codi ar ei gwsmeriaid cyfanwerthol. Yn 2009/10, cyhoeddodd Ofcom set newydd o brisiau ar gyfer blynyddoedd sydd i ddod, er mwyn rhoi cyfle i weithredwyr eraill gynnig gwasanaethau i gwsmeriaid domestig a busnes dros rwydwaith BT, a chaniatáu cyfradd deg o enillion i BT ar y buddsoddiad y gwna yn y rhwydwaith.

FFIOEDD TERFYNU GWASANAETH SYMUDOL

Gyda gwasanaethau symudol, yr ydym yn rheoleiddio'r costau cyfanwerthol y mae gweithredwyr yn eu codi er mwyn cysylltu â rhwydweithiau'i gilydd, a elwir yn ffioedd terfynu. Yr ydym eisoes wedi torri mwy a mwy ar y ffioedd dros gyfnod o bedair blynedd. Eleni, yr ydym wedi amlinellu rhagor o doriadau arfaethedig hyd at 2014/15. Yr ydym yn disgwyl i'r cynigion hyn roi i weithredwyr gwasanaethau llinell sefydlog a gwasanaethau symudol fwy o hyblygrwydd wrth gynllunio pecynnau galwadau cystadleuol, gan hyrwyddo fwy o gystadleuaeth eto.

CYSTADLEUAETH GYDA THELEDU DRWY DALU

Yr ydym bob amser yn meddwl yn galed iawn cyn cyflwyno unrhyw fath o reoleiddio newydd, i sicrhau ei fod yn gymesur ac yn targedu'r materion y mae wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â nhw. Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gwnaethom benderfynu ei gwneud yn ofynnol i Sky gynnig rhai o'i sianeli chwaraeon premiwm i ddarparwyr teledu talu eraill am brisiau rheoledig.

Nid ar chwarae bach y daethom at y casgliad hwn. Roedd yn dilyn ymchwiliad o dair blynedd, tri ymgynghoriad cyhoeddus gwahanol – a wnaeth ddenu cannoedd o ymatebion gan randdeiliaid, grwpiau diddordeb ac aelodau o'r cyhoedd – a miloedd o dudalennau o ddadansoddiad manwl ar y farchnad teledu talu.

Mae'r bwriad o ddarparu buddiannau sylweddol i ddefnyddwyr wrth wraidd ein penderfyniadau; er enghraifft, sicrhau bod y cynnwys chwaraeon sy'n apelio mwyaf ar gael ar fwy o blatfformau ac i filoedd yn fwy o gartrefi a datgloi'r potensial ar gyfer pecynnau a gwasanaethau teledu talu newydd ac arloesol. Ers hynny, mae ein penderfyniadau wedi cael eu herio yn y Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth.

Gwneud rhagor ond gwario llai

Mae'r heriau i ganlyniad ein hymchwiliad o'r farchnad teledu talu yn cynrychioli ymateb yr ydym yn gyfarwydd iawn ag ef. Dros y ddwy flynedd diwethaf, yr ydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr apeliadau, yr anghydfodau a'r ymgyfreitha gan rai rhanddeiliaid, yn benodol yn y sector telegyfathrebiadau.

Mae hyn wedi rhoi her newydd i Ofcom. Nid yn unig y mae weithiau'n golygu gohirio rhoi ein penderfyniadau ar waith (a gohirio'r buddion y byddant yn eu rhoi i ddefnyddwyr), ond mae'n rhoi her weithredol ac ariannol ychwanegol i ni wrth amddiffyn ein penderfyniadau mewn proses apeliadau sydd yn aml yn fanwl ac yn hir.

ARBEDION YN ERBYN CYLLIDEB 2009/10

Er gwaethaf yr her newydd hon, yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010, gwnaeth Ofcom arbedion o £7.5m yn erbyn ei gyllideb o £136.8m ar gyfer 2009/10, fel rhan o'n hymdrech barhaus i leihau ein costau gweithredu a'r hyn yr ydym yn ei gostio i randdeiliaid a'r rheini sy'n talu trethi.

Un rheswm dros yr arbedion yw'r penderfyniad a wnaed yn 2009/10 gan Bwyllgor Taliadau Ofcom i rewi cyflog y staff i gyd ac i leihau'r nifer o bobl a oedd yn gymwys ar gyfer tâl perfformiad. Roedd hyn yn cynnwys penderfyniad gan holl aelodau'r Pwyllgor Gwaith i beidio â chael eu hystyried ar gyfer unrhyw ddyfarniad tâl perfformiad blynyddol.

Daeth arbedion eraill o arbedion caffael sylweddol, arbedion drwy reoli eiddo, gwell effeithlonrwyddo ganlyniad i brosiect integreiddio systemau TG Ofcom, a phenderfyniad y Llywodraeth i beidio â dwyn rheoleiddiwr y gwasanaethau post dan adain Ofcom.

LLEIHAD YN Y GYLLIDEB WEITHREDOL SYLFAENOL AR GYFER 2010/11

Yr ydym hefyd wedi parhau gyda'n bwriad o leihau ein baich ar randdeiliaid a'r rheini sy'n talu trethi, gyda'r chweched toriad olynol i'n cyllideb weithredol sylfaenol. Cyfanswm cyllideb Ofcom ar gyfer 2010/11 yw £142.5m. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer nifer o gyfrifoldebau newydd sy'n ofynnol gan y Llywodraeth, y cawsant eu hamlinellu yn ein gwaith ar gyfer 2010/11 isod, yn ogystal â thaliadau i gywiro'r diffyg yng nghynlluniau pensiwn y rheoleiddwyr blaenorol a orfodwyd ar Ofcom gan y Senedd.

Ac eithrio'r eitemau ychwanegol, cyllideb weithredol graidd Ofcom ar gyfer 2010/11 yw £127.5m sydd, ar sail debyg i debyg, 3.6 y cant yn is mewn termau real na'r gyllideb ar gyfer 2009/10.

DATGANIAD Y PRIF WEITHREDWR

Mae'n amlwg y bydd y flwyddyn sydd o'n blaenau yn fwy heriol eto. Bydd yn rhaid i Ofcom gyflawni amrywiaeth eang o gyfrifoldebau rheoleiddio o hyd; ond, yr un fath â chorfforaethau cyhoeddus eraill, bydd gofyn i ni leihau ein costau yn sylweddol, er mwyn cyfrannu at leihau'r diffyg yn y sector cyhoeddus.

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid ydym yn gwybod i ba raddau y bydd yn rhaid i ni leihau ein sylfaen costau. Ond, mae'n anochel y bydd dewisiadau anodd iawn yn wynebu'r sefydliad yn y misoedd sydd i ddod. Yr wyf wedi dod i'r casgliad mai'r peth cywir i'w wneud dan yr amgylchiadau hyn yw lleihau 10% ar fy nhâl fy hun. Fel y byddwch wedi darllen uchod, mae Colette Bowe wedi gwneud penderfyniad tebyg.

Gwaith ar gyfer 2010/11

RHANNU FFEILIAU

O fewn y gyllideb hon, bydd Ofcom yn cyflawni dyletswydd newydd bwysig dan y Ddeddf Economi Ddigidol a ddaeth yn gyfraith ym mis Ebrill 2010. Diben hyn yw cyflwyno mesurau i leihau faint o ffeiliau sy'n cael eu rhannu'n anghyfreithlon drwy ddefnyddio rhwydweithiau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr ar-lein.

Mae gofyn i Ofcom oruchwylio'r gwaith o greu côd ymarfer rhwng darparwyr gwasanaethau rhyngwrwyd, eu cwsmeriaid a deiliaid hawliau. Dechreuodd Ofcom ymgynghori ynghylch y côd ar ôl y cyfnod dan sylw.

SEILWAITH CYFATHREBU'R DU

Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn i Ofcom ddarparu adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â rhwydweithiau cyfathrebu'r DU, gan drafod materion megis capasiti, ymdriniaeth, argaeledd a gwytnwch.

RHYDDHAU SBECTRWM

Byddwn yn parhau â'n gwaith ym maes sbectrwm yn 2010/11 gan gynnwys ein rhaglen i ryddhau sbectrwm newydd i'r farchnad. Mae Ofcom wedi nodi ystod o sbectrwm gwerthfawr y gallai defnyddwyr a busnesau gael amrywiaeth eang o ddefnydd ohono, a gallai gynnig buddion sylweddol hefyd.

Ym mis Mawrth 2010, cyflwynodd y Llywodraeth Offeryn Statudol gerbron y Senedd, yn cyfarwyddo Ofcom i roi rhaglen foderneiddio sbectrwm symudol ar waith, wedi'i gynllunio i ryddhau'r dagfa o ymgyfreitha sy'n atal Ofcom rhag gwneud cynnydd ar y rhaglen ryddhau. Ar ôl i'r llywodraeth newydd benderfynu sut i yrru'r mater yn ei flaen, bydd Ofcom yn ailddechrau'r rhaglen ryddhau i sicrhau bod y deunydd craidd hanfodol hwn yn cael ei ryddhau ar gyfer gwasanaethau di-wifr ar y cyfle cyntaf posibl.

RHEOLI TRAFFIG

Rheoli traffig yw gallu darparwyr y rhyngwrwyd i bennu a rheoli blaenoriaeth gymharol y data dros eu rhwydweithiau, a bydd yn faes canolbwynt arall i Ofcom yn 2010/11. Bydd hyn yn dilyn mabwysiadu'r Fframwaith Ewropeaidd, sy'n gofyn i reoleiddwyr domestig fynd i'r afael â'r pryder hwn. Byddwn yn ymgynghori ynghylch ystod o bynciau yn ymwneud â sut gallwn gynnig rhoi'r Fframwaith Ewropeaidd ar waith ar ôl iddo ddod yn rhan o gyfraith y DU.

BLAENORIAETHAU'R CYNLLUN BLYNYDDOL

Mae ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2010/11 yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn. Cânt eu dosbarthu o dan y themâu a ganlyn:

- **Defnyddwyr a Dinasyddion:** Mae hyn yn cynnwys gwneud cynnydd ar fynd i'r afael ag ardaloedd digyswllt band eang a symudol, ac annog defnyddio band eang drwy gefnogi'r Consortiwm Cyfranogiad Digidol yn unol â pholisi'r Llywodraeth sydd eisoes yn bodoli
- **Cystadleuaeth:** Mae hyn yn cynnwys rhoi rheoliadau ar waith i gefnogi buddsoddi mewn band eang cyflym iawn a sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol o ran Teledu talu.
- **Seilwaith a sbectrwm:** Mae hyn yn cynnwys dechrau clirio'r band 800 MHz ar gyfer gwasanaethau symudol newydd a bwrw ymlaen â chynlluniau i ryddhau sbectrwm ar gyfer band eang symudol.

Mae pob un o'r meysydd gwaith pwysig hyn wedi'u cynllunio i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion, a byddant yn cael eu gosod yn erbyn cefndir ein gwaith beunyddiol o gynghori a chefnogi miloedd o fusnesau a defnyddwyr ynghylch ystod eang o faterion yn ymwneud â chyfathrebiadau.

Ed Richards Prif Weithredwr

I gael adolygiad mwy manwl o feysydd gwaith Ofcom yn ystod 2009/10, gweler Adran B yr adroddiad hwn, yn dechrau ar dudalen 15.

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD CYNNWYS



PHILIP GRAF

Mae'r Bwrdd Cynnwys yn greiddiol i holl benderfyniadau Ofcom ynglŷn â chynnwys cyfryngol. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi pwysleisio'r ystod ryfeddol y mae hynny'n ei gynnwys.

Er enghraifft, mae llawer o waith meddwl wedi bod wrth i ni ystyried ein rôl arweiniol o ran Cyfranogiad Digidol, y newidiadau sydyn yn y defnydd o'r cyfryngau, a sut y bydd yn rhaid i reoleiddio addasu i'r newid hwnnw yn y dyfodol, o bosib. Am y tro cyntaf, daeth Ofcom yn benodol gyfrifol am reoleiddio Fideo ar Alwad, gan gynnwys darparu gwasanaeth o'r fath ar y rhyngwrdd. Ond ar yr un pryd, parhaodd pŵer y cyfryngau traddodiadol i fod yn amlwg iawn - ac, ar adegau, y pŵer i dramgwyddo, fel y dangoswyd gan yr helynt gyda Jonathan Ross a Russell Brand.

Yn erbyn y cefndir hwn, penderfynais i a fy nghydweithwyr ar ddull mwy strwythurol a strategol i'r Bwrdd Cynnwys ddelio â'r materion hyn. Dyma ein pum blaenoriaeth: Safonau Darlledu; Diweddarau Rheoleiddio Cynnwys; Diweddarau Rheoleiddio Radio; Hysbysebu a Negeseuon Masnachol; a Chyfranogiad Digidol. Mae strwythur yr adroddiad hwn yn adlewyrchu'r blaenoriaethau hyn.

Safonau Darlledu

Mae gan Ofcom rôl gwbl allweddol wrth gynnal safonau darlledu - amddiffyn plant, osgoi niweidio a thrangwyddo eang, cadw didueddrwydd, sicrhau tegwch i'r rheini sy'n ymwneud â rhaglenni ac osgoi tarfu ar breifatrwydd. Wrth ystyried hyn, eleni, gwnaethom adnabod meysydd lle gallwn wella'r ffordd yr ydym yn delio ag achosion er budd didwylledd, cysondeb a chyflymder, a gwnaethom ddiweddarau llawer ar ein gweithdrefnau ar gyfer achosion preifatrwydd, safonau a thegwch - gan fod yn ofalus i bwysu a mesur rhwng gwarchod rhyddid barn y darlledwyr wrth ategu diddordeb cyhoeddus - ac ar gyfer sancsiynau darlledu. Bydd y gweithdrefnau newydd hyn yn gwella'r profiad o gwyno ar gyfer aelodau o'r cyhoedd a darlledwyr, drwy ganiatáu i ni ddarparu gorfodaeth fwy effeithlon ac amserol.

Fel rhan o'r adolygiad hwn ar y ffordd yr ydym yn delio ag achosion, yr ydym wedi creu'r Pwyllgor Adolygu Darlledu i weithredu fel offeryn i wirio a chydbwysu penderfyniadau Gweithredaeth Ofcom. Bydd y Pwyllgor yn adolygu penderfyniadau Gweithredaeth Ofcom mewn achosion

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD CYNNWYS

tegwch a phreifatrwydd ac achosion safonau lle y gall un ai achwynydd neu ddarledwr ddangos bod diffygion yn y penderfyniad. Mae'r Pwyllgor hwn yn olyn'u Pwyllgor Tegwch (a oedd yn delio â'r achosion tegwch a phreifatrwydd mwyaf cymhleth sy'n gofyn am farnu'n ofalus er mwyn cydbwyo'r angen i warchod rhyddid darledwyr i lefaru, a gwarchod buddiannau'r cyhoedd ar yr un pryd, ac yn adolygu penderfyniadau Gweithredaeth Ofcom mewn achosion tegwch a phreifatrwydd).

KATH WORRALL

Cadeiriodd Kath Worrall, fy nghydweithwraig, y Pwyllgor Tegwch am dair blynedd a hanner, gan ddangos ymroddiad mawr a barn gadarn drwy gydol ei chadeiryddiaeth. Roedd Kath bob amser yn cyflawni'r swydd yn hollol ddiwyll, ac mae ei hagwedd ofalus a thrylwyr wedi bod yn hanfodol ar gyfer dinasyddion a rhanddeiliaid, ac yn amhrisiadwy i Ofcom. Mae wedi chwarae rhan hanfodol yng ngwaith y Bwrdd Cynnwys i sicrhau bod y cyhoedd, gan gynnwys yr aelodau rheini o'r cyhoedd sy'n fwyaf agored i niwed, yn cael eu gwarchod rhag niwed a thramgwydd, rhag triniaeth annheg a rhag i neb darfu ar eu preifatrwydd.

Roedd Kath hefyd yn rhan bwysig o waith diwygio'r Côd Darledu, i sicrhau nad yw neb dan 18 mlwydd oed sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni yn profi trallod corfforol nac emosiynol o ganlyniad i'w cyfranogiad, a bod darledwyr yn gofalu am eu lles.

PENDERFYNIADAU PWYLLGOR

Penderfynodd y Pwyllgor SanCSIynau ar Gynnwys ar chwe achos lle yr oedd angen sancsiynau yn ystod y flwyddyn. Ymysg y rhain, rhoddwyd y proffil uchaf i The Russell Brand Show ar BBC Radio 2. Rhoesom ddirwy o £150,000; mae lefel y dirwyon y gall Ofcom eu rhoi i'r BBC yn llai nag ar gyfer y prif sianeli masnachol. Er hynny, yr ydym yn ymwybodol iawn bod dirwyon o'r fath yn mynd ag arian y sawl sy'n talu'r ffi drwydded oddi wrth wneuthurwyr rhaglenni'r BBC (er y caiff ei ddychwelyd at y rheini sy'n talu trethi, gan ei fod yn cael ei dalu'n uniongyrchol gan Ofcom i'r Trysorlys). Yn yr achos hwn, yr oeddem yn teimlo y tarfwyd ar breifatrwydd Andrew Sachs, ac roedd y sylwadau a wnaed ar yr awyr yn haeddu cosb. Yr ydym yn falch bod y BBC wedi gweld y methiannau, ac ers hynny, wedi cymryd camau i wella ei weithdrefnau cydymffurfio ei hun.

Roedd tri o'r achosion eraill yn cynnwys sianeli lloeren 'i oedolion' a 'sgwrsio am ryw i oedolion'. Rhoddwyd chwe dirwy, yn amrywio o £12,000 i £27,500. Mae'r rhain yn symiau sylweddol i sianeli llai, ond mae problemau cydymffurfio yn dal i barhau, a bydd Ofcom yn parhau i weithio'n galed i sicrhau gwell cydymffurfio yn y maes hwn.

Gellir cael rhagor o fanylion am waith y Pwyllgorau hyn ar dudalen 42 a 43.

Cyfarfu Pwyllgor Etholiadau Ofcom - sy'n cynnwys aelodau o'r Bwrdd Cynnwys – am y tro cyntaf yn 2009. Y diben oedd setlo dau anghydfod yn ymwneud â Darllediadau Etholiadol Pleidiau cyn yr Etholiadau Ewropeaidd. I ddechrau, gwnaethom wrthod apêl gan Traditional Unionist Voice am ddarllediad ychwanegol ar UTV. Ond wedyn – wrth ystyried cefnogaeth etholiadol amlwg y parti – gwnaethom gyfiawnhau cais gan UKIP Cymru am ddarllediad ychwanegol ar ITV Cymru.

Diweddar rheoleiddio cynnwys i ddiwallu newidiadau yn anghenion cynulleidfa oedd

Yr oedd arnom eisiau deall rôl a dibenion sylfaenol rheoleiddio cynnwys 'llinol' yn well, a sut y bydd angen iddo gael ei ddiweddar, o bosib. (Defnyddir llinol yma i gyfeirio at y ffaith bod sianeli teledu confensiynol yn wahanol, er enghraifft, i Fideo ar Alwad). Yr oedd hefyd arnom eisiau edrych ar opsiynau ar gyfer y dyfodol, er mwyn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â niwed a thramgwydd, didueddrwydd a thegwch mewn cynnwys. Felly, yr ydym yn mynd i'r afael â materion rheoleiddio i sicrhau ansawdd a rheoleiddio i warchod cynulleidfa oedd.

Gwnaed Ofcom yn gwbl gyfrifol, am y tro cyntaf, am gynnwys Fideo ar Alwad, a hynny ar y rhyngwrdd hefyd, gan Gyfarwydddeb Gwasanaethau Cyfryngol Clyweledol yr Undeb Ewropeaidd. Yr ydym wedi penderfynu y dylai corff diwydiannol sydd eisoes yn bodoli, sef y Gymdeithas ar gyfer Teledu ar Alwad (ATVOD) gael ei dynodi fel y cyd-reoleiddiwr ar gyfer cynnwys Fideo ar Alwad golygyddol.

Mewn datblygiad i gefnogi cynnwys gwasanaethau cyhoeddus, yr oedd fy nghydweithiwr, Stewart Purvis, yn gweithredu fel y cynghorydd annibynnol i'r panel a benodwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i ddethol gweithredwyr i dreialu Consortia Newyddion a Gyllidir yn Annibynnol mewn tri o ardaloedd ITV/Channel 3: Cymru; Canol a Gogledd yr Alban; a Gogledd Ddwyrain Lloegr a'r Gororau. Bwriad y Llywodraeth oedd treialu'r defnydd o gyllid cyhoeddus (a gafwyd yn gyntaf o warged y cynllun cymorth i newid i'r digidol) i gynnal newyddion rhanbarthol (ar-lein yn ogystal ag ar y teledu) lle y byddai fel arall yn anymarferol yn economaidd.

Hysbysebu a negeseuon masnachol eraill

Cafwyd thema fawr arall yng ngwaith y flwyddyn, yng nghyswllt ariannu cynnwys, a'r newidiadau parhaus i farchnadoedd hysbysebu sy'n draddodiadol wedi ariannu

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD CYNNWYS

darlledu masnachol. Cyfrannodd y Bwrdd tuag at lunio prosiect Ofcom mawr ynghylch Hysbysebu ac Ariannu Cynnwys; a gwnaeth y Bwrdd ystyried y materion brys yn ymwneud â'r rheolau ynglŷn â hyd a dosbarthiad egwyliau hysbysebu, ac effeithiau gwahaniaethol newidiadau ar amrywiol sectorau'r diwydiant teledu.

Cyhoeddodd y Llywodraeth benderfyniad i ganiatáu gosod cynnyrch mewn rhaglenni teledu, yn amodol ar nifer o ragofalon. Penderfynodd Ofcom gynnal adolygiad eang o bob math o negeseuon masnachol sy'n cwmpo, neu y gallant gwmpo, o fewn cynnwys golygyddol. Cytunodd ein cydweithwyr yn BCAP/ASA (y bwrdd cyd-reoleiddio hysbysebion a ddarllendir) i ymgymryd â hyn ar y cyd â ni. Yr ydym yn gwneud hyn yn ogystal ag ymgymryd ag adolygu'r Côd Darlledu er mwyn gallu caniatáu gosod cynnyrch.

Gwnaethom hefyd ystyried a chytuno'n ffurfiol ar newidiadau i'r Côd Hysbysebu, yn dilyn ymgynghoriad ac adolygiad a wnaed gan BCAP/ASA.

Dyfodol rheoleiddio radio

Aeth cynllun Prydain Ddigidol y Llywodraeth, a'r Ddeddf Economi Ddigidol ddilynol, â pholisi radio ymlaen mewn dwy brif ffordd. Yn gyntaf, cynllun ar gyfer uwchraddio'r diwydiant cyfan o analog i ddigidol, gyda mesurau trwyddedu cyfatebol i alluogi hyn. Yn ail, rhyddhau'r cyfyngiadau statudol y mae Ofcom yn glynu wrthynt wrth reoleiddio radio lleol.

Yn erbyn y cefndir hwn, roedd y Bwrdd Cynnwys am gymryd golwg strategol ar reoleiddio radio yn y tymor canolog, o ystyried siâp dyfodol y sector, gan ystyried yn llawn y newidiadau i dechnoleg ac yn ymddygiad defnyddwyr. Mae'r canlyniadau wedi'u bwydo i mewn i Ddatganiad ynghylch Rheoleiddio 'Bod yn Lleol' y gwnaeth Ofcom ei gyhoeddi ychydig ar ôl i'r Ddeddf Economi Ddigidol gael ei phasio. Mae hyn yn rhoi mwy o ryddid i orsafoedd radio lleol gydweithredu drwy 'gyd-leoli' eu stiwdios, a rhannu rhaglenni, gan gadw cynnwys lleol y mae gwrandawyr yn ei werthfawrogi, a rhoi blaenoriaeth i ddarparu newyddion.

Cyfranogiad Digidol

Galwodd yr Adroddiad Prydain Ddigidol Interim, yn gynnar yn 2009, ar Ofcom i gynnull gweithgor i baratoi cynllun ar gyfer newid mawr wrth hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau. Gwahoddodd Ofcom Adam Singer, Is-

gadeirydd y Bwrdd Cynnwys, ac Anthony Lilley a Paul Moore, aelodau o'r Bwrdd Cynnwys, i ymuno â'r gweithgor. Gwnaeth y tri gyfraniad pwysig i allbwn y gweithgor - Adroddiad Gweithgor Llythrennedd yn y Cyfryngau Prydain Ddigidol (Mawrth 2009).

Gwnaeth yr adroddiad Prydain Ddigidol terfynol, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2009, dderbyn cynigion y gweithgor, a galw ar Ofcom i arwain Consortiwm o randdeiliaid i hyrwyddo defnydd cynyddol o dechnolegau digidol, a'r rhyngwyd yn benodol. Mae Paul Moore yn aelod o Fwrdd Cynnwys Gogledd Iwerddon, ac mae'n eistedd ar y Consortiwm yn ei rôl fel cadeirydd Canolfan Cyfranogiad Digidol Gogledd Iwerddon. Ysgrifennodd Paul y Cynllun Cyfranogiad Digidol ar gyfer Gogledd Iwerddon, sef cynllun a ffurfiodd ran o Gynllun Cenedlaethol y DU ar gyfer Cyfranogiad Digidol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2010.

Mae'r Bwrdd Cynnwys yn hynod gefnogol o waith Ofcom ym maes llythrennedd yn y cyfryngau, ac ym maes cyfranogiad digidol ehangach. Yr wyf yn hynod falch o nodi'r rôl arweiniol a gymerwyd gan Stewart Purvis wrth iddo gadeirio'r Consortiwm. Mae'r Consortiwm yn dod â dros 60 o brif bartneriaid ynghyd, a byddant yn gweithio gyda'i gilydd i gynyddu nifer y bobl ar-lein ac i annog y rheini sydd eisoes ar-lein i fwynhau'r holl fanteision y gall bod ar-lein ei gynnig.

Ceir un thema sy'n gyson drwy holl waith y Bwrdd Cynnwys, sef pwysigrwydd yr amrywiol wledydd, rhanbarthau a chymdogaethau yn y DU. Mae hyn yn ganollbwynt arbennig i gyfrifoldebau'r Bwrdd Cynnwys ac i'm cydweithwyr sy'n cynrychioli buddion y pedair gwlad: Joyce Taylor (yr Alban), Sue Balsom (Cymru), Richard Ayre (Lloegr) a Paul Moore (Gogledd Iwerddon), a wnaeth gyfraniad pwysig eleni. Hoffwn hefyd gymryd y cyfle hwn i ddiolch i Richard Ayre, Sue Balsom, Pam Giddy, Kath Worrall ac Adam Singer am eu gwaith ar y Bwrdd Cynnwys dros sawl blwyddyn, gan eu bod yn ein gadael yn ystod yr haf. Maent wedi bod yn ffynhonnell amhrisiadwy o ddoethineb ac arbenigedd, ac mae ar Ofcom ddiolch mawr iddynt am eu hymdrechion difflino ar ei ran. Yn benodol, hoffwn ddiolch i Adam Singer am ei gefnogaeth yn ei rôl fel Is-gadeirydd y Bwrdd Cynnwys.

Philip Graf Cadeirydd, y Bwrdd Cynnwys


ADRAN B - MEYSYDD GWEITHGARWCH CRAIDD

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn disgrifio prif feysydd gwaith Ofcom rhwng mis Ebrill 2009 a mis Mawrth 2010. Fe'u trefnir dan rai o'r meysydd blaenoriaeth a geir yng Nghynllun Blynyddol Ofcom ar gyfer 2009/10, sy'n amlinellu beth yr oeddem yn bwriadu'i wneud.

Dyma'r meysydd hynny:

- Bwrw ymlaen ag ymagwedd at y sbectrum sy'n seiliedig ar y farchnad
 - Hybu cystadleuaeth ac arloesedd mewn marchnadoedd sy'n cydgyfeirio
 - Gwireddu amcanion budd cyhoeddus wrth i blatfformau a gwasanaethau gydgyfeirio
 - Grymuso dinasyddion a defnyddwyr a gwella'r cydymffurfio rheoleiddiol lle bo angen
 - Symleiddio rheoleiddio a sicrhau cyn lleied o feichiau gweinyddol ag y bo modd
 - Sicrhau cymaint o ddylanwad ag y bo modd ar ddatblygu polisi rhyngwladol
-

BWRW YMLAEN AG YMAGWEDD AT Y SBECTRWM SY’N SEILIEDIG AR Y FARCHNAD



Rhyddhau sbectrwm, gan gynnwys y difidend digidol

Mae'r newid i ddarlledu teledu cwbl ddigidol yn cynyddu ledled y DU. Mae gan dros 90 y cant o gartrefi deledu digidol ac mae'r nifer yn codi bob mis. Eisoes, mae cartrefi yng Ngorllewin Lloegr, yng Nghymru ac yn ardal Granada, sy'n cynnwys Manceinion a Lerpwl, wedi newid yn llwyddiannus, a bydd y broses yn parhau ar draws y DU hyd nes y bydd wedi'i orffen yn 2012.

Mantais amlwg y newid i'r digidol yw y bydd mwy o sianeli ar gael – gyda bron i 100 o sianeli ar Freeview a mwy o lawer ar loeren a chebl.

Ond mae un fantais fawr arall na fydd yn amlwg ar unwaith. Bydd y newid i'r digidol yn rhyddhau rhywfaint o'r sbectrwm radio mwyaf gwerthfawr – a elwir yn Ddifidend Digidol – i'w ddefnyddio at ddibenion newydd. Mae'r sbectrwm yn adnodd cyfyngedig hynod werthfawr. Dyma'r deunydd crai hanfodol ar gyfer pob gwasanaeth di-wifr. Mae rhai amleddau yn fwy gwerthfawr na'i gilydd, er enghraifft, am eu bod yn addas ar gyfer gwasanaethau gwerthfawr iawn megis band eang symudol neu ddarlledu symudol, neu am fod eu defnydd yr un fath yn rhyngwladol, sy'n ei gwneud yn fwy tebyg y bydd yr offer ar gael ymhobman am brisiau fforddiadwy.

Prydain Ddigidol – cynlluniau ar gyfer dyrannu sbectrwm

Yn 2009, fel rhan o'i fenter Prydain Ddigidol, gwnaeth y Llywodraeth ymgynghori ynghylch dyrannu'r sbectrwm

800 MHz (rhan o'r Difidend Digidol a ddisgrifir uchod) a hefyd y sbectrwm 2.6 GHz, sydd â galw amdano gan weithredwyr ffonau symudol er mwyn cael gwasanaethau sy'n defnyddio technolegau megis WIMAX ac esblygiadau o dechnolegau 3G. Roedd yr ymgynghoriad yn adeiladu ar waith cynharach gan Ofcom i ryddhau'r sbectrwm hwn. Roedd amcanion ymgynghoriad y Llywodraeth yn cynnwys annog trosglwyddo i'r genhedlaeth nesaf o wasanaethau symudol a sicrhau bod band eang symudol ar gael yn eang. Gallai band eang symudol gyfrannu at lwyddo i gael band eang sydd bron yn gyffredin ar draws y DU, a fyddai o fudd i ddefnyddwyr.

Rhoddwyd Cyfarwyddyd moderneiddio sbectrwm gerbron y Senedd ychydig cyn yr etholiad cyffredinol. Ar ôl i'r llywodraeth newydd benderfynu sut i yrru'r Cyfarwyddyd yn ei flaen, ac ar ôl i'r Senedd gytuno, bydd Ofcom yn ei roi ar waith cyn gynted â phosibl. Bydd rhyddhau sbectrwm mewn modd amserol yn caniatáu i ddefnyddwyr y DU gael budd o ystod o wasanaethau di-wifr arloesol.

Yn y cyfamser, mae Ofcom wedi parhau gyda'i waith o glirio sbectrwm a'i baratoi at ddefnydd newydd. Mae hyn yn cynnwys creu dau bwyllgor pwysig y'u disgrifir isod.

PWYLLGOR CYLLID CLIRIO SBECTRWM

Ffurfiwyd y Pwyllgor Cyllid Clirio Sbectrwm gan Fwrdd Ofcom ym mis Medi 2009, er mwyn ystyried cynigion am daliadau clirio sbectrwm, a'u pennu. Ers hynny, mae wedi bod yn ystyried materion sy'n gysylltiedig â dau brosiect: clirio teledu daearol digidol (DTT) pŵer uchel o sianeli 61 a 62 a chlirio PMSE (gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig) o sianel 69.

BWRW YMLAEN AG YMAGWEDD AT Y SBECTRWM SY’N SEILIEDIG AR Y FARCHNAD

Y PWYLLGOR DYRANNU TELEDU DAEAROL DIGIDOL

Mae'r Pwyllgor Dyrannu Teledu Daearol Digidol yn is-bwyllgor o Fwrdd Ofcom, ac mae ganddo ddyletswydd i bennu sut y dyrennir capasiti ar Amlblecs B teledu daearol digidol, yn dilyn gorchymyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Gorffennaf 2008. Yn 2009, cafodd Ofcom ddau gais (un gan Channel 5 ac un ar y cyd gan Channel 4/S4C) yn ymateb i'w Wahoddiad i Wneud Cais am bedwerydd slot o gapasiti i ddarparu gwasanaeth teledu manylder uwch ar Amlblecs B. Ar ôl ystyried y ceisiadau, ni wnaeth y Pwyllgor neilltuo capasiti ar gyfer yr un o'r ymgeiswyr, gan nad oedd yr un parti mewn sefyllfa i allu darparu ymrwymiad cadarn at ddyddiad lansio. Gan na neilltuwyd y capasiti, bydd ar gael i'r BBC ei ddefnyddio.

Meicroffonau di-wifr gyda llai o linyddau

Ym mis Rhagfyr 2009, adolygodd Ofcom y trefniadau ar gyfer trwyddedu meicroffonau di-wifr. Mae meicroffonau di-wifr yn chwarae rôl hanfodol mewn nifer o ddiwyddiadau byw; cânt eu defnyddio gan bawb, o arweinwyr a siaradwyr cyhoeddus i actorion a sêr y byd roc.

Erbyn diwedd 2012, bydd un o'r sianeli y maent arni ar hyn o bryd (sianel 69) yn cael ei chlirio at ddefnydd newydd (er mwyn gwella'r Ddifend Digidol). Yn ei lle, bydd sianel 38 ar gael i'w rhannu. Golyga hyn y gall offer a ddefnyddir mewn lleoliadau gwahanol gael eu cynnwys ar yr un drwydded, gan leihau costau a gwaith papur i ddefnyddwyr sy'n teithio gyda'u hoffer.

Sicrhau lle ar y tonfeddi ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012

Bydd Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012 yn creu her logistaidd fawr; sef sicrhau bod sbectrwm radio ar gael. Gyda'r galw a ddaw gan bopeth, o radios cyfathrebu'r trefnwyr i'r camerâu darlledu a fydd yn gwasanaethu cynulleidfa fyd-eang o bum biliwn, bydd mwy o alw nag erioed o'r blaen am le ar donfeddi'r DU.

Ym mis Hydref 2009, cyhoeddodd Ofcom y Cynllun Sbectrwm. Yn unol â gwarantau'r Llywodraeth i'r Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol, mae'r cynllun yn amlinellu sut y gallwn sicrhau digon o sbectrwm a lleihau'r effaith ar ddefnyddwyr cyffredinol ar yr un pryd.

Byddwn yn sicrhau'r sbectrwm drwy bedair prif ffordd, sef:

- benthyg sbectrwm ar sail tymor byr gan gyrrff sector cyhoeddus, megis y Weinyddiaeth Amddiffyn;
- annog defnyddio sbectrwm sifil yn fwy effeithlon;

- defnyddio sbectrwm a ryddhawyd o ganlyniad i'r newid i'r digidol; a
- defnyddio sbectrwm a ganiateir heb drwydded.

Cefnogi datblygiad rhyddhau a masnachu sbectrwm

FFRAMWAITH DIWYGIEDIG AR GYFER PRISIO SBECTRWM

Mae gan Ofcom ddyletswydd i sicrhau bod y sbectrwm radio yn cael ei ddefnyddio hyd yr eithaf. Yn ein barn ni, golyga hyn y dylai'r sbectrwm gael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n sicrhau bod dinasyddion a defnyddwyr yn cael y gwerth gorau ohono, yn cynnwys mwy o fuddion cymdeithasol. Yr ydym yn defnyddio ystod o offer rheoleiddio, gan gynnwys prisio, i gymell defnyddio sbectrwm yn effeithlon.

Ym mis Mawrth 2010, yn dilyn adolygiad o'r modd yr ydym yn pennu ffioedd sbectrwm, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad yn egluro'r modd yr ydym yn prisio sbectrwm ac yn amlinellu'r egwyddorion a'r arferion yr ydym yn cynnig eu defnyddio yn y dyfodol.

GORFODAETH O RAN SBECTRWM

GWARCHOD Y TONFEDDI

Mae radio anghyfreithlon ('pirate radio') yn broblem fawr ym mhrif ardaloedd trefol y DU. Mae risg real y gallai ymyrryd â chyfathrebiadau diogelu bywyd gwasanaethau rheoli ambiwlans, tân, heddlu a thraffig awyr y DU, ac weithiau, gall foddi llais gorsafoedd radio cyfreithlon.


Yn ystod 2009/10, cynhaliodd Ofcom 21 cyrch ar stiwdios darlledwyr anghyfreithlon. Mewn sawl ymchwiliad, roedd yn rhaid i'r achos gael ei gyfeirio at y llysoedd, a gwnaethom sicrhau 26 euogfarn a naw rhybudd ffurfiol yn ystod y flwyddyn. Gwnaethom hefyd roi dau rybudd ysgrifenedig.

OFFER ANGHYFREITHLON

Mae Ofcom hefyd yn gyfrifol am gymryd camau yn erbyn gwerthu a defnyddio offer nad yw'n cydymffurfio â rheoliadau'r DU ac Ewrop. Y rheswm am hyn yw y gall dyfeisiau di-wifr anghyfreithlon darfu ar ddefnyddwyr radio eraill.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gymryd 131 o gamau gorfodi (yn cynnwys 61 o achosion lle'r oeddem yn cadw llygad ar y rhyngwryd drwy safleoedd arwerthu ar-lein). O ganlyniad, tynnwyd 1,142 eitem o offer anghyfreithlon oddi ar y farchnad (yn cynnwys 456 oddi ar eBay). Gwnaethom hefyd roi deg rhybudd ffurfiol a 135 rhybudd ysgrifenedig.

CYSTADLEUAETH AC ARLOESED D Mewn MARCHNADOEDD SY'N CYDGYFEIRIO



Cystadleuaeth gyda Theledu drwy Dalu

Yn ystod 2009/10, daeth ymchwiliad Ofcom i'r sector teledu talu i ben. Y canlyniad oedd y tri phenderfyniad a ganlyn:

- Ei gwneud yn ofynnol bod Sky Sports 1 a 2 yn cael eu cynnig i adwerthwyr ar blatfformau ar wahân i Sky, am brisiau a bennir gan Ofcom.
- Cymeradwyo cais Sky ac Arqiva i Sky gael cynnig ei wasanaethau teledu talu ei hun ar deledu daearol digidol ('Picnic'), ond yn amodol ar weithredu rhwymedigaeth i orfod cynnig Sky Sports 1 a 2 yn gyfanwerthol, gyda thystiolaeth bod hyn wedi'i wneud yn effeithiol. Mae'r canlyniad hefyd yn amodol ar gynnig unrhyw sianeli ffilm sydd wedi'u cynnwys ar Picnic i adwerthwyr teledu daearol digidol eraill.
- Ymgynghori ynghylch penderfyniad arfaethedig i gyfeirio dwy farchnad ffilm sy'n perthyn yn agos at y Comisiwn Cystadleuaeth - ar gyfer gwerthu hawliau ffilm premiwm a gwasanaethau ffilm premiwm. Byddwn yn ymgynghori gyda'r bwriad o ofyn i'r Comisiwn Cystadleuaeth ymateb i'r pryderon hynny yr ydym wedi eu nodi ynghylch cystadleuaeth, yn benodol yng nghyswllt yr ecploetio cyfyngedig ar hawliau tansgrifio ffilmiau Fideo ar Alwad, ond na allwn fynd i'r afael yn iawn â nhw drwy ddefnyddio ein pwerau sector.

Yr ydym yn disgwyl y bydd ein penderfyniadau yng nghyswllt Sky Sports 1 a 2 a Picnic yn rhoi buddion sylweddol i ddefnyddwyr.

- Bydd y budd mwyaf uniongyrchol i'w weld ar deledu daearol digidol. Bydd deg miliwn o gartrefi Freeview

yn gallu gweld y cynnwys chwaraeon sy'n apelio fwyaf drwy'r erial sydd ganddynt eisoes, os byddant yn dewis gwneud hynny, a dylai cystadleuaeth rhwng Sky ac adwerthwyr eraill sicrhau ystod eang o becynnau, yn cynnwys bwndeli lefel mynediad rhad iawn.

- Bydd gwell mynediad at gynnwys poblogaidd yn cymell buddsoddi mewn dulliau newydd o ddsbarthu cynnwys, megis rhwydweithiau band eang mwy cyflym. Yn y tymor hirach, canlyniad hyn fydd amrywiaeth o wasanaethau newydd arloesol ar gyfer defnyddwyr.
- Yr ydym hefyd yn disgwyl gweld gwell dewis o fwndeli mwy eang, yn cynnwys gwasanaethau band eang, teledu a llais, gydag amrywiaeth o gyflenwyr yn gallu cystadlu'n effeithiol dros y tair marchnad gyfathrebiadau allweddol hyn.

Cystadleuaeth ym maes telegyfathrebiadau llinell sefydlog

CHWE MILIWN O LINELLAU BAND EANG HEB EU BWNDELU

Ym mis Awst 2009, gwnaethom lwyddo i allu cyhoeddi carreg filltir bwysig ar gyfer cystadleuaeth ym marchnad band eang y DU. Roedd nifer y llinellau heb eu bwndelu – lle'r oedd darparwyr megis BSkyB a TalkTalk yn cynnig gwasanaethau dros rwydwaith copr BT – wedi cyrraedd chwe miliwn. Y catalydd ar gyfer y cynnydd hwn oedd cyfres o Ymrwymadau sy'n rhwymo dan y gyfraith y gwnaeth Ofcom a BT gytuno arnynt ym mis Medi 2005. Ar y pryd, dim ond 123,000 o linellau heb eu bwndelu oedd yn y DU.

Ym mis Mai 2009, gwnaethom bennu prisiau cyfanwerthol newydd y caiff BT Openreach (adran mynediad cyfanwerthol

CYSTADLEUAETH AC ARLOESIEDD MEWN MARCHNADOEDD SY'N CYDGYFEIRIO

BT) eu codi ar ddarparwyr cyfathrebiadau am fynediad at ei wasanaethau telegyfathrebiadau cyfanwerthol. Bydd y prisiau newydd ar waith tan fis Ebrill 2011, a chynlluniwyd y prisiau i roi enillion teg i BT Openreach ar ei fuddsoddiad yn y rhwydwaith, ynghyd â chymheliant i barhau i fuddsoddi, wrth gefnogi cystadleuaeth ar yr un pryd.

CYSTADLEUAETH BAND EANG EFFEITHIOL I DROS 70 Y CANT O'R BOBLOGAETH

Ym mis Mawrth 2010, gwnaethom gyhoeddi adolygiad o'r farchnad band eang cyfanwerthol. Yn yr adolygiad hwn, gwnaethom ganfod bod cystadleuaeth band eang yn effeithiol yn y rhan fwyaf o'r wlad, a gwnaethom gynnig nad oes angen rheoleiddio ar yr ardaloedd sy'n cynnwys dros 70 y cant o'r boblogaeth. Mae hyn yn dilyn y dadreoleiddio a wnaed gan Ofcom ym mis Mai 2008 mewn ardaloedd sydd â chystadleuaeth effeithiol yn y farchnad band eang. Fodd bynnag, yn yr ardaloedd lleiaf cystadleuol, lle mae gan ddefnyddwyr fynediad at wasanaethau band eang a ddarperir gan BT yn unig (oddeutu 14 y cant o adeiladau'r DU), gwnaethom gynnig rhywfaint o reolaeth prisiau sy'n benodol leol, er mwyn gwarchod defnyddwyr rhag y risg bosibl o brisiau rhy uchel.

Galluogi rheoleiddio clir ar gyfer y genhedlaeth nesaf o rwydweithiau craidd a mynediad

TROI BAND EANG CYFLYM IAWN YN REALITI

Mae band eang cyflym iawn yn troi yn realiti yn y DU, ac mae'r posibilrwydd o newid y ffordd yr ydym yn byw ac yn gweithio yn dod law yn llaw â hyn. Erbyn hyn, mae Virgin Media wedi cwblhau'r uwchraddio er mwyn gallu cynnig gwasanaethau band eang cyflym iawn dros ei rwydwaith cebl, gan gynnig hyd at 50Mb/s. Yn ddiweddar, mae BT wedi lansio ei gynnyrch Infinity, sy'n seiliedig ar yr uwchraddio parhaus i'w rwydwaith mynediad copr, ac sy'n cynnig hyd at 40Mb/s, ac mae wedi cyhoeddi ei fwrriad i anfon ffibr i'r cartref, gan gynnig cyflymderau mwy cyflym i hyd at 10% o gartrefi'r DU, gyda'r posibilrwydd o ehangu hyn yn y dyfodol.

Drwy ddefnyddio gwasanaethau band eang cyflym iawn (yn gyffredinol, ystyrir y rhain i fod y rheini sy'n gallu darparu dros 24Mb/s), gall aelodau gwahanol o'r un cartref gael mynediad at amrywiaeth o wasanaethau lled-band uchel ar yr un pryd. Gallai hyn olygu gwyllo teledu manylder uwch, chwarae gemau rhyngweithiol a ffrydio neu lwytho cerddoriaeth, rhaglenni teledu a ffilmiau oddi ar y rhyngwryd.

Gall busnesau gael budd o wasanaethau cydamserol megis galwadau fideo dwy ffordd a gwel ffyrdd o adfer data, a gallwn ddisgwyl gweld mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithio o gartref.

Ym mis Mawrth 2010, cyhoeddodd Ofcom gynigion i gefnogi buddsoddi mewn band eang cyflym iawn, ac i hyrwyddo cystadleuaeth yn y maes. Mae hyn yn rhan o'n nod cyffredinol i ddarparu sicrwydd ac amgylchedd rheoleiddiol sy'n caniatáu i ddiwydiant adeiladu'r rhwydweithiau a gwasanaethau newydd hyn, a'u marchnata.

Gwnaethom gynnig y dylai cystadleuwyr gael mynediad at rwydwaith band eang cyflym iawn newydd BT sy'n seiliedig ar ffibr, drwy ddefnyddio rhith-gysylltiad arbennig. Byddai'r dull hwn, a elwir yn 'rhith-ddadfwndelu', yn rhoi rheolaeth i ddarparwyr dros y cysylltiad mynediad newydd, fel y gallant ddarparu band eang cyflym iawn i'w cwsmeriaid eu hunain. Er mwyn hyrwyddo buddsoddi, gwnaethom gynnig y dylai BT allu pennu prisiau ar gyfer y cynhyrchion cyfanwerthol newydd hyn, i sicrhau ei fod yn cael cyfradd deg o enillion am ei fuddsoddiad ac am y lefel gysylltiedig o risg. Fodd bynnag, bydd y prisiau hyn yn cael eu cyfyngu gan y farchnad band eang gystadleuol ehangach, sy'n cynnwys y rhwydweithiau copr a chebl sydd eisoes yn bodoli.

Gwnaethom hefyd gynnig y dylai cystadleuwyr gael mynediad at bibellau tanddaearol a pholion telegraff BT, iddynt allu gosod eu rhwydweithiau ffibr eu hunain. Yn yr achos hwn, byddai gofyn i BT rannu gwybodaeth fanwl ynghylch hwylustod mynediad a chapasiti dros ben yn ei rwydwaith. Mae arolygon Ofcom wedi awgrymu fod gan hyd at 40-50 y cant o bibellau BT le ar gyfer ceblau newydd, ond fod argaeledd yn amrywio'n fawr, a byddai angen meddwl o ddifrif am ba mor ymarferol fyddai defnyddio pibellau a pholion BT.

PENSIYNAU A PHRSIO: ADOLYGU YMRWYMIADAU BT

Yn y blynyddoedd diweddar, mae cynlluniau pensiwn 'buddion diffiniedig' cwmnïau wedi cyrraedd y penawdau newyddion wrth i ddiffygion cynlluniau dyfu. Yn ôl y Gronfa Diogelu Pensiynau, roedd diffygion yn y rhan fwyaf o gynlluniau'r DU yn 2009 – hynny yw, roedd gwerth cyfredol rhwymedigaethau cynlluniau yn fwy na gwerth yr asedau.

Mae cynllun pensiwn 'buddion diffiniedig' BT yn un o'r cynlluniau mwyaf yn y DU, gyda rhwymedigaethau o dros £40 biliwn, a diffyg (cyn treth) o dros £9 biliwn (yn seiliedig ar y prisiad actiwaraid fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2008).

Ym mis Rhagfyr 2009, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ynghylch y ffordd yr ydym yn ystyried costau pensiwn BT pan fyddwn yn pennu'r prisiau rheoleddig y caiff BT Openreach eu codi ar ddarparwyr cyfathrebiadau eraill am ddarparu gwasanaethau i ddefnyddwyr. Mae rheoliadau hefyd yn berthnasol i wasanaethau penodol eraill megis llinellau ar brydles y darperir nhw gan BT Wholesale. Gofynnodd yr ymgynghoriad a ddylem gadw ein methodoleg gyfredol (lle'r ydym yn eithrio taliadau i gywiro diffyg ac yn defnyddio'r

CYSTADLEUAETH AC ARLOESIEDD MEWN MARCHNADOEDD SY’N CYDGYFEIRIO

taliadau cyfrifyddu y mae BT wedi’u cofnodi i ganiatáu am gostau gwasanaeth parhaus), neu a ddylem newid ein dull.

Pe byddem yn penderfynu mabwysiadu egwyddorion gwahanol yn y ffordd yr ydym yn mynd i’r afael â chostau pensiwn, gallai gael effaith sylweddol ar randdeiliaid ac, yn y pen draw, ar ddefnyddwyr. Ni fyddai defnyddwyr, o anghenraid, yn sylwi ar y newidiadau i brisiau cyfanwerthol, er y gallem ddisgwyl effaith ar brisiau i ddefnyddwyr. Byddwn yn cyhoeddi ail ymgynghoriad yn ystod haf 2010, lle byddwn yn amlinellu ein dull arfaethedig ar gyfer y dyfodol.

ASESU EIN DULL RHEOLEIDDIO YNG NGHYSWLLT Y SECTOR SYMUDOL

Mae defnyddwyr yn defnyddio mwy a mwy ar wasanaethau symudol, ac yn talu prisiau llai amdanynt, ac maent yn defnyddio gwasanaethau data symudol ac yn mynd ar y rhyngwrwyd ymhobman yn fwy nag erioed o’r blaen. Ym mis Ebrill 2010, cyhoeddodd Ofcom ddata yn dangos cynnydd, mewn blwyddyn, o 200 y cant mewn traffig data ar rwydweithiau symudol.

Roedd gwaith Ofcom i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnad symudol iach yn y DU yn cynnwys cwblhau ein Hasesiad o’r Sector Symudol (fel y trafodir ar dudalen 24). Gwnaethom hefyd weithio gyda’r Swyddfa Masnachu Teg i gefnogi’r Comisiwn Ewropeaidd wrth iddo ystyried ffurfio menter ar y cyd yn cyfuno unedau busnes T-Mobile ac Orange yn y DU.

FFIOEDD TERFYNU IS I DDEFNYDDWYR GWASANAETHAU SYMUDOL


Ym mis Mai 2009, gwnaethom ddechrau adolygu ffioedd terfynu gwasanaethau symudol – y ffioedd cyfanwerthol y mae gweithredwyr yn eu codi i gysylltu galwadau â rhwydweithiau’i gilydd – a’r ffordd y dylent gael eu pennu o 2011 i 2015. Roedd hyn yn dilyn ein penderfyniad cynharach yn 2007 y byddai ffioedd yn lleihau yn flynyddol tan 2011.

Ym mis Ebrill 2010, gwnaethom gyhoeddi cynigion a fyddai’n gweld ffioedd yn lleihau’n gynyddol o 4.3c y funud (ar gyfer O2, Orange, T-Mobile a Vodafone) a 4.6c (ar gyfer 3 UK) yn 2010/11, i 0.5c ar gyfer pob gweithredwr yn 2014/15. Mae’r dull a ddefnyddir i gyfrifo’r ffioedd hyn ond yn ystyried costau sy’n deillio’n uniongyrchol o derfynu galwadau, yn hytrach na gorbenion ychwanegol, ac mae’n gyson â’r dull a argymhellir gan yr Undeb Ewropeaidd.

Byddai’r newidiadau arfaethedig yn cael dau effaith:

- byddai taliadau rhwng gweithredwyr gwasanaethau symudol am derfynu galwadau yn gostwng: byddai’r newid hwn yn cael ei gydbwysu i raddau helaeth ar draws y diwydiant symudol; a
- byddai taliadau a wneir gan weithredwyr sefydlog megis BT i weithredwyr symudol am derfynu galwadau hefyd yn gostwng. Byddwn yn disgwyl i’r gostyngiadau hyn arwain at brisiau is ar gyfer defnyddwyr mewn marchnad gystadleuol.

GWIREDDU **AMCANION BUDD** **CYHOEDDUS** WRTH I BLATFFORMAU A GWASANAETHAU GYDGYFEIRIO



Paratoi ar gyfer dyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (PSB)

Mae Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn darparu ystod eang ac amrywiol o raglenni ar gyfer gwylwyr, gan gynnwys newyddion, materion cyfoes a rhaglenni dogfennol, dramâu a wnaed yn y DU a rhaglenni plant, sydd i gyd cael eu gwerthfawrogi gan gynulleidfaoedd.

DARLLEDU GWASANAETH CYHOEDDUS: GWARIANT LLAI OND CYNULLEIDFAOEDD GWERTHFAWROGOL

Un o rolau statudol Ofcom yw asesu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, a darpariaeth dibenion gwasanaeth cyhoeddus y darlledwyr. Mae'r Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn cynnwys holl wasanaethau'r BBC sy'n cael eu hariannu gan ffrîr drwydded, ITV1, Channel 4, Five ac S4C.

Mae ein hadroddiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus blynyddol, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2009, yn dangos bod y gwerthfawrogiad cyffredinol am Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus wedi cynyddu dros y ddwy flynedd diwethaf, gydag amgylchedd teledu sy'n newid yn gyflym iawn yn gefndir iddo. Gwnaethom ganfod bod 63 y cant o wylwyr yn dweud bod sianeli Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn cynnig rhaglenni o ansawdd uchel, sy'n gynydd o bedwar pwynt canran ar y flwyddyn. Roedd mwy o wylwyr hefyd yn meddwl bod rhaglenni newyddion yn ddibynadwy, ac yn teimlo bod ymdriniaeth o ddigwyddiadau cenedlaethol mawr yn dda.

Fodd bynnag, gwariodd y pum sianel Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus mwyaf 15 y cant yn llai ar raglenni gwreiddiol y DU yn 2008 (£2.6bn) nag a wnaethant yn 2004 (£3bn). Yn

yr un cyfnod, cafwyd gostyngiad o dri y cant ar gyfanswm yr oriau o gynnwys gwreiddiol a ddarlledwyd, wrth iddo gwmpo i 33,177 awr y flwyddyn.

DIM NEWID I GYFANSWM YR HYSBYSEBU A GANIATEIR

Yn dilyn ail ran ein hadolygiad o reoliadau hysbysebu, gwnaethom ddweud ym mis Mai 2009 nad ydym yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i gyfanswm yr hysbysebu ar y teledu, er y byddwn yn ymchwilio i'r mater eto yn 2010.

Fodd bynnag, fe wnaethom rywfaint o newidiadau bychain i amserlen hysbysebu ar sianeli Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus. Gwnaethom ganiatáu rhagor o egwylliau mewn rhaglenni Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus a oedd yn hwy nag awr, gan wneud y rheolau yn unol â'r rheolau ar gyfer sianeli nad ydynt yn Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus. Gwnaethom hefyd ganiatáu telesiopa ar sianeli Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus rhwng hanner nos a 6am. Gwnaethom hefyd gynyddu gwarchodaeth ar gyfer gwylwyr gwasanaethau trafodion gamblo.

Cynnwys a safonau ar y teledu a'r radio

ADOLYGU'R CÔD DARLLEDU

Adolygwyd 'llyfr rheolau' y darlledwyr teledu a radio ym mis Rhagfyr ar yr un pryd â chyhoeddi Côt Darlledu 2009.

Mae'r Côt yn amlinellu rheolau clir sy'n rhoi rhyddid i gynulleidfaoedd gael gwybod am yr hyn maent yn ei wyllo ac i wneud dewisiadau o ran gwranddo, ac mae'n rhoi rhyddid i ddarlledwyr fod yn greadigol.

GWIREDDU AMCANION BUDD CYHOEDDUS WRTH I BLATFFORMAU A GWASANAETHAU GYDGYFEIRIO

Mae'r Côt diwygiedig yn parhau i drafod meysydd megis gwarchod pobl dan 18, niwed a thramgwydd, tegwch a phreifatrwydd, a chyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni. Bwriad y prif ddiwygiadau oedd bod o fudd i gynulleidfaoedd drwy helpu darlledwyr i osgoi methiannau o ran cydymffurfio, yn benodol mewn meysydd yn cynnwys cystadlaethau i gynulleidfaoedd a phleidlais i gynulleidfaoedd, a deunydd rhywiol. Comisiynwyd ymchwil diweddar ynglŷn ag agwedd cynulleidfaoedd at ddeunydd rhywiol, a chyhoeddwyd yr ymchwil fel rhan o Adolygu'r Côt. Ynghyd ag ymchwil diweddar ynglŷn ag agwedd y cyhoedd at iaith dramgwyddus, sydd i'w gyhoeddi yn 2010, bydd yr ymchwil hwn yn helpu i roi gwybod i Ofcom am ddatblygiadau yn agweddau defnyddwyr pan fydd yn rhoi rheolau'r Côt ar waith.

Roedd y newidiadau i'r Côt yn cynnwys gofynion Cyfarwydddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol Ewrop. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth bellach wedi penderfynu caniatáu gosod cynnyrch mewn rhai genres o raglenni teledu, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, ac mae wedi gofyn i Ofcom ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch newidiadau manwl i'r Côt er mwyn caniatáu hyn. Felly, bydd Adolygu'r Côt yn parhau yn 2010, er mwyn adolygu a diwygio'r adrannau hynny sy'n trafod cyfeiriadau masnachol.

Ymchwiliadau i raglenni

Y rheswm mwyaf dros gwyno am raglenni teledu a radio oedd deunydd yr oedd gwylwyr neu wrandawyr yn ei ystyried yn niweidiol neu'n dramgwyddus, gan gynnwys sylwadau hiliol, iaith gref, delweddau rhywiol a deunydd sy'n tramgwyddo yn erbyn crefydd.

Yn ystod 2009/10, cawsom dros 24,000 o gwynion, un ai gan wylwyr neu gan wrandawyr, neu gan bobl a oedd yn rhan o raglenni.

Dyma sampl fechan o rai o'r achosion y gwnaethom eu hystyried:

- Cwynion ynglŷn ag annhegwch a wnaed yn erbyn rhaglen *Pedigree Dogs Exposed* gan y Kennel Club. Cyfiawnhawyd y gŵyn, i raddau, am na chafodd y Kennel Club gyfle i ymateb i gyhuddiad ynghylch ewgeneg, cymhariaeth â Hitler, a chysylltiad â theori hiliol Natsiaidd, nac i gyhuddiad o gelu llawdriniaeth a wnaed ar enillydd *Crufts Best in Show*, er i'r Clwb gael cyfle i ymateb i gyhuddiadau difrifol eraill. Cyfiawnhawyd hefyd gwynion ynglŷn â'r rhaglen a wnaed gan y Rhodesian Ridgeback Club of Great Britain a Mrs Virginia Barwell, ond ni dderbyniwyd y cwynion a wnaed gan y Cavalier King Charles

Spaniel Club a Mr Michael Randall. Rhoddodd Ofcom gyfarwyddyd i'r BBC ddarlledu crynodeb o'n dyfarniadau.

- Cwynion gan wylwyr ynghylch rhaglen ddogfen pedair rhan, *Boys and Girls Alone*, a ddarlledwyd ar Channel 4 ym mis Chwefror 2009. Roedd rhai yn bryderus ynglŷn â'r ffaith bod deg bachgen a deg merch, i gyd rhwng wyth a 12 mlwydd oed, wedi cael eu gadael mwy neu lai ar eu pennau eu hunain mewn awyrgylch a oedd, o bosib, yn anniogel, heb oedolyn i'w goruchwyllo. O ganlyniad i waith ymchwil Ofcom, canfuwyd nad oedd hyn yn wir, ond gwnaeth Ofcom hefyd ganfod nad oedd y darlledwr wedi rhoi digon o wybodaeth i'r gwylwyr ynglŷn â'r mesurau diogelwch a roddwyd ar waith.
- Gwnaethom roi dirwy o £80,000 i Channel TV, am y modd y gwnaeth ddelio â phleidleisio dros y ffôn ar gyfer Gwobr Dewis y Bobl yng Ngwobrau Comedi Prydain 2004 a 2005. Yn y ddau achos, cafodd hanner awr olaf y rhaglen ei recordio o flaen llaw, ond ei darlledu 'fel ei bod yn fyw'. Yn ystod yr amser hwn, roedd gwylwyr yn dal i gael eu hannog i wneud galwadau cyfradd premiwm er mwyn pleidleisio mewn cystadleuaeth a oedd wedi'i phenderfynu eisoes.
- Penderfynodd Ofcom na thorrrwyd y Côt pan wnaeth Channel 4 ddarlledu rhaglen ddogfen *Despatches* ddadleuol yn ymchwilio i gyfnod Boris Johnson fel Maer Llundain, *The Trouble with Boris*. Yn y penderfyniad hwn, gwnaeth Ofcom bwysleisio rôl hanfodol newyddiaduraeth ymchwiliol mewn darlledu unwaith eto.
- Gwnaed bron i 4,000 o gwynion am raglen *X Factor* (ITV1) yn cynnwys sylwadau tramgwyddus a wnaed gan Dannii Minogue, un o'r beirniaid, ynglŷn ag un o'r cystadleuwyr, sef Danyl Johnson. Er bod nifer o wylwyr yn meddwl bod y sylwadau yn rhai heriol a thramgwyddus, penderfynodd Ofcom bod y cyd-destun yn eu cyfiawnhau.

Gallwch weld manylion llawn bob dyfarniad ar wefan Ofcom yn: www.ofcom.org.uk/tv/obb

RHEOLEIDDIO FIDEO AR ALW

Ym mis Rhagfyr 2009, datganwyd mewn cyfraith Ewropeaidd ddiwygiedig fod yn rhaid rheoleiddio gwasanaethau Fideo ar Alw (megis BBC iPlayer, AOD, ITV Player, SkyPlayer a Demand Five). Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol bod deunydd sy'n cael ei ddarparu ar wasanaethau o'r fath yn glynw wrth nifer o

¹Nid yw Ofcom wedi rhoi'r ddyletsydd o reoleiddio'r BBC yn y maes hwn i neb arall, felly Ofcom sy'n parhau i'w reoleiddio

GWIREDDU AMCANION BUDD CYHOEDDUS WRTH I BLATFFORMAU A GWASANAETHAU GYDGYFEIRIO

safonau sylfaenol, yn cynnwys gwahardd deunydd sy'n annog casineb ar sail hil, rhyw, crefydd neu genedligrwydd. Mae'n rhaid i raglenni noddedig hefyd gydymffurfio â'r gofynion perthnasol.

Ym mis Mawrth 2010, yn dilyn ymgynghoriad, gwnaeth Ofcom ddynodi'r Gymdeithas ar gyfer Teledu ar Alw (ATVOD) fel cyd-reoleiddiwr ar gyfer cynnwys golygyddol ar wasanaethau Fideo ar Alw y DU. Bydd yn gyfrifol am sicrhau bod rhaglenni yn glynu wrth y safonau sylfaenol hyn.

Cefnogi esblygiad radio

LLACIO'R RHEOLAU YNGHYLCH PERCHNOGAETH CYFRYNGAU LLEOL

Gyda dirwasgiad mawr ym myd hysbysebu yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, a mwy a mwy o gystadleuaeth o du cyfryngau newydd, mae'r sector cyfryngau lleol wedi bod o dan bwysau masnachol difrifol.

Ym mis Tachwedd 2009, yn dilyn ymgynghoriad ynghylch y sector cyfryngau lleol, gwnaethom argymhell dau newid i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a fyddai'n llacio rheoliadau ynghylch perchnogaeth cyfryngau:

- cael gwared ar y rheolau yn ymwneud â gwasanaethau radio lleol/perchnogaeth amblecs a pherchnogaeth amblecs radio cenedlaethol; a
- llacio rheolau perchnogaeth ar draws cyfryngau lleol. Yr unig gyfyngiad fyddai ar berchnogaeth bob un o'r tri a ganlyn: gorsaf radio leol; papurau newydd lleol (gyda 50 y cant neu ragor o gyfran y farchnad leol); a thrwydded Channel 3 rhanbarthol.

TRWYDDEDU RADIO

Yn ystod y flwyddyn rhwng Ebrill 2009 a Mawrth 2010, gwnaeth y Pwyllgor Trwyddedu Radio ystyried tri chais am newid Fformat gan orsafoedd radio masnachol analog. Gwnaeth hefyd gytuno i newidiadau yn nhrefn gwasanaethau rhaglenni ar yr amblecs radio cenedlaethol, cytuno i newidiadau i ddyddiadau lansio gwasanaethau amblecs radio lleol newydd, a thrafod amrywiol faterion eraill ynghylch trwyddedu radio.

Rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2010, dyfarnodd y Pwyllgor Trwyddedu Radio gyfanswm o 26 trwydded Radio Cymunedol (ffigur 1). Erbyn diwedd y flwyddyn adrodd hon, roedd tua 221 o grwpiau ledled y DU wedi cael trwydded Radio Cymunedol. O'r rhain i gyd, roedd 167 gorsaf yn darlledu.

FFIGUR 1: TRWYDDEDU RADIO CYMUNEDOL A DDYFARNWYD RHWNG 1 EBRILL 2009 A 31 MAWRTH 2010

1 Ummah FM	Reading
107 Meridian FM	Dwyrain Grinstead
107.8 Academy FM Thanet	Ramsgate, Caint
Academy FM Folkestone	Folkestone, Caint
AHBS Community Radio	Ashford, Kent
Awaaz Radio	High Wycombe
Biggles FM	Sandy, Swydd Bedford
Gateway FM	Basildon
HCR FM	Huntingdon
Insanity	Egham
Inspire FM	Luton
Intobeats FM	Bedford
Kane FM	Guildford
Marlow FM	Marlow, Swydd Buckingham
OX4 FM	Rhydychen
Radio BGWS	Farnborough/Aldershot/Camberley/Fleet
Radio LaB	Luton
Radio Sunlight	Gillingham, Caint
Rye FM	Rye, Dwyrain Sussex
SAFE Radio	Grays, Essex
Seahaven FM	Newhaven/Seaford/Peacehaven, Dwyrain Sussex
SFM	Sittingbourne
The Park	Brockenhurst
Uckfield FM	Uckfield, East Sussex
Vibe FM	Watford
Voice FM	Southampton

GRYMUSO DINASYDDION A DEFNYDDWYR A GWELLA'R CYDYMFFURFIO RHEOLEIDDIOL LLE BO ANGEN



Gwasanaethau Symudol: addo rhagor o warchodaeth i ddefnyddwyr

Mae cyfathrebu symudol wedi trawsffurfio'r ffordd y mae'r mwyafrif ohonom yn cadw mewn cysylltiad. Mae arloesedd yn ffynnu: yr ydym yn defnyddio mwy o wasanaethau data a thestun; mae mynediad at y rhyngwyd drwy ffonau symudol yn mynd yn fwyfwy poblogaidd; a gall dyfeisiau symudol gyflawni mwy wrth gostio llai.

Ym mis Rhagfyr 2009, gwnaethom ddod â'n hasesiad o'r sector symudol i ben drwy gyhoeddi Datganiad Asesiad o'r Sector Symudol. Gwnaethom ganfod bod marchnadoedd symudol yn gwasanaethu dinasyddion a defnyddwyr y DU yn dda ar hyn o bryd, ac mai'r gystadleuaeth rhwng gweithredwyr gwasanaethau symudol sy'n gyfrifol am hyn.

Yr ydym am sicrhau bod defnyddwyr yn parhau i gael y dewis gorau o wasanaethau symudol, a'r gwerth gorau am eu harian, ac mae meysydd lle y bydd angen i ni fod y barod i ymyrryd os na fydd y farchnad yn darparu gwasanaethau da ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr.

Ein blaenoriaethau yw sicrhau'r canlynol:

- bod modd newid gwasanaethau yn hawdd ac mewn modd dibynadwy;
- mynediad at wybodaeth cymharu prisiau annibynnol er mwyn galluogi defnyddwyr i gael bargaen dda;
- gwarchodaeth i ddefnyddwyr rhag arferion sy'n gamarweiniol neu sy'n ecsplotio; ac
- nad yw defnyddwyr sy'n agored i niwed dan anfantais.

Yr ydym hefyd yn ystyried bod darpariaeth gwasanaethau symudol yn faes sy'n achosi pryder parhaus. Yr ydym yn cynnal gwaith ymchwil er mwyn canfod achosion ardaloedd digyswllt, yn cynnwys y rheini mewn ardaloedd lle y ceir darpariaeth gan rwydweithiau symudol, a chysylltu â gweithredwyr gwasanaethau symudol a chyrrff cyhoeddus er mwyn archwilio'r cyfraniad y gallwn ei wneud er mwyn hwyluso gwell darpariaeth.

Yn ystod y flwyddyn dan sylw, gwnaethom hefyd ddarparu tystiolaeth i'r Comisiwn Ewropeaidd bod Orange a T-Mobile wedi cyfuno yn y DU. Dywedodd y Comisiwn y dylai'r dda gwmni gytuno ar nifer o ymrwymadau cyn cyfuno.

Mesurau newydd i warchod defnyddwyr

Mae dulliau'r diwydiant ffonau symudol wedi denu nifer o gwynion dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhain yn amrywio o gwsmeriaid yn canfod eu bod ar dariffau mwy drud neu ar gontractau hirach nag yr oeddynt wedi cytuno iddynt, i broblemau gydag ychydig iawn o signal neu ddim signal o gwbl.

RHEOLAU NEWYDD I FYND I'R AFAEL Â CHAM-WERTHU GWASANAETHAU SYMUDOL

Gwnaethom roi rheolau newydd ar waith ym mis Medi 2009, er mwyn rhoi terfyn ar y darparwyr gwasanaethau symudol sy'n ymwneud ag arferion gwerthu anonest, camarweiniol neu dwyllodrus. Maent yn disodli Côd Ymarfer Gwirfoddol, a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2007, er mwyn mynd i'r afael â materion cam-werthu ac arian-yn-ôl.

Ynghyd â'r gofynion newydd, mae'n rhaid i weithredwyr rhwydweithiau symudol wneud y canlynol:

GRYMUSO DINASYDDION A DEFNYDDWYR

- peidio â cham-werthu gwasanaethau ffonau symudol;
- sicrhau bod cwsmeriaid yn bwriadu ymrwymo i gytundeb, a bod ganddynt awdurdod i wneud hynny;
- wrth werthu, sicrhau bod cwsmeriaid yn cael yr wybodaeth y mae arnynt ei hangen;
- sicrhau nad yw telerau ac amodau bargeinion arian-yn-ôl sy'n cael eu cynnig gan adwerthwyr yn rhy gyfyngedig; a
- chynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy penodol ar adwerthwyr.

Mae darparwyr sy'n torri'r rheolau hyn mewn perygl o gael dirwyon o hyd at ddeg y cant o'r trosiant perthnasol.

CAM-WERTHU GWASANAETHAU LLINELL SEFYDLOG: RHEOLAU NEWYDD SYDD AR WAITH

Gwnaethom hefyd gyhoeddi rheolau newydd i reoli'r sector llinell sefydlog ym mis Mawrth 2010.

Er bod y rhan fwyaf o ddarparwyr yn marchnata eu gwasanaethau mewn modd cyfrifol, mae rhai yn defnyddio dulliau cam-werthu sydd wedi achosi 750 cwyn y mis gan gwsmeriaid, ar gyfartaledd. Mae'r rhain yn cynnwys 'slamio', lle caiff cwsmer ei newid o un darparwr i ddarparwr arall heb iddo wybod a heb iddo roi caniatâd. Dyma rai eraill:

- darparwyr telegyfathrebiadau yn ffonio gan esgus bod yn gwmni arall;
- rhoi gwybodaeth anghywir am gostau pecynnau; a
- pheidio â chynghori cwsmeriaid ynghylch isafswm cyfnodau contractau a ffioedd terfynu'n gynnar.

Y mae'r rheolau newydd yn gwneud y canlynol:

- gwahardd darparwyr telegyfathrebiadau rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau gwerthu a marchnata camarweiniol ac amhriodol, a slamio;
- ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau telegyfathrebiadau gadw gwell cofnodion o'u gweithgareddau gwerthu a marchnata;
- cadarnhau math a lefel yr wybodaeth y mae ei hangen ar gwsmeriaid newydd cyn gwerthu, ac ar ôl gwerthu; a
- chyflwyno rheolau newydd yn egluro'n glir pryd y caiff darparwyr ganslo archebion a wnaed gan ddarparwyr eraill.

Gwnaethom hefyd gyhoeddi rhaglen fonitro a gorfodi i sicrhau cydymffurfio â'r rheolau newydd. O'r blaen, ymchwiliwyd i 14 cwmni ar yr amheuaeth eu bod wedi torri'r rheoliadau cyfredol, a rhoddwyd y ddirwy uchaf i ddau ohonynt, sef deg y cant o drosiant y cwmni, am beidio â chydymffurfio.

RHEOLAU NEWYDD A RHAGOR O GYNIGION AR GYFER CWYNION YN YMWNEUD Â THELEGYFATHREBIADAU

Bob wythnos, mae Ofcom yn cael miloedd o alwadau gan gwsmeriaid sy'n anhapus gyda'u darparwyr telegyfathrebiadau.

Yn hanesyddol, roedd yn rhaid i gwsmeriaid roi 12 wythnos i'w darparwyr ddatrys problem cyn gallu mynd â chwyn at wasanaeth datrys anghydfodau. Fodd bynnag, mae ein gwaith ymchwil yn dangos bod cwynion yr un mor debygol o fod heb eu datrys ar ôl 12 wythnos ag ydynt ar ôl wyth wythnos.

Mae rheolau newydd a roddwyd ar waith ym mis Medi 2009 yn pennu bod gan ddarparwyr telegyfathrebiadau bellach wyth wythnos i ddatrys cwyn, yn hytrach na 12. Mae'n rhaid iddynt hefyd gydymffurfio â chod ymarfer sydd wedi'i gymeradwyo gan Ofcom, a bod yn aelod o gynllun datrys anghydfodau cymeradwy (CISAS neu Otelo). Mae darparwyr sy'n peidio â chydymffurfio mewn perygl o gael dirwy o hyd at ddeg y cant o'u trosiant perthnasol.

Mae ein gwaith ymchwil wedi dangos bod dros 85 y cant o gwsmeriaid yn fodlon neu'n fodlon iawn â'u darparwyr cyfathrebiadau. Fodd bynnag, gwnaethom hefyd ganfod bod 23 y cant o'r boblogaeth wedi cwyno'r llynedd, gyda 30 y cant o'r cwynion hynny yn dal heb gael eu datrys deuddeng wythnos yn ddiweddarach. Roedd hyn yn creu cyfanswm o dros dair miliwn o gwynion. Nid oedd llawer o bobl yn gwybod bod ganddynt yr hawl i fynd â'u problemau gerbron gwasanaeth datrys anghydfodau annibynnol.

Ym mis Rhagfyr 2009, gwnaethom gyhoeddi cynigion i wella'r ffordd y mae darparwyr yn delio â chwynion eu cwsmeriaid. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- sefydlu safonau sylfaenol ar gyfer delio â chwynion, gan sicrhau hwylustod a thryloywder;
- codi ymwybyddiaeth am wasanaethau datrys anghydfodau y profir eu bod yn helpu i ddatrys cwynion tymor hir; ac
- ystyried a fyddai cyhoeddi perfformiadau penodol darparwyr yn y maes hwn o fudd i dryloywder, ac felly hefyd o fudd i ddefnyddwyr a'r diwydiant.

Hyrwyddo gwybodaeth i ddefnyddwyr a gwella'r drefn o newid darparwr

Band eang

RHOI GWYBOD AM GYFLYMDER BAND EANG

Wrth i gwsmeriaid band eang ddod yn gyfarwydd â defnyddio rhaglenni y mae angen llawer o led band arnynt (megis llwytho cerddoriaeth a fideo oddi ar y we), maent yn canolbwyntio mwy a mwy ar y cyflymder y maent yn ei gael. Mae hyn wedi'i waethygu gan ddiffyg gwybodaeth ddibynadwy ynghylch cyflymderau gwirioneddol a ddarperir gan Ddarparwyr Gwasanaethau Rhyngwyd.

GRYMUSO DINASYDDION A DEFNYDDWYR

Ym mis Gorffennaf 2009, datgelodd Ofcom ganlyniadau rhaglen ymchwil bwysig i gyflymder band eang llinell sefydlog yn y DU.

Gwnaethom gynnal ein hymchwil gyda'r partner technegol SamKnows a'r asiantaeth ymchwil GfK, ac roedd ein hymchwil yn dangos bod mwyafrif y cwsmeriaid yn hapus â'r cyflymder yr oeddynt yn ei gael, er bod ychydig dros chwarter wedi dweud nad oedd y cyflymder yr oeddynt yn ei gael mor gyflym â'r hyn yr oeddynt wedi'i ddisgwyl wrth brynu'r gwasanaeth.

Dyma'r canfyddiadau allweddol:

- Cyflymder band eang y DU ar gyfartaledd ym mis Ebrill 2009 oedd 4.1Mbit/eiliad, o'i gymharu â'r cyflymder o 'hyd at' 7.1Mbit/eiliad ar gyfartaledd a honnwyd yn y penawdau.
- Roedd y cyflymderau gwirioneddol yn amrywio'n fawr. Roedd llai nag un o bob deg o'r rheini yn ein sampl a oedd â phhecynnau'n hysbysebu 8Mbit/eiliad yn cael cyflymder gwirioneddol o dros 6Mbit/eiliad, ac roedd tua un o bob pump yn cael llai na 2Mbit/eiliad ar gyfartaledd.
- Roedd pobl mewn trefi yn cael cyflymder o 4.6Mbit/eiliad ar gyfartaledd, o'i gymharu â 3.3Mbit/eiliad ar gyfartaledd i ddefnyddwyr mewn ardaloedd gwledig.
- Yn gyffredinol, roedd cwsmeriaid yn gweld bod y cyflymder yn arafu tua 20 y cant yn ystod oriau brig gyda'r nos (8-10pm).
- Roedd y defnyddwyr oedd â phhecynnau 'o hyd at' 8Mbit/eiliad gyda thechnoleg Llinell Danysgrifio Ddigidol (DSL) ail genhedlaeth (ADSL2+) yn cael cyflymderau uwch na'r rheini gyda Llinell Danysgrifio Ddigidol Anghymesur 1 (ADSL1) sy'n fwy cyffredin, er y gallai Darparwyr Gwasanaethau Rhynggrwyd sy'n defnyddio ADSL1, a oedd wedi buddsoddi mewn capasiti rhwydwaith, ddarparu cyflymder tebyg i weithredwyr ADSL2+.
- Ar gyfartaledd, roedd cwsmeriaid cebl yn cael cyflymderau uwch o lawer na'r ddwy dechnoleg ASDL.

CHWILIO AM Y GWIR YNGHYLCH CYFLYMDER BAND EANG

Gwnaeth rhaglen siopa dirgel a oedd yn pwyso a mesur i ba raddau y cydymffurfir â Chôd Ymarfer Gwirfoddol Ofcom ynghylch Cyflymder Band Eang ganfod bod Darparwyr Gwasanaethau Rhynggrwyd yn bodloni rhai agweddau ar y côd, ond nid rhai eraill. Rhoddwyd y côd ar waith ym mis Rhagfyr 2008, ac mae'n gwarchod 95 y cant o gwsmeriaid band eang preswyl y DU.

Dangosodd canlyniadau a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2010 bod 85 y cant o siopwyr dirgel dros y ffôn wedi cael amcangyfrif o'r cyflymder uchaf a oedd ar gael ar eu llinellau, cyn iddynt brynu gan ddarparwyr. Fodd bynnag, roedd yn rhaid i 42 y cant holi darparwyr am gyflymder uwch yn hwyr yn y broses werthu. Hefyd, ni ddywedwyd

wrth oddeutu 74 y cant y byddai eu cyflymder gwirioneddol yn debyg o fod yn is na'r cyflymder uchaf.

Gwnaethom gyhoeddi ein bod yn cynnig tynhau'r côd er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, a'n bod yn gobeithio cytuno ar gôd diwygiedig gyda Darparwyr Gwasanaethau Rhynggrwyd erbyn haf 2010. Os na cheir cytundeb, gwnaethom ddweud y byddem yn ystyried a fydd angen rheoleiddio ffurfiol.

Gwasanaethau Symudol

TROSLWYDDO MEWN DIWRNOD

Mae gwaith ymchwil Ofcom yn dangos bod tua 71 y cant o gwsmeriaid ffonau symudol am gadw'u rhifau wrth symud at weithredwr newydd.

Ym mis Awst 2009, gwnaethom gyhoeddi bod arnom eisiau gallu trosglwyddo rhifau hyd yn oed yn fwy cyflym, mewn modd symlach, drwy leihau amser trosglwyddo o ddau ddiwrnod gwaith i un. Yn dilyn ymgynghoriadau, ar 1 Ebrill 2010, roeddem yn gallu cyhoeddi y bydd cwsmeriaid yn gallu trosglwyddo eu rhifau o fewn un diwrnod gwaith. Bydd y Côd Awdurdodi Trosglwyddo (Porting Authorisation Code – PAC) yn cael ei roi o fewn dwy awr fan bellaf, ar ffurf neges destun. Yr ydym yn disgwyl i'r newidiadau ddod i rym yn ystod hanner cyntaf 2011.

BARGEINION FFONAU SYMUDOL: ARBED AMSER, YMDRECH A PHUNNOEDD

Mae gwasanaethau cymharu prisiau o safon yn gyfrwng defnyddiol i ddefnyddwyr sydd am weld beth sydd ar gael a sicrhau'r fargen orau.

Ym mis Mai 2009, gwnaeth Ofcom ddyfarnu ei drydydd achrediad i wasanaeth cymharu newydd ar gyfer cwsmeriaid ffonau symudol: BillMonitor.

Mae BillMonitor yn defnyddio ystadegau manwl i ddod o hyd i'r cynlluniau prisio gorau ar gyfer ffonau symudol i ddefnyddwyr, y cynigir nhw gan weithredwyr rhwydwaith y DU: 3, O2, Orange / T-Mobile a Vodafone. Mae'n dadansoddi patrymau defnydd hanesyddol er mwyn rhagweld defnydd yn y dyfodol a gall roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddefnyddwyr ynghlŷn â'r arian y gallant ei arbed wrth i'r rhwydweithiau newid eu cynlluniau prisio.

Rheoli adnodd rhifau ffôn y DU

GALWADAU RHATACH I RIFAU 0870

Mae rhifau 0870 yn aml yn costio mwy i'w deialu na rhifau daearyddol (01, 02 a 03) a defnyddir y rhifau hyn gan nifer o fusnesau a chyrrff er mwyn darparu gwybodaeth a llinellau gwasanaeth i gwsmeriaid. Mae prisiau uwch wedi golygu bod y busnesau hyn wedi gallu cael canran o'r ffioedd a godir. Yn y dyfodol, bydd rheolau llym ynghylch sut caiff y prisiau hyn eu hysbysebu, a sut cynghorir cwsmeriaid ynghylch y ffi a godir arnynt.

GRYMUSO DINASYDDION A DEFNYDDWYR

Gwnaeth Ofcom gyflwyno rheolau newydd ar 1 Awst 2009, wedi'u cynllunio i wneud galwadau i rifau 0870 yn rhatach o lawer. Yr ydym yn credu y bydd y rheolau hyn yn rhoi terfyn ar rannu refeniw ar rifau 0870.

RHOI RHIFAU 116 PAN-EWROPEAIDD I ELUSENNAU

Bellach, os oes unrhyw un yn Ewrop y mae arno angen cymorth gan elusennau sy'n delio â phobl ar goll, amddiffyn plant, neu sy'n darparu cefnogaeth emosiynol, dim ond un rhif y bydd angen iddo ei gofio.

Ym mis Hydref 2009, gwnaeth Ofcom ddyfarnu'r rhifau 116 pan-Ewropeaidd cyntaf i Missing People (116 000), Childline NSPCC (116 111) a'r Samariaid (116 123). Os byddwch yn deialu'r rhifau hyn dramor yn Ewrop, bydd y rhifau yn eich cysylltu â gwasanaethau cenedlaethol tebyg yn y wlad honno.

RHIF 111 NEWYDD AR GYFER GALWADAU NAD YDYNT YN RHAI BRYD

Ym mis Rhagfyr 2009, gwnaeth Ofcom gadarnhau ei fod wedi dyrannu rhif ffôn tri digid cofiadwy newydd – 111 – ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd y GIG nad ydynt yn rhai brys, gan ei gwneud yn haws i gleifion gael mynediad at gyngor ar gyfer sefyllfaoedd difrifol, ond lle nad oes bywyd mewn perygl. Bydd y gwasanaethau brys yn parhau i weithredu ar 999 ac 112.

Hyrwyddo mynediad, cynhwysiad a llythrennedd yn y cyfryngau

LANSIO'R CONSORTIWM CYFRANOGIAD DIGIDOL

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad Prydain Ddigidol ym mis Mehefin 2009, gofynnodd y Llywodraeth i Ofcom sefydlu a chadeirio'r Consortiwm Cyfranogiad Digidol. Ei ddiben yw cynyddu cyrhaeddiad, hyd a lled y defnydd o dechnoleg ddigidol, datblygu cyfranogiad digidol hyd yr eithaf a hyrwyddo'i fuddion economaidd a chymdeithasol.

Gall unrhyw gorff ymaelodi â'r Consortiwm, cyn belled â'i fod yn gallu defnyddio'i sianeli cyfathrebu i roi gwybod, i annog ac i gynnig cefnogaeth yn y maes i bobl y mae arnynt ei angen. Mae aelodau mwy'r Consortiwm yn cynnwys y BBC, Channel 4, BSkyB, BT, canolfannau ar-lein y DU, Age UK, Race Online 2012, AOL, Virgin Media a Swyddfa'r Post.

PARHAU I HYRWYDDO LLYTHRENNEDD YN Y CYFRYNGAU

Mae Ofcom yn parhau i ymchwilio i ddealltwriaeth pobl o dechnoleg cyfathrebiadau a'r cyfryngau, a'u hagweddau tuag atynt, fel rhan o'i waith yn hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau. Yr ydym yn cefnogi asiantaethau megis Cyngor y DU ar Ddiogelwch Plant ar y Rhyngwrwyd a Get Safe Online, sy'n helpu pobl i fwynhau buddion y rhyngwrwyd mewn modd diogel.

GWNEUD CYFATHREBIADAU'DN HAWS I BAWB

Un o ddyletswyddau Ofcom yw annog argaeledd gwasanaethau ac offer cyfathrebu sy'n hawdd i'w defnyddio ar gyfer pobl hŷn, a phobl anabl.

Ym mis Mehefin 2009, gwnaethom gyhoeddi ymchwil a gomisiynwyd gan Bwyllgor Ymgynghori Ofcom ar gyfer Pobl Hŷn a Phobl Anabl. Roedd yn ymchwilio i sut mae gwneuthurwyr offer a chyflenwyr gwasanaethau yn bodloni anghenion y defnyddwyr hyn ar hyn o bryd, a'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag bodloni eu hanghenion.

Dyma rai o'r syniadau a ddaeth o'r ymchwil:

- prosesau caffael sy'n ystyried hwylustod mynediad a hwylustod defnyddio;
- gwell cyfathrebu â rhanddeiliaid;
- gwell mynediad at wybodaeth a mecanweithiau ar gyfer rhannu gwybodaeth am anghenion pobl hŷn a phobl anabl; a
- marchnata cynhyrchion a gwasanaethau sydd ar gael fel dewis moesegol.

Ym mis Hydref 2009, gwnaethom bennu'r camau nesaf ar gyfer sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebu ar gael ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Roedd hyn yn dilyn dadansoddiad bod mwy i'w wneud er mwyn llwyddo i gael mynediad eang a chynhwysiad eang ledled y DU, gan gynnwys

- **Gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid anabl** – mae hyn yn cynnwys gwerthusiad o'r gwasanaeth cyfnewid testun presennol ar gyfer pobl sydd â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd, ymgynghoriad Ofcom am ddyfodol gwasanaethau mynediad teledu ac adnodd Switch On! Ofcom ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ag anabledau ac anawsterau dysgu.
- **Mynd i'r afael ag ardaloedd digyswllt ffonau symudol** - er bod darpariaeth gwasanaethau llais symudol yn dda yn gyffredinol, mae angen canolbwyntio ar yr ardaloedd sy'n parhau i fod â darpariaeth wael. Gwnaethom hefyd gyhoeddi ymchwil i faterion yn ymwneud ag ansawdd technegol megis cyflymder band eang symudol.
- **Defnyddio band eang a chyfranogiad digidol**, drwy ffurfio'r Consortiwm fel y crybwyllwyd uchod ac ymgysylltu â'r llywodraeth ac Ewrop ar y cwrmpas i sicrhau darpariaeth band eang cyffredinol.

Ymchwil Marchnad

Bob blwyddyn, mae Ofcom yn ymgymryd ag ymchwil marchnad feintiol ac ansoddol helaeth a thrwyadl. Mae'r sylfaen solet hwn o dystiolaeth yn sail i'n penderfyniadau ac yn angori ein penderfyniadau ar draws yr amrywiol sectorau yr ydym yn eu rheoleiddio.

GRYMUSO DINASYDDION A DEFNYDDWYR

CYFATHREBU YN HYTRACH NA DATHLU

Does dim fel dirwasgiad caled i gael pobl i ganolbwyntio ar eu blaenoriaethau. Ym mis Awst 2009, cyhoeddodd Ofcom y chweched Adroddiad Cyfathrebiadau i'r diwydiannau teledu, radio, band eang, telegyfathrebiadau a gwasanaethau symudol, sydd werth £52bn. Roedd yn adrodd bod yn well gan oddeutu hanner defnyddwyr y DU gynilo drwy beidio â bwyta allan cymaint, drwy dorri i lawr ar welliannau i'r cartref a thrwy dorri i lawr ar fynd ar eu gwyliau, na drwy gael gwared ar eu gwasanaethau cyfathrebu.

CYFATHREBIADAU: Y PEIRIANT SY'N GYRRU BUSNESAU

Ym mis Medi 2009, gwnaeth Ofcom gyhoeddi ei waith ymchwil cynhwysfawr cyntaf i sut mae busnesau'r DU (ac yn benodol, busnesau bach a chanolig) yn defnyddio gwasanaethau telegyfathrebiadau, a'u barn am wasanaethau llinell sefydlog, gwasanaethau symudol a gwasanaethau rhyngwrwyd.

At ei gilydd, roedd busnesau yn gwario dros £13.9bn ar wasanaethau telegyfathrebiadau yn 2008, sef tua 45 y cant o'r holl drosiant telegyfathrebiadau adwerthol. Gwnaeth ein hymchwil ganfod bod mwy na 85 y cant o gwmnïau yn fodlon gydag amrywiaeth y cynhyrchion a'r gwasanaethau ar gael. Fodd bynnag:

- gwnaeth tua hanner y cwmnïau a holwyd lleisio'r ffaith eu bod yn teimlo'n rhwystredig oherwydd gwasanaeth annigonol i gwsmeriaid o ran llinellau tir, cost llinellau tir a chysylltiadau o ansawdd gwael gyda'u gwasanaethau data / rhyngwrwyd a symudol;
- roedd 15 y cant yn teimlo'n rhwystredig oherwydd cysylltiadau gwael ar ffonau symudol, 23 y cant yn teimlo'n rhwystredig gyda dibynadwyedd eu cysylltiad â'r rhyngwrwyd, a 15 y cant yn teimlo'n rhwystredig oherwydd cyflymder eu band eang; ac
- er bod busnesau yn credu bod digon o gystadleuaeth, cafodd nifer drafferth wrth geisio negodi gwell bargaen a newid darparwr.

AMSEROEDD CALED, CWSMERIAID Â MWY O SYNNEWYR CYFFREDIN

Ym mis Rhagfyr 2009, cyhoeddwyd adroddiad blynyddol Ofcom ar Brofiad y Defnyddiwr, ac roedd yn dangos bod cwsmeriaid yn dod o hyd i ffyrdd newydd o arbed arian ar eu gwasanaethau teledu talu, ffôn a band eang.

Roedd y rhain yn cynnwys:

- Gwasanaethau wedi'u bwndelu. Yn 2009, gwnaeth 35 y cant o gwsmeriaid brynu bwndel am bris rhatach (2008: 30 y cant). Ar gyfer rhai grwpiau, gwnaeth hyn sicrhau arbedion o £88-£140 y flwyddyn.
- Bargeinion contract SIM-yn-unig, sy'n rhyddhau cwsmeriaid i chwilio am y fargen ffôn symudol orau. Yn aml, maent yn gofyn am ymrwymiad o fis yn unig.

- Contractau ffôn symudol hirach sy'n cynnig ffioedd misol is, neu setiau llaw am ddim neu am brisiau llawer rhatach. Yn ystod haf 2009, roedd 42 y cant o gontractau am 24 mis neu ragor (o'i gymharu â phump y cant yn flaenorol).

Gorfodaeth a ffioedd

Cyhoeddwyd Adroddiad Gorfodi cyntaf Ofcom ym mis Mai 2009, ac roedd yn darparu gwybodaeth am gamau gorfodi yn 2008. Roedd yn dangos bod ein tîm Gweithrediadau Canolog wedi delio â thua 20,000 o ymholiadau'r mis. Cafodd rhai eu cyfeirio at ein timau ymchwilio, oherwydd y gallai cwynion gan y cyhoedd fod yn ffynhonnell bwysig o dystiolaeth ar gyfer camau gorfodi.

Mae Ofcom yn rhoi blaenoriaeth uchel ar orfodaeth ym maes gwarchod defnyddwyr, ac ym mis Mawrth 2010, gwnaethom groesawu cyhoeddiad gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau fod y ddirwy uchaf wedi'i chodi i £2m.

Yn ystod 2009/10:

- Gwnaethom lansio ymchwiliad i Lycatel, sef cyflenwr cardiau ffôn rhyngwladol talu ymlaen llaw. Roedd hyn yn dilyn cwynion i Dîm Ymgynghori Ofcom ac i Gyswllt Defnyddwyr, a thrafodaethau rhwng Ofcom a'r Swyddfa Safonau Masnach, yn ymwneud â thelerau ac amodau cardiau Lycatel.
- Gwnaethom lansio ymchwiliad i Continental Telecom, sydd wedi'i leoli yn Llundain, er mwyn cael gwybod a oedd yn cydymffurfio â rheolau cam-werthu. Gwnaethom hefyd asesu a oedd ei delerau a'i amodau'n deg.
- Gwnaethom ddechrau achos yn yr uchel lys yn erbyn Telephonics, ar ôl rhoi dirwy o £183,898 eisoes iddo ym mis Awst 2009 am dorri rheolau defnyddwyr. Roedd y ddirwy yn dal heb ei thalu ym mis Chwefror 2010, a daeth rhagor o dorri rheolau i'r amlwg lle'r oedd y cwmni yn rhwystro ymgais cwsmeriaid i drosglwyddo'u llinellau i ddarparwyr eraill.
- Gwnaethom lwyddo i erlyn gweithredwr radio anghyfreithlon am iddo osod offer radio anghyfreithlon mewn bloc o fflatiau yn Llundain. Cafodd Orchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO), dedfryd o 18 wythnos dan glo yn ohiriedig am 12 mis, dirwy o £1,200 a chafodd ei wahardd o bob to yn Llundain.
- Gwnaethom roi dirwy o £15,000 i orsaf radio yn Cumbria am iddi redeg cyfres o gystadlaethau annheg. Gwnaethom ganfod bod y cyflwynydd yn bwrpasol wedi dethol cystadleuwyr gyda'r atebion anghywir, er mwyn atal pobl rhag ennill y wobwr yn rhy fuan.
- Gwnaethom roi dwy ddirwy o £52,500 i ddau wasanaeth adloniant i oedolion, sef RHF Productions a Portland Enterprises. Gwnaed cyfeiriadau testun ar y sgrin at

GRYMUSO DINASYDDION A DEFNYDDWYR

ddwy wefan yr oedd y ddau gwmni yn eu perchen ar y cyd. Roedd y gwefannau yn cynnwys deunydd rhywiol eithriadol o amlwg, yn debyg i ddeunydd ar BBFC R18, a gellid gweld y cynnwys heb gofrestru a heb wirio oedran.

HELPU'R DEFNYDDIWR

Mae swyddogaeth Gweithrediadau Canolog Ofcom yn ymwneud â chwestiynau a chwynion gan wylwyr, gwrandawyr, cwsmeriaid cwmnïau telegyfathrebu, a defnyddwyr a deiliaid trwydded gwasanaethau cyfathrebu di-wifr.

Yn ystod 2009/10, cofnodwyd dros 127,300 o achosion gan ein Gweithrediadau Canolog yn deillio o ymholiadau dros y ffôn, a chafwyd dros 67,200 o ffurflenni rhyngwyd, negeseuon e-bost, llythrau a ffacsys. O blith y rheini, roedd oddeutu:

- 105,400 yn ymwneud â thelegyfathrebiadau;
- 62,500 yn ymwneud â materion yn gysylltiedig â sbectrwm a thrwyddedu;
- 24,400 yn ymwneud â darlledu; a
- 2,200 yn ymholiadau cyffredinol

Telegyfathrebiadau

Roedd oddeutu 12 y cant o gwynion cwsmeriaid yn ymwneud â cham-werthu. Roedd y rhain yn cynnwys digwyddiadau lle'r oedd cwsmeriaid yn cael eu trosglwyddo i wasanaeth newydd heb yn wybod iddynt neu heb eu caniatâd, lle'r oedd cwsmeriaid wedi ymrwymo i wasanaeth ar sail gwybodaeth y sylweddolwyd wedyn ei bod yn gelwydd, neu le'r oedd cwsmeriaid wedi cael addewid o 'arian-yn-ôl' ond ni chawsant yr arian hwnnw.

Hefyd, roedd naw y cant o gwynion yn ymwneud â gwasanaeth gwael i gwsmeriaid gan ddarparwyr gwasanaethau, yn cynnwys materion megis y canlynol: cael gwybodaeth anghywir neu annigonol, anwybyddu eu cwynion, peidio â dilyn prosesau, a staff digywilydd.

Roedd oddeutu saith y cant o gwynion yn ymwneud â chwsmeriaid yn cael trafferthion wrth newid gwasanaeth band eang neu ddarpariaeth gwasanaeth mewn eiddo newydd. Ymysg y problemau oedd 'tag ar-lein' a phroblemau gyda Chodau Awdurdodi Symud – sef codau cyfeirio sy'n galluogi cwsmeriaid i newid eu darparwr band eang yn hwylus heb fawr o darfu.

Yn gyffredinol, roedd cwynion defnyddwyr yn ymwneud â'r canlynol:

- cam-werthu;
- gwasanaethau gwael i gwsmeriaid;
- symud;

- ffioedd terfynu contract yn gynnar;
- galwadau mud;
- problemau o ran colli gwasanaethau

Lle bo hynny'n briodol, byddwn yn cyfarfod â chwmnïau i drafod sut gellir gwella'u gwasanaeth i gwsmeriaid. Mae'n bosibl y cedwir manylion cwmnïau sy'n achos parhaol o gwynion gan gwsmeriaid, er mwyn eu hymchwilio'n ffurfiol.

Sbectrwm

Gwnaeth ein Gweithrediadau Canolog ddelio â dros 62,500 o ymholiadau gan ddefnyddwyr a darparwyr gwasanaethau radiogyfathrebu, yn ogystal â gan aelodau eraill o'r cyhoedd. Roedd y rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- Arweiniad ac ymholiadau ar gyfer defnyddwyr radiogyfathrebu ynglŷn â materion trwyddedu neu ffioedd yn ymwneud â'r Ddeddf Telegraffi Di-wifr;
- Gwasanaeth ar-lein Ofcom, Sitefinder, sy'n galluogi'r cyhoedd i ganfod lleoliad gorsafod ffôn symudol yn ôl côd post.

Darlledu

Cofnododd ein tîm darlledu 24,400 o gwynion gan y cyhoedd.

Y rheswm mwyaf dros gwyno am raglenni teledu a radio oedd deunydd nad oedd gwylwyr neu wrandawyr yn ystyried eu bod yn bodloni safonau a dderbynnir yn gyffredinol, gan gynnwys sylwadau hiliol, iaith gref, delweddau rhywiol a deunydd sy'n tramgwyddo yn erbyn crefydd.

Codwyd pryderon hefyd ynglŷn â chystadlaethau a phleidleisio.

Roedd tua 24 y cant o'r cwynion a gafwyd yn ymwneud â The X Factor ac roedd oddeutu 4 y cant o'r cwynion a gafwyd yn ymwneud â Big Brother 10.

Rhaglenni eraill y cafwyd llawer o gwynion amdanynt oedd:

- *Afternoon Live*
- *Britain's Got Talent*
- *Dancing on Ice*
- *Question Time*
- *Coronation Street*
- *I'm a Celebrity, Get Me Out Of Here*
- *The Alan Titchmarsh Show*
- *Eastenders*

SYMLEIDDIO RHEOLEIDDIO A SICRHAU CYN LLEIED O FEICHAU GWEINYDDOL AG Y BO MODD



DADREOLEIDDIO: LLOND BWNDEL O NEWYDDION DA

Cafwyd gwared ar un o'r darnau olaf o'r hen ffordd o reoleiddio llinell sefydlog ym mis Medi 2009, gan ganiatáu i BT gynnig bwndeli o wasanaethau am brisiau rhatach, yn cynnwys gwasanaethau llinell sefydlog, band eang, teledu digidol a gwasanaethau eraill.

Roedd hyn yn bosibl am ein bod wedi beirniadu nad oedd gan BT bellach 'bŵer marchnad sylweddol', oherwydd bod defnyddwyr y DU yn mwynhau gwir gystadleuaeth yn y farchnad. Mae oddeutu 12 miliwn o bobl bellach yn defnyddio darparwyr eraill megis Virgin Media, BSkyB a TalkTalk.

Wrth i ddewis cynyddu, mae'r biliau wedi lleihau. Gwnaeth ein hymchwil ddangos bod y gost o ffonio o ffôn llinell sefydlog wedi cwmpo o £25.04 y mis yn 2003, i £21.57 yn 2008.


LLACIO'R RHEOLAU AR WERTHU AMSER AR YR AWYR

Yn hanesyddol, mae ITV1, Channel 4 a Five wedi gorfod cydymffurfio â rheol 'rhaid gwerthu'. Maent wedi gorfod sicrhau bod eu hamser awyr masnachol i gyd ar gael i'w werthu, yn hytrach na'i gadw'n ôl. Mae darlledwyr hefyd wedi cael eu cyfyngu gyda math arbennig o werthu ('gwerthu amodol') wrth iddynt werthu bwndeli o amser ar yr awyr ar draws portffolio o sianeli.

Ers i'r rheolau gael eu hadolygu diwethaf yn 2003, mae datblygiadau sylweddol wedi bod yn y sector teledu: mae nifer y sianeli wedi cynyddu'n sylweddol, gan rannu cynulleidfaoedd a rhoi llawer mwy o opsiynau i'r rheini sy'n prynu amser a lle yn y cyfryngau.

Ym mis Mawrth 2010, gwnaethom ddechrau ymgynghori ar y cynnig i gael gwared ar y cyfyngiad 'rhaid gwerthu'. Gwnaethom hefyd gynnig y byddai'n well delio ag unrhyw effaith gwrth-gystadleuaeth a fydd yn codi o fwndelu, os bydd unrhyw rai yn codi o gwbl, ar sail achos-wrth-achos.

SICRHAU CYMAINT O DDYLANWAD AG Y BO MODD AR DDATBLYGU POLISI RHYNGWLADOL



Gwneud gwahaniaeth yn rhyngwladol ac yn genedlaethol

Mae datblygiadau rhyngwladol yn dylanwadu fwyfwy ar weithgareddau Ofcom ac ar weithgareddau'r cwmnïau a reoleiddir ganddo. Yr ydym yn gweithio'n agos â sefydliadau Ewropeaidd, rheoleiddwyr cyfathrebiadau cenedlaethol a phartneriaid rhyngwladol. Yr ydym yn gwneud hyn er mwyn dylanwadu ar ddatblygiad fframweithiau rheoleiddio rhyngwladol y mae'r DU, Ofcom a'n rhanddeiliaid yn gweithredu o'u mewn, i sicrhau eu bod yn ymarferol, yn gymesur a'u bod yn gwasanaethu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr y DU a'r Undeb Ewropeaidd yn y ffordd orau.

Yr ydym yn cynrychioli'r DU ar faterion sy'n ymwneud â sbectrwm radio mewn grwpiau rhyngwladol allweddol ac yr ydym yn cymryd rhan mewn ffordd rhyngwladol ar faterion sy'n ymwneud â thelegyfathrebiadau a darlledu. Yr ydym hefyd am ddyysgu, ac am rannu profiadau rheoleiddiol.

Yn ystod 2009/10, gwnaethom y canlynol:

- Gweithio'n agos â Llywodraeth y DU a rheoleiddwyr Ewropeaidd eraill i adolygu fframwaith rheoleiddiol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer cyfathrebiadau electronig, a gytunwyd ym mis Tachwedd 2009. Byddwn yn parhau i ddarparu cefnogaeth i'r Llywodraeth yn ystod y cyfnod pan fydd yn cael ei roi ar waith.
- Cefnogi sefydlu Corff newydd ar gyfer Rheoleiddwyr Cyfathrebiadau Electronig Ewrop (BEREC), sydd wedi disodli'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd (ERG), a chyfrannu at ei raglen waith. Roedd materion allweddol ar gyfer 2009 yn cynnwys y genhedlaeth nesaf o fynediad, newid darparwr, defnyddio'ch ffôn dramor, a gwasanaeth cyffredinol i bawb, ynghyd â materion eraill. Mae'r rhain i gyd wedi'u trosglwyddo i 2010, ac mae prosiectau newydd wedi dechrau ynghylch niwtraliaeth net a hwylustod mynediad.
- Cryfhau ein hymrwymiad i waith yn ymwneud â rheoleiddio cynnwys darlledu a wneir gan Blafform Awdurdodau Rheoleiddio Ewrop (EPRA) drwy ein presenoldeb ar Fwrdd EPRA.
- Ymwneud â phartneriaid rheoleiddio rhyngwladol eraill a chynnal cyfarfodydd dwyochrog gyda'r UDA, Awstralia, Tsieina, India, a Japan er mwyn trafod heriau cyffredin.

- Arwain mewnbyn y DU yn sector yr Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol (ITU-T) (sy'n cydlyn safonau ar gyfer telegyfathrebiadau dan Gyfarwyddyd Gweimidogol) a pharatoi cynhadledd nesaf Plenipotenswyr yr Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol. Gwnaeth Ofcom hefyd gadeirio pwyllgor CISP y Gymdeithas dros Gydweithrediad a Datblygiad Economaidd sy'n gweithio ar reoleiddio polisi yn y sector cyfathrebu.
- Cadeirio'r gwaith ar y cyd rhwng y Grŵp Polisi Sbectrwm Radio (RSPG) ac ERG (BEREC) ynghylch materion cystadleuaeth, a chymryd rhan weithredol yng ngweithgoreau'r Grŵp Polisi Sbectrwm Radio, wrth fynd i'r afael â materion yn cynnwys y Difidend Digidol, Priso Sbectrwm a Thechnoleg Gwybyddol.
- Gweithio'n agos â'r Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebiadau (CEPT) a gyda chydweithwyr yn y Comisiwn ac mewn Aelod Wladwriaethau, drwy'r Pwyllgor Sbectrwm Radio, er mwyn cytuno ar ddull cyson o ryddhau'r band 800MHz.
- Darparu mewnbyn i ddatblygiad Agenda Digidol y Comisiwn Ewropeaidd, i sicrhau bod defnyddwyr a dinasyddion yn parhau i fod yn greiddiol iddo.

YMGYSYLLTU Â'R GWLEDYDD A'R RHANBARTHAU

Wrth wneud penderfyniadau mae gan Ofcom ddyletswydd statudol dan y Ddeddf Cyfathrebiadau i ystyried barn a buddion y rheini sy'n byw yng ngwahanol rannau'r Deyrnas Unedig. Mae Ofcom yn cynnal swyddfeydd, y'u harweinigir gan Gyfarwyddwr ar gyfer pob Gwlad, yng Nghaerdydd, yn Belfast, ac yn Glasgow, gyda thimau bach ym mhob lleoliad (mae tîm Rhanbarth Lloegr, gan gynnwys y Cyfarwyddwr, wedi'i leoli yn Riverside House); mae'r timau hyn yn cysylltu'n benodol â rhanddeiliaid Ofcom ym mhob Gwlad, gan gynghori Ofcom yn ganolog ynghylch materion penodol sy'n effeithio ar ddefnyddwyr a dinasyddion pob Gwlad (er enghraifft, argaeledd a defnydd gwasanaethau digidol a materion ynghylch cynnwys cenedlaethol a lleol ar y teledu ac ar y radio) yn ogystal â chysylltu â'r gweinyddiaethau datganoledig a chynrychiolwyr etholedig lleol. Cefnogir gwaith y swyddfeydd Cenedlaethol gan y Pwyllgorau Ymgynghori Cenedlaethol a Phwyllgor y Gwledydd. Gellir dod o hyd i fanylion am y rhain ar dudalennau 55, 57 a 58.

ADRAN C – ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

Yn yr adran hon rydym yn esbonio sut y byddwn yn gwerthuso'n perfformiad ac wedyn byddwn yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: i ba raddau yr ydym wedi cyflawni'n hamcanion ac wedi rhoi ein hegwyddorion rheoleiddio ar waith; ein heffeithiolrwydd yn darparu gwasanaethau ac o ran ein perfformiad; a'n perfformiad ariannol.

Perfformiad a gwerthuso

Rydym wedi ymrwmo i adolygu a gwerthuso'n perfformiad, ac yna rhoi'r hyn y byddwn wedi'i ddsygu ar waith. Isod, rydym yn trafod y ffyrdd amrywiol a ddefnyddiwn i fesur ein heffeithiolrwydd a beth a ddywed y canlyniadau wrthym.

Yn wahanol i gwmni preifat sy'n ceisio gwneud yr elw mwyaf posibl ar ran ei gyfranddalwyr, nid oes gan Ofcom unrhyw amcan sy'n hawdd ei fesur. Y mae tri phrif reswm dros hyn. Yn gyntaf, er mai ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr (yn cynnwys busnesau) yng nghyswllt materion cyfathrebu, mae gennym ystod eang o ddyletswyddau penodol ac ystod amrywiol o randdeiliaid. Yn ail, nid yw bob amser yn bosibl gwahaniaethu rhwng effaith penderfyniadau rheoleiddio ar ddatblygiadau yn y farchnad ac effaith ystod eang o ffactorau eraill. Ac, yn drydydd, rhywbeth goddrychol yn aml yw penderfynu a ydym yn cyflawni ein dyletswyddau ac yn rhoi ein hegwyddorion rheoleiddio ar waith neu beidio. Mae hyn yn golygu nad gwaith syml yw asesu ein perfformiad mewn modd y gellir ei fesur.

Pa bryd bynnag y bydd hynny'n bosibl, ein nod yw gadael i'r farchnad ddarparu canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion, heb reoleiddio. Mae Ofcom yn dal yn ymrwymedig i leihau a symleiddio rheoleiddio cymhleth neu ddiangen, a hefyd gwella'r gwerth am arian rydym yn ei ddarparu i randdeiliaid drwy barhau i wella ein heffeithlonrwydd ein hunain. Er enghraifft, ar sail debyg i debyg, rydym wedi llwyddo i leihau ein cyllideb weithredol ar gyfer 2010/11 3.6 y cant mewn termau real.

Defnyddiwn ddau fesur pwysig i adolygu ein heffeithiolrwydd:

1. datblygiadau yn y farchnad (yn enwedig canlyniadau penodol i ddefnyddwyr a dinasyddion); a

2. cydymffurfio â'n dyletswyddau, ein blaenoriaethau a'n hegwyddorion rheoleiddio.

Yn ogystal, rydym yn mesur argraffiadau rhanddeiliaid o'n perfformiad, gan geisio'u barn am ystod eang o faterion, gan gynnwys ansawdd ein hallbynnau a pha mor dda yr ydym wedi ymgynghori.

Datblygiadau yn y farchnad

Yn y pen draw, credwn y dylid barnu ein perfformiad drwy gyfeirio at y canlyniadau yr ydym wedi'u sicrhau i ddinasyddion a defnyddwyr. Rydym yn mesur y canlyniadau hyn mewn sawl ffordd gan ddefnyddio fframwaith cynhwysfawr a chadarn ar gyfer mesur ein perfformiad, adrodd arno a rhoi gwybod amdano yn fewnol ac yn allanol. I ddechrau, mae'r adran hon yn ystyried rhai mesurau canlyniadau allweddol ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr, ac eir ymlaen wedyn i restru'r prif gyhoeddiadau lle byddwn yn adrodd ar ddatblygiadau yn y farchnad.

MESURAU ALLWEDDOL O RAN CANLYNIADAU I DDINASYDDION A DEFNYDDWYR

Mewn sawl maes, mae'r farchnad wedi parhau i ddarparu canlyniadau da i ddinasyddion a defnyddwyr, gan gynnwys y canlynol, a nodwyd yn ein hadroddiad ar Brofiad y Defnyddiwr:

- **gwerth am arian i ddefnyddwyr ar wasanaethau cyfathrebu** – gostyngodd gwariant gan ddefnyddwyr ar wasanaethau cyfathrebu rhwng 2007 a 2008, o £68.84 y mis i £65.01 y mis, wrth i ddefnyddwyr fanteisio ar dariffau is ar gyfer ffonau symudol a disgowntiau ar wasanaethau band eang wedi'u bwndelu;
- **lefelau boddhad** – parhaodd y lefel boddhad yn uchel ar draws yr holl wasanaethau cyfathrebu gydag oddeutu 90% o ddefnyddwyr nail ai'n 'fodlon iawn' neu'n 'weddol

fodlon'. Gyda band eang y cafwyd y lefel boddhad isaf (86%) a ffonau symudol roddodd y lefel uchaf (92%);

- **argaeledd band eang** – mae dros 99.9% o aelwydydd y DU wedi'u cysylltu â chyfnewidfa BT leol sydd wedi'i galluogi ar gyfer DSL a gall dros 85% o aelwydydd hefyd gael gafael ar wasanaethau band eang oddi wrth weithredwyr eraill sy'n cynnig gwasanaethau drwy ddadfwndelu dolen leol. Yn y cyfamser, mae'r gwaith uwchraddio ar rwydwaith cebl Virgin Media yn golygu bod oddeutu 49% o aelwydydd yn gallu cael gafael ar wasanaethau band eang cyflym iawn sy'n cynnig cyflymder hyd at 50Mbit/s

Ond rydym yn sylweddoli bod rhai meysydd sy'n dal i beri pryder. Er enghraifft:

- **'ardaloedd digyswllt'** – dangosai ymchwil gan y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau fod 18% o oedolion yn honni eu bod yn profi ardaloedd digyswllt yn rheolaidd lle nad ydynt yn gallu cael band eang o gwbl;
- **y niferoedd sy'n manteisio ar fand eang** – er bod ein hymchwil yn dangos i'r nifer sy'n manteisio ar fand eang godi i 70% yn 2009, mae hynny'n golygu bod 30% o gartrefi o hyd heb y gwasanaeth; a
- **newid** - roedd ein hymchwil yn dangos gostyngiad yn y lefelau newid mewn gwasanaethau wedi'u bwndelu, gyda nifer y defnyddwyr sy'n dweud eu bod wedi newid darparwr yn y flwyddyn ddiwethaf yn gostwng o 24% i 13% rhwng 2008 a 2009.

Yn ein Cynllun Blynyddol nodwyd y meysydd hyn yn flaenoriaethau inni ar gyfer y flwyddyn i ddod. Nodasom adolygiad cynhwysfawr iawn o'r canlyniadau i ddinasyddion a defnyddwyr mewn cyfres o gyhoeddiadau gwahanol sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i ddeall pa wahaniaeth yr ydym yn ei wneud ochr yn ochr â diwydiant.

Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi ein prif adroddiad, Y Farchnad Gyfathrebu (<http://www.ofcom.org.uk/research/cm/cmr09/>) sy'n rhoi darlun cynhwysfawr o ddatblygiadau yn y sector cyfathrebu, ac sy'n nodi sawl mesur allweddol o ran canlyniadau ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr (preswyl a busnes), gan gynnwys niferoedd sy'n manteisio ar wasanaethau, lefelau boddhad a newid, a'r gwasanaethau sydd ar gael.

Ategir hyn gan adroddiadau ar wahân ar bob un o wledydd y DU (<http://www.ofcom.org.uk/research/cm/cmrnr09/>) ac adroddiad bob dwy flynedd ar y Farchnad Gyfathrebu Ryngwladol sy'n nodi'r canlyniadau ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr y DU yn erbyn nifer o gymaryddion rhyngwladol (Data Rhagfyr 2009 - <http://www.ofcom.org.uk/research/cm/icmr09/>).

Yn ein hadroddiad blynyddol ar Brofiad y Defnyddiwr, rydym yn rhoi darlun o sut y mae defnyddwyr wedi dod ymlaen yn y sector cyfathrebu ac yn gwerthuso sut y mae unrhyw faterion a gafodd eu nodi wedi cael sylw drwy ein gweithgareddau. Am y tro cyntaf hefyd yn 2009 fe gyflwynasom adroddiad ar Brofiad y Defnyddiwr Busnes (gellir gweld yr holl adroddiadau ar Brofiad y Defnyddiwr ar ein gwefan: <http://www.ofcom.org.uk/research/tce/>).

Mae ein hystod o gyhoeddiadau ar Lythrennedd yn y Cyfryngau yn dadansoddi galluoedd dinasyddion a defnyddwyr y DU i ddefnyddio, deall a chreu cyfathrebiadau mewn amrywiol gyd-destunau. Rydym hefyd yn cyhoeddi adroddiadau ar faterion penodol, megis y nifer sy'n defnyddio teledu digidol a'r cyflymder llwytho i lawr gwirioneddol y gall defnyddwyr ei ddisgwyl oddi wrth eu darparwr band eang. Mae'r holl adroddiadau hyn yn adeiladu ar ein rhaglen helaeth o ymchwil marchnad.

Rydym hefyd yn ymchwilio i effaith mentrau polisi penodol. Er enghraifft, ym mis Gorffennaf 2009 cyhoeddasom werthusiad o'r polisi ar godi ffioedd sbectrwm yn seiliedig ar Dâl Anogaeth Gweinyddol (Administered Incentive Pricing - AIP). Bwriad ein hadroddiad, Adroddiad gwerthuso polisi: AIP, oedd asesu a yw AIP:

- wedi arwain at ddyrannu sbectrwm fel y gwneir y defnydd gorau ohono dros amser, er enghraifft trwy annog masnachu neu ildio sbectrwm mewn defnyddiau gwerth llai a lleihau'r galw gormodol am sbectrwm; neu
- wedi tarfu ar ddyrannu sbectrwm yn y ffordd orau bosibl, er enghraifft drwy achosi iddo gael ei danddefnyddio tra mae'r galw amdano'n bodoli.

Rydym hefyd wedi gwerthuso a oedd y broses a ddefnyddiwyd i gyflwyno AIP yn adlewyrchu arferion rheoleiddio da, ac fe ddylai hefyd fod yn fodd i leihau peryglon canlyniadau nas bwriadwyd a allai godi yn sgil y polisi.

Yn olaf, rydym hefyd yn ystyried mesuriadau tymor hwy datblygiadau yn y farchnad yn ein marchnad ac adolygiadau strategol. Rhaid inni gynnal adolygiadau o'r farchnad yn rheolaidd i ailystyried perthnasedd y penderfyniadau rheoleiddio yr ydym wedi'u gwneud yn y gorffennol (er enghraifft yr Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol - <http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/wla/>). Mae ein hadolygiadau strategol yn edrych ar ba ddull rheoleiddio allai fod yn briodol ei ddefnyddio mewn sectorau penodol (er enghraifft, ein Hasesiad o'r Sector Symudol <http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/msa/>).

¹ Cofnodir ein cynnydd yn erbyn ein Cynllun Blynyddol ar ein gwefan. Rydym yn cyhoeddi tabl sy'n dangos ein holl brosiectau a'n hallbynnau bwriedig: www.ofcom.org.uk/about/accoun/reports_plans/annual_plan1011/projects/. Diweddarir y tabl hwn bob chwarter er mwyn i randdeiliaid weld pryd y byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriadau sydd o ddiddordeb iddynt.

PERFFORMIAD A GWERTHUSO

Cydymffurfio â'n hamcanion a'n hegwyddorion rheoleiddio

Mae agwedd Ofcom at reoleiddio'n adlewyrchu natur 'symud yn gyflym' y sector cyfathrebu. Am fod y sector cyfathrebu'n newid mor gyflym mae'n bwysig iawn fod gennym egwyddorion clir i'n tywys. Yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003 mae'n rhaid inni roi ystyriaeth i egwyddorion rheoleiddio gwell, sef y dylai rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson a dim ond wedi ei dargedu at achosion lle mae angen gweithredu yn eu cylch. Pan sefydlwyd Ofcom, buom yn ehangu'r egwyddorion hyn drwy ddatblygu set fwy penodol o egwyddorion a fyddai'n sail i'n gwaith beunyddiol. Gwelir y rhain yn Ffigur 1. Yn 2008 dynodwyd set o egwyddorion gennym hefyd ar gyfer dadansoddi'r cyfle i gyflwyno hunanreoleiddio a rheoleiddio ar y cyd. <http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/coregulation/statement/>

Yn unol â'n hegwyddorion rheoleiddio, rydym wedi canolbwyntio ar werthuso ein perfformiad mewn pedwar maes allweddol:

- ein llwyddiant yn lleihau rheoleiddio, lle roedd hynny'n briodol;
- effeithiolrwydd ein gwaith ymgynghori â rhanddeiliaid;
- prydlondeb ein penderfyniadau ar ôl ymgynghori; a
- ein perfformiad wrth gynnal asesiadau effaith fel sail i'n penderfyniadau ar bolisi.

FFIGUR 1: EGWYDDORION RHEOLEIDDIO OFCOM

Wrth reoleiddio
<ul style="list-style-type: none"> Bydd Ofcom yn gweithredu gyda gogwydd yn erbyn ymyrryd, ond â pharodrwydd i ymyrryd yn ddiymdroi ac yn effeithiol pan fydd angen. Bydd Ofcom yn ymyrryd lle bydd dyletswydd statudol benodol i weithio tuag at nod na all y marchnadoedd ei gyflawni ar eu pen eu hunain.
Sut y byddwn yn rheoleiddio
<ul style="list-style-type: none"> Bydd Ofcom bob amser yn ceisio defnyddio'r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwithiol er mwyn cyflawni ein hamcanion. Bydd Ofcom yn ymdrechu i sicrhau bod ymyriadau'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw a hynny o ran yr ystyriaeth ohonynt a'r canlyniadau. Bydd Ofcom yn rheoleiddio gyda chynllun blynyddol a fydd wedi'i fynegi'n glir ac wedi'i adolygu'n gyhoeddus, ynghyd ag amcanion sydd wedi'u datgan.
Sut y byddwn yn cefnogi rheoleiddio
<ul style="list-style-type: none"> Bydd Ofcom yn ymchwilio i farchnadoedd yn gyson ac yn ceisio aros ar flaen y gad o ran dealltwriaeth dechnolegol. Bydd Ofcom yn ymgynghori'n eang â'r holl rhanddeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn gorfodi rheoleiddio ar y farchnad.

LLEIHAU RHEOLEIDDIO

Un o elfennau allweddol rheoleiddio gwell yw sicrhau bod rheoleiddio'n cael ei dargedu'n briodol ac nad yw'n gosod beichiau gormodol ar ein rhanddeiliaid. Ym mis Rhagfyr 2009, cyhoeddasom ein Cynllun Symleiddio blynyddol fel atodiad i'n Cynllun Blynyddol Drafft. Mae'r Cynllun Symleiddio hwn yn nodi'r holl gamau yr ydym yn eu cymryd i ddileu neu leihau rheoleiddio. Mae'n dangos sut yr ydym yn cyflawni'n dyletswydd o dan Adran 6 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau i leihau'r baich rheoleiddio ar ein rhanddeiliaid.

Mae ffigur 2 yn crynhoi datganiadau polisi Ofcom a gyhoeddwyd yn ystod 2009/10. Yn y ffigur hwn:

- rydym wedi asesu sut yr effeithiodd pob penderfyniad ar drywydd y rheoleiddio ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn lliw'r cylchoedd; ac
- rydym wedi asesu effaith y penderfyniad drwy gyfeirio at faint y farchnad yr effeithir arni yn sgil y rheoleiddio ac adlewyrchir hyn ym maint y cylchoedd.

Mae'r ffigur yn rhoi golwg gyffredinol ar benderfyniadau rheoleiddio Ofcom. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud nifer o benderfyniadau rheoleiddio pwysig. Roedd rhai penderfyniadau'n gadael inni barhau â'n tueddiad i leihau rheoleiddio. Roedd penderfyniadau eraill yn gofyn am ragor o reoleiddio er mwyn cael y canlyniadau gorau posibl i ddinasyddion a defnyddwyr.

Yn benodol, dengys ffigur 2 ein bod yn fodlon cymryd camau pendant ac effeithiol i ddiogelu dinasyddion a defnyddwyr lle bo angen, er enghraifft:

- ein gwaith ar Gyflwyno Manteision i Ddefnyddwyr mewn Teledu Talu; ac
- amddiffyn defnyddwyr rhag cam-werthu gwasanaethau telegyfathrebu llinell sefydlog.

Mae hefyd yn dangos ein bod wedi ymrwymo i leihau rheoleiddio drwy, er enghraifft:

- argymhell dileu rhai rheolau yn ymwneud â pherchnogaeth radio a llacio rhai rheolau yn ymwneud â pherchnogaeth ar draws cyfryngau (Adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar Reolau ynghylch Perchnogaeth y Cyfryngau);
- dadreoleiddio rhagor ar farchnadoedd gwasanaethau adwerthu band cul sefydlog (Marchnadoedd Gwasanaethau Adwerthu Band Cul –Pennu Marchnadoedd a Phenderfynu ar Bŵer y Farchnad).


Gwnaethom 16 yn llai o benderfyniadau rheoleiddio ar draws y meysydd yn 2009/10. Dyma gynnydd bychan ar y lefel yn 2008/9, pan gafwyd 14 enghraifft o hyn.

PERFFORMIAD A GWERTHUSO

FFIGUR 2: PRIF BENDERFYNIADAU OFCOM - TRYWYDD Y NEWIDIADAU RHEOLEIDDIO

Mae maint y cylchoedd yn dangos maint y farchnad yr effeithiwyd arni. Mae lliw'r cylch yn dangos trywydd y rheoleiddio fel a ganlyn:

- Wedi'i gynyddu/newydd
- Cymysg/dim newid/parhaus
- Symleiddio/rheoleiddio ar y cyd
- Wedi lleihau



Ffynhonnell:
Cofnod rheoleiddio Ofcom

PRIF BENDERFYNIADAU OFCOM – TRYWYDD Y NEWIDIADAU RHEOLEIDDIO: RHESTR DATGANIADAU

1. Newidiadau i 0870 ●
2. Caniatâd i hepgor y gofyniad hysbysu ynghylch prisiau BT ar gyfer gwasanaethau llinellau cyfnewid analog preswyl cyfanwerthol ●
3. Gwella mynediad at Ddatrys Anghydfod drwy Ddulliau Amgen ●
4. Fframwaith prisio newydd ar gyfer Openreach ●
5. Cod ar amserlennu hysbysebion teledu ●
6. Amrywiad i Ymgymeriadau BT o dan Ddeddf Menter 2002 sy'n gysylltiedig â Ffibr i'r Cabinet ●
7. Rheoli'r sbectrwm uwchben 275 GHz ●
8. Newidiadau i adroddiadau ariannol rheoliadol BT a KCOM – y diweddaraf ar gyfer 2008/09 ●
9. Adolygu ffioedd trwyddedau Radio Busnes ym Mand I ●
10. Difidend Digidol: clirio'r band 800 MHz ●
11. Difidend Digidol: mynediad gwybyddol ●
12. Rheolaethau Codi Tâl am Linellau ar Log ●
13. Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffi Di-wifr (Dyfeisiau Pellter Agos) (Esemptiad) 2009 ●
14. Awdurdodi rhwydweithiau symudol daearol sy'n ategu systemau lloeren symudol (MSS) 2GHz ●
15. Adolygiad Topcomm ●
16. Caniatâd i hepgor y gofyniad hysbysu ynghylch prisiau BT ar gyfer taliadau gwasanaethau llinellau cyfnewid analog busnes cyfanwerthol ●
17. Adolygu Trefniadau Rhwydweithio ITV ●
18. Ailflaenoriaethu gweddill ymrwymadau BT o ran ei Ymgymeriadau ar wahanu systemau gwybodaeth ●
19. Adolygu marchnadoedd cyfanwerthu'r gwasanaethau band cul sefydlog ●
20. Marchnadoedd Gwasanaethau Adwerthu Band Cul Sefydlog - Pennu marchnadoedd a phenderfynu ar bŵer y farchnad ●
21. Adolygu Rheolaethau Codi Tâl Rhwydwaith BT ●
22. Caniatâd i hepgor y gofyniad hysbysu ynghylch prisiau BT ar gyfer taliadau cysylltu gwasanaethau llinellau cyfnewid analog cyfanwerthol ●
23. Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffi Di-wifr (Offer Band Llydan Wltra) (Esemptiad) 2009 ●
24. Un Cynllun Cydraddoldeb ●
25. Mynediad a Chynhwysiant ●
26. Cyfraniad y Gynulleidfa mewn Rhaglenni Radio ●
27. Y Cynllun Sbectrwm ar gyfer Gemau Llundain 2012 ●
28. Adolygiad Cwmpasu PRS ●
29. Adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol (Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon) ar Reolau Perchnogaeth y Cyfryngau ●
30. BT - cais am esemptiad - cyflenwi BT Basic yn Ebbsfleet ●
31. Rhyddhau band 59 – 64 GHz ●
32. Adolygu'r gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion, achosion a sancsiynau yng nghyswllt darlledu ●
33. Mobile Evolution: Asesiad Ofcom o'r sector symudol ●
34. Rhif tri-digid ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd nad ydynt yn rhai brys - dynodi rhif "111" ●
35. Rheoleiddio gwasanaethau fideo ar alwad ●
36. Amddiffyn defnyddwyr rhag camwerthu gwasanaethau telegyfathrebu llinell sefydlog ●
37. Hefgor y gofynion hysbysu ynghylch prisiau BT ar gyfer rhai o wasanaethau Ethernet BT ●
38. Rhwydweithiau Cenhedlaeth Nesaf ●
39. Adolygiad o'r farchnad cyfanwerthol gwasanaethau band cul sefydlog (zil ddatganiad) ●
40. Rheolaethau Codi Tâl am Rentu Llinellau Cyfanwerthol – gweithredu a gogwydd costau ●
41. Rheolau Ofcom ar gyfer PPRB a gweithdrefnau ar gyfer penderfynu ar anghydfodau ●
42. Adolygiadau o'r telerau ariannol ar gyfer trwyddedau Channel 3 a Channel 5 ●
43. Amrywio Ymgymeriadau BT mewn perthynas â FTTP ac esemptiad rhagddynt ●
44. Gwasanaethau Teledu Daearol Digidol Arfaethedig BSkyB ●
45. Teledu Talu ●

- Newydd/wedi cynyddu
- Cymysg/heb newid/parhaol
- Wedi llyfnu /cyd-reoleiddio
- Wedi lleihau

PERFFORMIAD A GWERTHUSO

Ymgynghori â rhanddeiliaid

Un o'r prif ffyrdd a ddefnyddiwn i ymgysylltu â rhanddeiliaid a'u galluogi i ddylanwadu ar ein penderfyniadau polisi yw drwy ymgynghori.

Os bydd ymgynghoriad yn rhy fyr, efallai na fydd gan y rheini sydd â barn bwysig i'w chyfleu ddigon o amser i baratoi eu hymatebion. Os bydd yn rhy hir, efallai y bydd y farchnad dan sylw wedi newid yn ddramatig. Gallai hyn effeithio ar ein gallu i ddelio â mater cyn gynted ag y byddai'r rhanddeiliaid dan sylw'n ei hoffi. Pan fyddwn yn penderfynu ar hyd cyfnod ymgynghoriad, mae angen inni gael y cydbwysedd iawn rhwng y ddwy ystyriaeth hyn. Yn gyffredinol, ceir tri chategori o ymgynghoriad:

- Categori 1: ymgynghoriadau sy'n cynnwys cynlluniau polisi o bwys a/neu sydd o ddiddordeb i amrywiaeth eang o rhanddeiliaid (yn enwedig y rheini y bydd angen mwy o amser arnynt efallai ar gyfer ymateb); yn yr achosion hyn byddwn yn ymgynghori am ddeg wythnos.
- Categori 2: ymgynghoriadau sy'n cynnwys cynigion polisi pwysig ond a fydd o ddiddordeb i nifer cyfyngedig o rhanddeiliaid a fydd yn ymwybodol o'r materion; yn yr achosion hyn byddwn yn ymgynghori am chwe wythnos.
- Categori 3: ymgynghoriadau sy'n dod o fewn un neu fwy o'r categorïau canlynol, gyda'r cyfnod ar gyfer ymgynghori yn fis:
 - materion technegol;
 - lle bydd angen cwblhau prosiect o fewn amserlen benodol oherwydd datblygiadau yn y farchnad neu ffactorau eraill lle mae gofyn cwblhau'r prosiect mewn cyfnod byr;
 - bod y mater eisoes wedi bod yn destun ymgynghori;
 - lle na chaiff cynnig fawr o effaith ar farchnad; neu
 - lle nad yw cynnig ond yn fân newid i bolisi neu reoleiddiad sy'n bodoli eisoes.

Yn Ffigur 3 dadansoddir hyd ein hymgyngoriadau ar bolisi fesul sector. Bydd cyfnod ymgynghori hwy'n rhoi mwy o gyfle i ymateb ac ymwneud mwy â phenderfyniadau ynghylch polisi. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd y mater yr ymgynghorir yn ei gylch o bwys mawr ac â phroffil uchel. Dengys ffigur 3 fod hanner ein cyfnodau ymgynghori yn 2009/10 wedi para deg wythnos o leiaf (51 y cant o ymgynghoriadau), sy'n debyg i'n perfformiad yn 2008/9 (52 y cant).

Mae Ofcom hefyd yn casglu ystadegau ar nifer yr ymatebion i ymgynghoriadau. Dangosir hyn yn ffigur 4. Mae'r siart yn dangos y nifer mawr o ymatebion a gawsom yn ystod y flwyddyn, ar sail y 46 ymgynghoriad lle cyhoeddasom ddatganiad wedyn. Cafwyd amrywiaeth eang iawn o ymatebion i bedwar ymgynghoriad (h.y. 31 neu fwy). Mae hyn yn llai nag yn 2008/9 lle cafwyd 31 neu fwy o ymatebion i 12 ymgynghoriad. Ond roedd y rhan fwyaf o'r materion y buom yn ymgynghori arnynt yn gulach eu cwmpas ac o ddiddordeb i gylch llai o rhanddeiliaid – derbyniodd 39 y cant o ymatebion ddeg neu lai o ymatebion.


PERFFORMIAD A GWERTHUSO

FFIGUR 3: DADANSODDI HYD YMGYNGHORIADAU 2009/10

	Cyfnod ymgynghori'n 10 wythnos o leiaf	Cyfnod ymgynghori'n llai na 10 wythnos (gan gynnwys ymgynghoriadau categori 2 a chategori 3)
Telegyfathrebiadau	9	19
Darlledu	9	6
Sbectrwm	12	8
Arall	4	-
Cyfanswm	34 (51%)	33 (49%)

Cyhoeddir canllawiau ymgynghori Ofcom ar ei wefan (http://www.ofcom.org.uk/consult/consult_method/ofcom_consult_guide)

FFIGUR 4: YMATEBION I YMGYNGHORIADAU



Mae'r data hwn yn seiliedig ar ddatganiadau a gyhoeddwyd yn 2009/10 ac maent yn cyfeirio at nifer yr ymatebion a gafwyd i'r ddogfen ymgynghori berthnasol (ac efallai i honno gael ei chyhoeddi mewn blwyddyn adrodd flaenorol).

PERFFORMIAD A GWERTHUSO

Gwneud penderfyniadau'n brydlon

Rydym hefyd wedi dadansoddi'r amser a gymerwn i gyhoeddi datganiad polisi ar ôl i gyfnod ymgynghori ddod i ben.


Mae nifer o ffactorau'n effeithio ar hyd y broses hon, gan gynnwys:

- yr angen i roi ystyriaeth ofalus i sylwadau lluosog a sylwadau sy'n aml yn gymhleth a dderbyniwn oddi wrth randdeiliaid;
- a yw ein penderfyniad terfynol yn dibynnu ar ffactorau allanol; a hefyd
- yr angen inni flaenoriaethu'r defnydd a wnawn o'n hadnoddau.

Gall rhanddeiliaid sy'n cyflwyno ymatebion hwyr effeithio ar ein proses gwneud penderfyniadau hefyd. Pan fydd rhanddeiliaid yn cyflwyno ymatebion ar ôl i ymgynghoriad ddod i ben, mae'n dal yn ofynnol inni ystyried eu cynnwys yn briodol. Er y bydd rhesymau dilys weithiau dros gyflwyno sylwadau'n hwyr, rydym wedi sylwi ar dueddiad ar ran rhai rhanddeiliaid i anfon sylwadau'n hwyr at ddibenion tactegol i bob golwg.

Dangosir dadansoddiad o'r amser a gymerwn i wneud penderfyniadau yn ffigur 5. Cyhoeddir mwyafrif helaeth (85 y cant) ein datganiadau o fewn 20 wythnos i ddiwedd y cyfnod ymgynghori, a 37 y cant o fewn 10 wythnos. Mae newidiadau yn ein perfformiad er y llynedd wedi bod yn

FFIGUR 5: DADANSODDIAD O'R AMSER A GYMERWYD I GYHOEDDI PENDERFYNIAD GAN OFCOM AR ÔL I'R CYFNOD YMGYNGHORI DDOD I BEN



gymysg. Mae nifer y datganiadau a gyhoeddwyd 21 wythnos neu fwy ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori wedi disgyn o ddeg i saith er y llynedd Ond cafwyd cynnydd mawr yn nifer y datganiadau a gyhoeddwyd rhwng 11 ac 20 wythnos ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben (o 8 i 22).

Mae nifer yr apeliadau, achosion ymgyfreitha ac anghydfodau a ddygwyd gan rai rhanddeiliaid wedi cynyddu dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae hyn weithiau wedi achosi oedi o ran rhoi ein penderfyniadau ar waith, a'r manteision a ddarparant i ddefnyddwyr. Mae hefyd wedi arwain at heriau ychwanegol o ran amddiffyn ein penderfyniadau a sicrhau nad ydynt yn hawdd eu gwrthdroi.

Asesiadau Effaith

Mae Asesiadau Effaith yn rhan bwysig o'r broses llunio polisiâu. Mae adran 7 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn ei gwneud yn ofynnol inni gynnal Asesiad Effaith lle rydym yn bwriadu gwneud unrhyw beth er mwyn cyflawni ein swyddogaethau neu mewn cysylltiad â chyflawni ein swyddogaethau, a lle teimlwn fod y cynnig yn bwysig. Maent yn sicrhau, yng nghyswllt ein penderfyniadau polisi:

- bod ystod eang o ddewisiadau'n cael eu hystyried, gan gynnwys y dewis i beidio â rheoleiddio;
- bod y dewisiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n glir;
- bod effeithiau posibl pob dewis yn cael eu dadansoddi'n ofalus;
- y bydd y manteision yn fwy na'r costau sy'n gysylltiedig â'r dewis a ddewisir.

Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i gyhoeddi rhestr o'r Asesiadau Effaith a gynhelir yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhestr hon i'w gweld yn ffigur 6.

Datganiadau a gyhoeddwyd 30 wythnos neu ragor ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben:

- Newidiadau i rifau ffôn 0870 - yng ngoleuni sylwadau gan randdeiliaid ac Anghydfod yn ymwneud â rhifau ffôn 0870 dan apêl, gohiriwyd y penderfyniad nes y cyhoeddwyd penderfyniad drafft diwygiedig ar yr Anghydfod 0870.
- Gwella Mynediad at Ddulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod - roedd angen cynnal dadansoddiad pellach o'n cynigion yng ngoleuni'r ymatebion oddi wrth randdeiliaid i'r ymgynghoriad.
- Awdurdodi rhwydweithiau symudol daearol i ategu systemau lloeren symudol (MSS) 2 GHz - gohiriwyd er mwyn sicrhau cysondeb â phenderfyniad gan Senedd a Chyngor Ewrop (mabwysiadwyd ddiwedd Mai 2009)
- Gwasanaethau Teledu Daeareol Digidol arfaethedig BSkyB - gohiriwyd nes y cyhoeddir casgliad ein hymchwiliad i'r farchnad teledu talu.

PERFFORMIAD A GWERTHUSO

FFIGUR 6: ASESIADAU EFFAITH A GYNHALIWYD YN YSTOD 2009/10

Datganiadau Ofcom a gyhoeddwyd yn 2009/10 lle roedd yr ymgynghoriad blaenorol yn cynnwys asesiad effaith
Newidiadau i 0870
Gwella mynediad at Ddatrys Anghydfod drwy Ddulliau Amgen
Fframwaith prisio newydd ar gyfer Openreach
Côd ar amserlennu hysbysebion teledu
Rheoli'r sbectrwm uwchben 275 GHz
Newidiadau i adroddiadau ariannol rheoliadol BT a KCOM – y diweddaraf ar gyfer 2008/09
Adolygu ffioedd trwyddedau Radio Busnes ym Mand I
Difidend Digidol: clirio'r band 800 MHz
Difidend Digidol: mynediad gwybyddol
Rheolaethau Codi Tâl am Linellau ar Log
Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffi Di-wifr (Dyfeisiau Pellter Agos) (Esemptiad) 2009
Awdurdodi rhwydweithiau symudol daearol sy'n ategu systemau lloeren symudol (MSS) 2 GHz
Adolygiad Topcomm: Datganiad
Ailflaenoriaethu gweddill ymrwymadau BT o ran ei Ymgymeriadau ar wahanu systemau gwybodaeth
Adolygu marchnadoedd cyfanwerthu'r gwasanaethau band cul sefydlog
Marchnadoedd Gwasanaethau Adwerthu Band Cul Sefydlog - Pennu marchnadoedd a phenderfynu ar bŵer y farchnad
Adolygu Rheolaethau Codi Tâl Rhwydwaith BT
Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffi Di-wifr (Offer Band Llydan Wltra) (Esemptiad) 2009
Cyfraniad y Gynulleidfa mewn Rhaglenni Radio
Adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol (Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon) ar Reolau Perchnogaeth yn y Cyfryngau
BT - cais am esemptiad - cyflenwi BT Basic yn Ebbsfleet
Rhyddhau band 59 – 64 GHz
Adolygu'r gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion, achosion a sancsiynau yng nghyswllt darlledu
Mobile Evolution: Asesiad Ofcom o'r sector symudol
Rhif tri-digid ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd nad ydynt yn rhai brys - dynodi rhif "111"
Rheoleiddio gwasanaethau fideo ar alwad
Adolygu marchnadoedd cyfanwerthu'r gwasanaethau band cul sefydlog
Rheolaethau Codi Tâl am Rentu Llinellau Cyfanwerthol – gweithredu a gogwydd costau
Dyfarnu band 872-872 MHz ochr yn ochr â 917-921 MHz
Amrywio Ymgymeriadau BT mewn perthynas â FTTP ac esemptiad rhagddynt
Gwasanaethau Teledu Daearol Digidol Arfaethedig BSKyB
Teledu Talu

PERFFORMIAD A GWERTHUSO

FFIGUR 6: ASESIAU EFFAITH A GYNHALIWYD YN YSTOD 2009/10

Ymgynghoriadau a gyhoeddwyd gan Ofcom yn 2009/10 a oedd yn cynnwys asesiad effaith a lle nad oes datganiad wedi'i gyhoeddi
Radio: goblygiadau Prydain Ddigidol ar gyfer rheoleiddio 'bod yn lleol'
Mynediad i Sbectrwm a Gydabyddir gan y Goron yn 3400 - 3600MHz
Terfynu galwadau llais ffonau symudol (cyfanwerthol)
Dyblygedd a rheoleiddio llinellau ar log digidol lled band isel adwerthol BT
Clirio'r band 800 MHz: Arian i wneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig
Taliadau cyfanwerthol ar gyfer Gwasanaethau Trosi Rhifau a Gwasanaethau Cyfradd Premiwm
Cyfeirio galwadau i rifau ffôn sydd wedi cael eu trosglwyddo i ddarparwr arall
Cludo rhifau ffôn symudol o un darparwr i ddarparwr arall
Adolygiad 2009 o Wasanaethau Mynediad i Deledu
Teledu Cyfranogi 3
Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd 2012 (WRC-12)
Hysbysiad am Newidiadau Arfaethedig i drwyddedau Gwasanaethau Lloeren yn sgil Cyfarwyddeb AVMS
Adolygiad o Weithdrefnau Cwynion Defnyddwyr
Cais i amrywio trwyddedau 3G (a chynnig dilynol i amrywio trwyddedau gorsafoedd 2GHz MSS/CGC drafft)
Cymhwyso'r system o brisio sbectrwm i'r sector Awyrofod
Newidiadau i adroddiadau ariannol a rheoliadol BT a KCOM – y diweddaraf ar gyfer 2009/10
Rheoli cynnwys ar lwyfan Freeview HD
Esemptiadau i Drwyddedau Dyfeisiau Telegraffi Di-wifr - ymgeiswyr 2010
Cynigion ar gyfer gosod ffoedd rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau fideo ar alwad am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2011
Adolygu'r farchnad mynediad lleol cyfanwerthol
Adolygu'r marchnadoedd mynediad i fand eang cyfanwerthol
Adolygu'r Rheolau ar Werthu Amser ar yr Awyr
SRSP: Fframwaith digwygiedig ar gyfer Priso Sbectrwm

Ym mis Gorffennaf 2005, cyhoeddasom ganllawiau *Arferion gorau wrth lunio polisiau: agwedd Ofcom at asesu effaith* a oedd yn pwysleisio ymrwymiad Ofcom i gynnal asesiadau fel rhan greiddiol o'r broses llunio polisiau gan ddweud ein bod yn disgwyl cynnal Asesiadau Effaith ym mwyafrif helaeth ein penderfyniadau ar bolisiau.

Roedd chwe deg a thri o ddogfennau ymgynghori'n cynnwys asesiad effaith wedi'i labelu'n glir, ac wedi'i osod mewn adran neu atodiad penodol o'r ddogfen ymgynghori. Efallai y bydd dogfennau ymgynghori heb Asesiad Effaith penodol yn dal yn cynnwys asesiadau ymhlyg o effaith wedi'u cyfuno drwy'r holl ddogfen. Dan rai amgylchiadau hefyd efallai na fydd angen cynnal Asesiad Effaith neu efallai na fydd yn briodol ei gynnal.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod asesiadau effaith yn cael eu cynnal ac yn cael eu cyflwyno'n briodol ymhob achos perthnasol. Bwriadwn gyhoeddi canllawiau diwygiedig yn ystod 2010 i wella effeithiolrwydd Asesiadau Effaith ac i adlewyrchu'r newidiadau yn yr arferion gorau.

DATA YSTADEGOL

Darparu gwasanaethau a gorfodaeth

Yn ogystal â datblygu polisi rheoleiddio, mae Ofcom yn darparu gwasanaethau i randdeiliaid ac yn gwneud gwaith gorfodaeth. Mae gan Ofcom nifer o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) i fesur sut yr ydym yn darparu'r gwasanaethau hyn. Ynghyd â'r perfformiad ariannol, maent yn dangos i ba raddau yr ydym yn effeithlon ac yn effeithiol yn fewnol.

Mae'r data yn yr adran hon yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

- Trwyddedu sbectrwm - rhoi trwyddedau (categoriâu A, B a C) a DPA;
- Gweithrediadau Sbectrwm – peirianeg sbectrwm a gweithgarwch gorfodi a DPA;
- Darlledu -
 - Cwynion am raglenni (gan gynnwys DPA)
 - Safonau rhaglenni
 - Tegwch a phreifatrwydd (gan gynnwys DPA)
 - Pwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys
- Rhaglen ymchwiliadau - DPA; a
- Rhifo - DPA ar gyfer ceisiadau am rifau ffôn.

Yn y rhan fwyaf o feysydd, mae Ofcom yn gweithredu'n unol â'r targedau y credwn eu bod yn ofynnol er mwyn diwallu anghenion rhanddeiliaid, neu'n agos at y targedau hynny.

TRWYDDEDU SBECTRWM A DPA

Ofcom sy'n cyhoeddi trwyddedau o dan y Ddeddf Telegraffi Di-wifr. Rhennir y rhan fwyaf o'r mathau hyn o drwydded yn dri chategori mwy: A, B a C. Mae dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) ar gael ar hyn o bryd ar gyfer pob categori o drwydded. Mae'r rhain yn mesur yr amser a gymer Ofcom i roi'r drwydded ac mae hynny'n amrywio yn ôl y math o drwydded. Yn gyffredinol, mae 82 y cant o gwsmeriaid yn fodlon â'r gwasanaeth, gyda 76 y cant yn fodlon â'r amser a gymerir i roi trwyddedau.

- Trwyddedau syml yw trwyddedau Categori A lle nad oes gofyn aseiniu amleddau, clirio safle na chydlynu rhyngwladol. Y DPA ar gyfer Categori A yw y dylid rhoi neu wrthod 100 y cant o geisiadau dilys am drwydded ar gyfer gwasanaethau newydd neu wasanaethau wedi'u hamrywio (gydag esboniad) o fewn saith neu ddeng niwrnod ar ôl i'r cais gyrraedd Ofcom.

- Mae trwyddedau Categori B yn fwy cymhleth ac mae angen gofyn aseiniu amleddau, ond nid oes yn rhaid clirio safle na chydlynu rhyngwladol. Y DPA ar gyfer trwyddedau Categori B yw y dylid rhoi neu wrthod 90 y cant o'r ceisiadau dilys am drwydded ar gyfer gwasanaethau newydd neu wasanaethau wedi'u hamrywio (gydag esboniad) o fewn 21 diwrnod; y gweddill i'w rhoi neu eu gwrthod o fewn 42 diwrnod ar ôl i'r cais gyrraedd Ofcom.
- Trwyddedau Categori C yw'r trwyddedau mwyaf cymhleth lle mae gofyn aseiniu amleddau, clirio safle a/neu gydlynu rhyngwladol. Y DPA ar gyfer trwyddedau Categori C yw y dylid rhoi neu wrthod 100 y cant o'r ceisiadau dilys am drwydded ar gyfer gwasanaethau newydd neu wasanaethau wedi'u hamrywio (gydag esboniad) o fewn 42 diwrnod ar ôl i'r cais gyrraedd Ofcom; ac eithrio lle bydd angen cael cliriad rhyngwladol, ac wedyn dylid caniatáu neu wrthod y ceisiadau o fewn 60 diwrnod neu roi esboniad am yr oedi.

Mae'n ofynnol i Ofcom adrodd yn fanwl ar ei weithgarwch rheoli'r sbectrwm; mae'r tablau yn Atodiad 1 ar dudalennau 104-106 yn nodi gweithgareddau trwyddedu dewisol ac annewisol y Ddeddf Telegraffi a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod dan sylw.

GWEITHREDIADAU SBECTRWM – DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL AR GYFER GORFODAETH A PHEIRIANEG SBECTRWM

Swyddogaeth Tîm Gorfodaeth a Pheirianeg Sbectrwm Ofcom yw gweithredu yn erbyn trosglwyddiadau anghyfreithlon, datrys ymyrraeth niweidiol a chynnal archwiliadau cydymffurfio ar safleoedd radiogyfathrebu ymhob cwr o'r DU. Tîm Gwaith Maes Ofcom oedd enw'r tîm yn flaenorol ac fe'i hailenwyd er mwyn adlewyrchu natur newidiol ei waith yn gywir. Fel rhan o hyn, mae'r Tîm Gorfodaeth a Pheirianeg Sbectrwm wedi gweithredu system Rheoli Ansawdd ISO 9001 ac wedi sicrhau'r safon hon ym Mawrth 2010.

Ceir manylion gweithgareddau Gorfodaeth a Pheirianeg Sbectrwm a'r dangosyddion perfformiad allweddol yn Atodiad 2 ar dudalennau 107 a 108.

DARLLEDU

Cwynion am raglenni

Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i ystyried cwynion gan wrandawyr a gwylwyr am raglenni teledu a radio a ddarllidir gan drwyddedeion darlledu'r DU, S4C a'r BBC, ac i roi dyfarniad yn eu cylch.

Gwnaeth Ofcom benderfyniadau ynghylch cyfanswm o 28,281 o gwynion am raglenni. Roedd 28,072 yn gwynion

DATA YSTADEGOL

am safonau'r rhaglenni (gan gynnwys materion a oedd yn ymwneud â hysbysebu gwleidyddol ac amserlennu hysbysebion teledu), ac roedd 209 yn gwynion am annhegwch honedig a/neu ynghylch tarfu ar breifatrwydd yn ddiangen.

Mae cwynion unigol y mae Ofcom yn eu derbyn yn cael eu haseinio i achosion. Agorir achos pan fydd Ofcom yn asesu neu'n ymchwilio i fater neu raglen benodol. Caewyd cyfanswm o 10,888 achos (28,281 o gwynion) yn y cyfnod dan sylw. Caeir achos unwaith y bydd Ofcom wedi dod i benderfyniad ar y mater.

Safonau rhaglenni

O blith y 10,679 achos a gaewyd (28,072 cwyn) a oedd yn ymwneud â safonau rhaglenni:

- gwelwyd bod 152 achos naill ai'n torri'r Côd Darlledu, codau eraill Ofcom neu amodau trwydded. O blith y rhain, roedd chwe achos yn destun sancsiynau statudol (a oedd yn cynnwys chwe darlledwr gwahanol);
- cafodd 13 achos eu datrys; a
- nid oedd 10,514 achos wedi torri amodau nac yn gweithredu y tu allan i'w cylch gwaith.

Y nifer a gwblhawyd o fewn y targed:

- Achosion syml – caewyd 99.2% o fewn 30 diwrnod gwaith (targed: 80%)
- Achosion cymhleth – caewyd 72.1% o fewn 60 diwrnod gwaith (targed: 80%)

Tegwch a phreifatrwydd

Tan fis Rhagfyr 2009 y Pwyllgor Tegwch oedd corff penderfynu uchaf Ofcom yng nghyswllt achosion tegwch a phreifatrwydd. Roedd yn un o bwyllgorau Ofcom (a'i bwerau wedi'u dirprwyo oddi wrth Brif Fwrdd Ofcom) ac roedd yn cynnwys o leiaf tri aelod, a phob un ohonynt yn aelodau o'r Bwrdd Cynnwys. Roedd yn ystyried achosion a oedd yn cael eu cyfeirio ato gan y Weithrediaeth (er enghraifft, oherwydd eu cymhlethdod). Roedd hefyd yn adolygu penderfyniadau a oedd wedi'u gwneud gan y Weithrediaeth lle roedd un o'r partïon neu'r ddau ohonynt wedi dadlau y dylid adolygu'r penderfyniad hwnnw.

Nifer yr achosion a gaewyd: 209

O ran yr achosion tegwch a phreifatrwydd a gaewyd, ystyriwyd wyth gan y Pwyllgor Tegwch.

O blith y rhain:

- cadarnhawyd pump yn rhannol; a
- ni chadarnhawyd tri.

Penderfynwyd ynghylch y 201 achos tegwch a phreifatrwydd arall a gaewyd gan y Weithrediaeth.

O blith y rhain:

- cadarnhawyd 15 (11 o'r rheini'n rhannol);
- ni chadarnhawyd 55;
- datryswyd naw (ar ôl i'r darlledwr gymryd camau priodol); a
- yng nghyswllt 122 achos penderfynwyd peidio â'u hystyried neu ni fwriwyd ymlaen â hwy ar ôl eu hystyried.

Y nifer a gwblhawyd o fewn y targed:

Achosion syml – caewyd 92.9% o fewn 80 diwrnod gwaith (targed: 80%)

- Achosion cymhleth – caewyd 73.5% o fewn 130 diwrnod gwaith (targed: 80%)

Pwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, cyfeiriwyd achosion a ddylai gael eu hystyried, ym marn y Weithrediaeth, am sancsiwn statudol at y Pwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys sy'n cynnwys hyd at bump aelod, dau ohonynt o blith Bwrdd Ofcom a thri o'r Bwrdd Cynnwys. Roedd gan y Pwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys cworwm gyda thri Aelod o'r Bwrdd Cynnwys. Cadeirydd y Pwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys oedd Cadeirydd y Bwrdd Cynnwys.

Yn ystod y cyfnod dan sylw, rhoddodd y Pwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys sancsiynau mewn chwe achos.

¹ Ar gyfer achosion safonau, gelwir achos yn 'syml' os bydd Ofcom yn penderfynu, ar ôl asesiad cychwynnol, nad yw'r achos yn codi unrhyw faterion y bydd angen ymchwilio ymhellach iddynt. Gelwir achos yn 'gymhleth' os bydd Ofcom yn penderfynu bod materion yn codi y bydd angen ymchwilio ymhellach iddynt a/neu bod Ofcom yn gofyn am sylwadau ffurfiol oddi wrth y darlledwr.

² Ar 16 Rhagfyr 2009, disodlwyd y Pwyllgor Tegwch gan y Pwyllgor Adolygu Darlledu. Ar y dyddiad hwnnw, cyflwynodd Ofcom weithdrefnau newydd ar gyfer ymdrin ag ymchwiliadau tegwch a phreifatrwydd, ymchwiliadau i safonau darlledu ac achosion eraill yn ymwneud â thrwyddedau. Dan y gweithdrefnau newydd disodlwyd y Pwyllgor Tegwch gan y Pwyllgor Adolygu Darlledu. Ond, ar gyfer y cyfnod rhwng 16 Rhagfyr 2009 a 31 Mawrth 2010, ni chafodd unrhyw achosion tegwch a phreifatrwydd eu cyfeirio at y Pwyllgor na'u hystyried ganddo. I gael rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor Adolygu Darlledu, ewch i: <http://www.ofcom.org.uk/about/csg/obrc/>.

³ Ar gyfer ymchwiliadau tegwch a phreifatrwydd gelwir achos yn un 'syml' os bydd Ofcom yn dod i benderfyniad am y gwyn yn dilyn cyfnewid datganiadau ysgrifenedig unwaith (neu lai), neu bod y cwynion wedi'u datrys drwy gyfrwng 'datrysiad priodol'. Mewn achosion 'cymhleth' penderfynir ar ôl cyfnewid datganiadau ysgrifenedig ddwywaith a/neu wrandawriad.

DATA YSTADEGOL

Penderfynodd y Pwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys gosod cosb ariannol ar y canlynol:

- Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (BBC) yng nghyswllt *The Russell Brand Show* ar ei gwasanaeth BBC Radio 2 – £150,000 a Chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad am ganfyddiadau Ofcom ar un achlysur
- Channel Television Limited yng nghyswllt *The British Comedy Awards 2004* a *The British Comedy Awards 2005* a ddarlledwyd ar ITV1 – £80,000 a Chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad am ganfyddiadau Ofcom ar un achlysur
- RHF Productions Limited yng nghyswllt ei wasanaethau Red Hot+, Red Hot Amateur, Red Hot Girl Girl, Red Hot Just 18, Red Hot DD a Red Hot Fetish – £25,500, a Portland Enterprises (C.I.) Limited yng nghyswllt ei wasanaeth Television X2 – £27,500
- Springdoo Media Limited yng nghyswllt ei wasanaeth Friendly TV – £12,000 a User Generated Broadcasting Limited yng nghyswllt ei wasanaeth Bedroom TV – £12,000
- Playboy TV UK/Benelux Limited yng nghyswllt ei wasanaeth Playboy One – £22,500
- Lakeland Radio Limited yng nghyswllt ei wasanaeth Lakeland Radio – £15,000 a Chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad am ganfyddiad Ofcom ar un achlysur

⁴ Ar 16 Rhagfyr 2009, cyflwynodd Ofcom weithdrefnau newydd ar gyfer ystyried sancsiynau statudol mewn achosion darlledu neu achosion eraill yn ymwneud â thrwyddedau. Dan y gweithdrefnau newydd disodlwyd y Pwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys gan y Pwyllgor Sancsiynau Darlledu. Cafodd pob achos yn ystod y cyfnod hwn ei ystyried gan y Pwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys. I gael rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor Sancsiynau Darlledu, ewch i: <http://www.ofcom.org.uk/about/csg/obsc/>.

⁵ Mae'r holl gosbau ariannol a roddir gan y Pwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys yn daladwy i Dâl-feistr Cyffredinol EM er budd y Trysorlys. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Ofcom: <http://www.ofcom.org.uk/about/csg/obsc/>

DATA YSTADEGOL

RHAGLEN YMCHWILIADAU – DPA

Mae rhaglen ymchwiliadau Ofcom yn ymwneud â chwynion am ymddygiad gwrthgystadleuol, torri rheolau rheoleiddio penodol ac anghydfodau ynghylch rheoleiddio. Mae'r tabl canlynol yn dangos gweithgareddau Ofcom o ran cynnal ymholiadau ac ymchwiliadau yn ystod 2009/10 a sut yr ydym wedi perfformio o'i gymharu â'n targedau statudol a chyhoeddedig. Mae hyn yn adlewyrchu'r darlun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2010.

Dylid nodi bod nifer yr achosion a gofnodir yn y tabl yn tueddu i fod yn fach ac y gall y DPA fod yn gyfnewidiol yn sgil hynny. Ceir rhagor o wybodaeth am y rhaglen ymchwiliadau yn ein hadroddiadau chwe-misol, Gweithgarwch Ymchwilio Ofcom <http://www.ofcom.org.uk/bulletins/crt/>.

Ym mis Gorffennaf 2009, fe ailstrwythurodd Ofcom ei weithgareddau ymchwilio gan rannu'r gwaith rhwng Tîm Ymchwiliadau'r Grŵp Cystadleuaeth a Thîm Ymchwiliadau Materion Defnyddwyr. Mae'r data yn y tablau isod yn ymdrin â pherfformiad y ddau dîm.

RHIFO

Ofcom sy'n gyfrifol am reoli rhifau ffôn yn y DU. Yn rhan o hyn, byddwn yn prosesu ceisiadau am flociau o rifau ffôn oddi wrth ddarparwyr cyfathrebiadau.

Mae'n rhaid i Ofcom benderfynu ar geisiadau am rifau ffôn o fewn tair wythnos i dderbyn yr holl wybodaeth berthnasol. Yn ystod y cyfnod dan sylw, sicrhodd Ofcom ddyraniad 100 y cant o fewn targedau.

Gweithgarwch a tharged	Perfformiad yn erbyn targedau	Gweithgarwch sy'n dal ar y gweill
Ymholiadau <ul style="list-style-type: none"> Cwblhau o fewn 15 diwrnod gwaith Cwblhau o fewn 8 wythnos ar gyfer cyfraith cystadleuaeth 	<ul style="list-style-type: none"> Ymdriniwyd â 25 ymholiad yn ystod y flwyddyn a'u cau (arweiniodd 7 at dderbyn yr anghydfodau, arweiniodd 4 at ragor o ymholiadau, ac ni chymerwyd unrhyw gamau mewn 14 achos) Caewyd 13 o'r 25 ymholiad (52%) o fewn y targed. Estynnwyd y gweddill am gyfnod byr gyda chytundeb 	<ul style="list-style-type: none"> Mae 1 ymholiad a agorwyd yn ystod y cyfnod adrodd yn dal ar y gweill ac wedi mynd y tu hwnt i'r targed Mae 1 ymholiad a agorwyd yn ystod y cyfnod adrodd yn dal ar y gweill ac wedi mynd y tu hwnt i'r targed
Anghydfodau <ul style="list-style-type: none"> Cwblhau o fewn 4 mis 	<ul style="list-style-type: none"> Ymdriniwyd â 19 anghydfod yn ystod y flwyddyn. Datryswyd 11 anghydfod yn ystod y flwyddyn Datryswyd 8 o'r 11 anghydfod (73%) o fewn y targed 	<ul style="list-style-type: none"> Roedd 8 anghydfod yn dal i gael sylw ar ddiwedd y flwyddyn Roedd 5 o fewn y targed Roedd amgylchiadau eithriadol yn berthnasol i'r 3 anghydfod arall
Ymchwiliadau yng nghyswllt y gyfraith cystadleuaeth <ul style="list-style-type: none"> Cwblhau o fewn 6 mis am beidio â thorri neu 12 mis am dorri 	<ul style="list-style-type: none"> Ni chafodd yr un achos ei agor na'i gau yn ystod y flwyddyn 	<ul style="list-style-type: none"> Y mae 2 ymchwiliad yn dal ar y gweill sydd wedi mynd y tu hwnt i'r targed
Rhaglenni gorfodaeth ac ymchwiliadau eraill <ul style="list-style-type: none"> Cwblhau ymchwiliadau unigol o fewn 4 mis ac eithrio ar gyfer achosion dan y Ddeddf Menter neu a ddechreuir gan Ofcom ei hun sydd â tharged i gwblhau o fewn 6 mis Nid oes targedau amser ar gyfer rhaglenni gorfodaeth 	<ul style="list-style-type: none"> Cafodd 4 ymchwiliad eu hagar a'u cau yn ystod y flwyddyn Roedd y 4 (100%) o fewn y targed 	<ul style="list-style-type: none"> Y mae 3 ymchwiliad unigol yn dal ar y gweill Mae 2 o'r 3 o fewn y targed Yn ogystal, y mae 5 rhaglen gorfodaeth yn dal ar y gweill

PERFFORMIAD ARIANNOL

Fel rhan o ymgyrch Ofcom i leihau'r costau rheoleiddio i drwyddedeion a threthdalwyr, mae Ofcom wedi gwneud arbedion o £7.5m yn erbyn ei gyllideb am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 ac wedi cyflwyno alldro gweithredol gwirioneddol o £129.3m.

Mae Ofcom hefyd wedi anfonebu ac wedi casglu cyfanswm o £195.9m ar gyfer y pwrs cyhoeddus yn ystod y flwyddyn oddi wrth drwyddedeion y Ddeddf Telegraffi Di-wifr, taliadau ychwanegol oddi wrth drwyddedeion darlledu a thrwy osod dirwyon a chosbau ar randdeiliaid.

Yn ogystal, mae Ofcom wedi gosod cyllideb ar gyfer 2010/11 sy'n adlewyrchu gostyngiad gwirioneddol am y chweched tro yn olynol yn ei gostau gweithredu blynyddol sylfaenol gyda rhagor o arbedion effeithlonrwydd yn yr arfaeth ym maes eiddo, gwasanaethau TG a chaffael.

FFRAMWAITH ARIANNOL

Dan Baragraff 8(1) o'r Atodlen i Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae gofyn i Ofcom dafoli ei wariant a'i incwm ym mhob blwyddyn ariannol.

Mae Adran 38 ac Adran 347 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn codi incwm gan bob un o'r sectorau y mae'n ei reoleiddio i dalu'r costau a ddaw i ran Ofcom wrth reoleiddio'r sector hwnnw.

Rhaid i Ofcom hefyd rannu ei gostau gweithredol cyffredinol - y rheini nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i'r un sector penodol - mewn modd cymesur ar draws pob un o'r sectorau hynny.

Bydd Ofcom yn codi ei arian o'r ffynonellau a ganlyn:

- ffioedd trwyddedau darlledu teledu;
- ffioedd trwyddedau darlledu radio;
- taliadau gweinyddol am rwydweithiau a gwasanaethau electronig ac am ddarparu cyfleusterau darlledu a chyfleusterau cysylltiedig;
- arian i dalu costau gweithredu Ofcom am reoli'r sbectrwm ar ffurf cymorth grant gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau; ac
- arian grant ar gyfer y swyddogaethau a'r dyletswyddau statudol hynny y mae'n rhaid i Ofcom eu cyflawni ond nad oes llif refeniw cyfatebol ar eu cyfer.

Bydd Ofcom hefyd yn cael incwm rhent o'r eiddo sydd ganddo dros ben, llog ar gyfrifon banc ac incwm o wasanaethau sy'n ychwanegol at ddyletswyddau statudol Ofcom.

SAFONAU ADRODDIADAU ARIANNOL RHYNGWLADOL (IFRS)

O 1 Ebrill 2009 ymlaen, roedd yn rhaid i Ofcom gyflwyno adroddiad ar ei ddatganiadau ariannol cyfunol yn unol â'r IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE. Y dyddiad trawsnewid ar gyfer mabwysiadu IFRS oedd 1 Ebrill

2008. Mae Nodyn 2 yn adran E o'r Adroddiad Blynyddol yn disgrifio effaith y trawsnewid o Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU (UK GAAP) i IFRS ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

CANLYNIADAU GWEITHREDOL

Yn 2009/10 gwnaeth Ofcom arbediad o £7.5m yn erbyn ei gyllideb weithredol o £136.8m. Mae hyn yn deillio o'r penderfyniad i rewi cyflogau ar draws y sefydliad, gostyngiadau mewn taliadau perfformiad, arbedion caffael sylweddol a sicrhawyd yn rhannol drwy weithredu cytundebau fframwaith, arbedion drwy reoli eiddo, gwell effeithlonrwydd o ganlyniad i gwblhau'r prosiect i integreiddio systemau TG Ofcom, a'r penderfyniad gan y Llywodraeth i beidio â bwrw ymlaen i gynnwys Postcomm dan adain Ofcom.

Ceir cysoniad yn Nodyn 3 Adran E sy'n pwysleisio'r gwahaniaethau rhwng cyfanswm y gwariant gweithredol fel y'i cyflwynir yn y Datganiad Incwm a Gwariant a Gwir alldro gweithredol Ofcom, sef £129.3m. Mae'r nodyn hefyd yn cysoni'r incwm ar yr un sail ac yn cyflwyno gwir alldro gweithredol ac incwm Ofcom ar gyfer 2009/10 fesul sector.

INCWM GWEITHREDOL

Incwm gweithredol Ofcom oedd £132.7m yn 2009/10 (2008/9: £131.9m). Dyma rai o'r newidiadau pwysicaf ers y flwyddyn flaenorol:

- Cynnydd £3.8m yn y taliadau rheoleiddio a godwyd ar y sector gwasanaethau a'r rhwydwaith. Mae gwaith ychwanegol wedi'i wneud mewn ymateb i'r lefel uchel o alw am reoleiddio economaidd yn ystod cyfnod o newid mawr, a'r costau hynny'n cael eu hadlewyrchu yn y taliadau ar gyfer y sector. Mae enghreifftiau o'r gwaith hwn yn cynnwys ymchwil angenrheidiol ar fand eang cenedlaeth nesaf, gwaith ychwanegol ar symud ac amddiffyn rhag camwerthu, a hyrwyddo cystadleuaeth drwy gynnig rhagor o doriadau yn y cyfraddau terfynu gwasanaethau symudol.
- Gostyngiad £1.8m yn y taliadau rheoleiddio a godwyd ar y sector darlledu. Y rheswm dros hyn yw llai o waith wedi'i gynllunio ar y rhaglen o asesiadau effaith ar y farchnad a chwblhau'r adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn 2008/9.
- Gostyngiad £0.7m yn yr hawliadau am gymorth grant ar gyfer clirio'r sbectrwm am na wnaethpwyd dim taliadau clirio yn ystod y flwyddyn.
- Gostyngiad £0.6m yn y cymorth grant ar gyfer rheoli'r sbectrwm yn bennaf oherwydd i'r prosiect i integreiddio systemau TG Ofcom gael ei gwblhau'n llwyddiannus.

Yn ogystal â hynny, roedd y llog ar gyfrifon banc Ofcom yn is yn ystod 2009/10, sef cyfanswm o £0.3m (2008/09: £1.3m). Y rheswm uniongyrchol dros y gostyngiad hwn yw'r cyfraddau llog is a oedd yn bodoli yn ystod y flwyddyn.

PERFFORMIAD ARIANNOL

GWARIANT GWEITHREDOL

Gostyngodd cyfanswm gwariant gweithredol Ofcom yn y Datganiad Incwm a Gwariant yn 2009/10 £2.5m o'i gymharu â 2008/9. Dyma rai o'r newidiadau pwysicaf ers y llynedd:

- Cafwyd gostyngiad net o £6.4m o ran costau gweithredol eraill a hynny'n bennaf yn sgil:
 - Cwblhau'r prosiect i integreiddio systemau TG Ofcom yn llwyddiannus yn ystod 2009/10.
 - Llai o wariant ar ffioedd proffesiynol ac ymchwil defnyddwyr a chynulleidfaoedd yn sgil mesurau effeithlonrwydd sylweddol ym maes caffael a llai o brosiectau mawr yn cael eu rhoi ar waith; yn arbennig yr adolygiad PSB a'r Adolygiad o'r Difidend Digidol.
 - Gostyngiad yng nghostau adeiladau o ganlyniad i adolygiad o'r darpariaethau prydesu beichus.
 - Dim taliadau ar gyfer clirio'r sbectrwm wedi'u gwneud i ddeiliaid trwyddedau fel rhan o'n rhaglen i ryddhau'r sbectrwm.
- Mae costau staff wedi cynyddu £3.9m er i gyflogau gael eu rhewi ac er gwaethaf gostyngiad yn lefel y taliadau perfformiad. Y prif reswm dros hyn yw cynnydd yn y niferoedd staff er mwyn dod ag Ofcom yn nes at y nifer y cyllidwyd ar ei gyfer ganddo. Un rheswm arall dros y cynnydd hwn yw'r drefn gyfrifyddu y mae'n rhaid ei dilyn o dan IAS 19, yng nghyswllt cronni gwyliau heb eu cymryd; nid yw'r addasiad cyfrifyddu hwn wedi'i gynnwys yn y taliadau rhanddeiliaid.

GWARGED AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL

Mae Ofcom yn cyfrifo'i refeniw gweithredol gofynnol ar sail ei ddatganiad o egwyddorion ar gyfer codi taliadau gan ystyried y cronfeydd y bydd eu hangen arno mewn gwirionedd i gyflawni ei ddyletswyddau ariannol yn ystod y flwyddyn. Bydd Ofcom yn dychwelyd unrhyw gronfeydd sydd dros ben i'r rhanddeiliaid drwy ostwng y tariffiau blynyddol a godir yn y ddwy flwyddyn ariannol ganlynol.

Y gwarged ar gyfer y flwyddyn ariannol ar ôl treth a gofnodwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn dan sylw oedd £11.0m (2008/9: £3.3m). Mae angen y gwarged hwn i dalu am wariant nad yw'n cael ei adlewyrchu yn y Datganiad Incwm a Gwariant, gan gynnwys gwariant cyfalaf a chyfraniadau at y ddau gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio.

TARIFIAU 2010/11

Ar 31 Mawrth 2010, cyhoeddodd Ofcom y Tablau Tariff ar gyfer 2010/11, a oedd wedi'u seilio ar amcangyfrif o £130.2m o alldro gwariant gweithredol ar gyfer 2009/10. Mae cyfanswm o £6.6m, y gwahaniaeth rhwng y gyllideb wreiddiol, sef £136.8m a'r amcangyfrif o alldro'r gwariant gweithredol, eisoes yn cael ei roi'n ôl i'r rhanddeiliaid yn 2010/11 fel rhan o'r tariffiau rheoleiddio cyfredol neu drwy

lai o hawliadau am gymorth grant.

Cyfanswm cyllideb Ofcom ar gyfer 2010/11 yw £142.5m. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer nifer o gyfrifoldebau newydd a roddwyd iddo gan y Llywodraeth. Yn benodol, cyflwyno a gorfodi côd i fynd i'r afael â thorri hawlfraint ar-lein. Mae hefyd yn cynnwys taliadau i gywiro'r diffyg yng nghynlluniau pensiwn y rheoleiddwyr blaenorol a orfodwyd ar Ofcom gan y Senedd.

Ac eithrio'r eitemau ychwanegol, cyllideb graidd Ofcom ar gyfer 2010/11 yw £127.5m. Ar sail debyg i debyg, mae hyn 3.6% o ran ei gwir werth na'n cyllideb ar gyfer 2009/10.

Pennir y gyllideb ar sail arian wedi'i addasu, sy'n cynnwys gwariant cyfalaf a chyfraniadau gwirioneddol at gynlluniau pensiwn, ond nid yw'n cynnwys dibrisiad.

Bydd ffioedd rheoleiddio'r sector yn newid yn benodol fel a ganlyn:

- lleihad 0.8% ar gyfartaledd (lleihad 3.1% mewn termau real) ar gyfer y Sector Teledu;
- cynnydd 1.3% ar gyfartaledd (lleihad 1.1% mewn termau real) ar gyfer y Sector Radio;
- cynnydd 19.8% ar gyfartaledd (cynnydd 17.0% mewn termau real) ar gyfer gweithredwyr gwasanaeth a rhwydwaith.

Yn ogystal â swmp mawr o waith sy'n gysylltiedig â'r newid o rwydweithiau'r genhedlaeth gyfredol i rwydweithiau'r genhedlaeth nesaf, mae Ofcom wedi wynebu rhagor o heriau gweithredol ac ariannol yn y blynyddoedd diwethaf yn sgil y cynnydd sylweddol yn yr anghydfodau a'r ymgyfreitha sydd wedi'u dwyn gan lawer o randdeiliaid. Mae adnoddau sylweddol wedi'u neilltuo i'r materion hyn ac, o'r herwydd, rhaid oedd darparu mwy o adnoddau'n gyffredinol er mwyn cyflawni swyddogaethau rheoleiddio statudol parhaus eraill Ofcom. Mae'r cynnydd yn yr anghydfodau ac ymgyfreitha wedi dod yn bennaf oddi wrth weithredwyr telegyfathrebiadau ac mae'n rhaid i'r costau cynyddrannol cysylltiedig gael eu hadennill oddi wrth y sector rhanddeiliaid perthnasol yn unol â'n datganiad ar egwyddorion codi tâl.

PENSIYNAU

Prif ddull Ofcom o ddarparu buddion pensiwn yw drwy lwfans pensiwn cyfraniadau diffiniedig a ddarperir ar gyfer pob aelod newydd o'r staff ac i'r cydweithwyr hynny a fu'n gweithio i'r rheoleiddwyr blaenorol sydd wedi dewis yr opsiwn hwn. Gellir defnyddio'r lwfans hwn i gyfrannu at gynllun pensiwn rhanddeiliaid cyfraniadau diffiniedig Ofcom. Mae dros 80 y cant o'n cydweithwyr yn Ofcom wedi'u cyflogi ar delerau sy'n cynnig aelodaeth o gynllun pensiwn rhanddeiliaid. Roedd yn ofynnol gan y Lywodraeth fod Ofcom yn darparu'r cyfle o aelodaeth o gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio i gydweithwyr eraill a oedd yn gweithio i'r rheoleiddwyr blaenorol.

PERFFORMIAD ARIANNOL

Ar gyfer y cydweithwyr hynny a fu'n gweithio i'r rheoleiddwyr blaenorol a ymunodd ag Ofcom ac a ddewisodd barhau'n aelodau o gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio, bydd Ofcom yn gweithredu dau gynllun o'r fath, ond nid yw'r rheini ar gael i neb ymuno â hwy o'r newydd. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn nodyn 11) a nodyn 24 yn Adran D.

Roedd prisiadau diweddaraf yr actiwari, ar 1 Ionawr 2007 ar gyfer Cynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt) ac ar 31 Mawrth 2009 ar gyfer Cynllun Pensiwn â Buddion wedi'u Diffinio Ofcom, yn dwyn sylw at ddiffyg ariannol cyfun o £27m. Mae prisiad yr actiwari ar 31 Mawrth 2009 ar gyfer Cynllun Pensiwn Ofcom (ITC yn flaenorol) bron â'i gwblhau a rhaid iddo gael ei gwblhau a'i gymeradwyo erbyn 30 Mehefin 2010. Fodd bynnag, mae'r datganiadau ariannol yn dangos gwarged o £2.5m, a hynny'n bennaf oherwydd bod y rhwymedigaethau pensiwn yn y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar y sail bod y rhwymedigaethau'n cael eu disgowntio'n unol â'r enillion a wneir yn sgil bondiau o safon, sydd, dan amgylchiadau presennol y farchnad, yn sylweddol wahanol i'r dull a ddefnyddir i bennu cyfraniadau Ofcom. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r symudiadau sylweddol mewn marchnadoedd ariannol ers dyddiad prisiadau'r actiwari.

Gwnaeth Ofcom gyfraniadau ariannol at Gynllun Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ac at Gynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt) ar sail prisiadau'r actiwari, ac mae'n dal i wneud hynny. Cynhwysir cyfraniadau arian, yn hytrach na'r swm a neilltuir i'r gwarged gweithredol, fel y'u cyfrifir dan IAS 19, yn alldro'r gwariant gweithredol a ddefnyddir i gyfrifo'r tariffiau a godir ar randdeiliaid bob blwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, cyfrannwyd £14.0m at y ddau gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio a dalwyd i mewn i gyfrif ymddiriedolaeth. Dim ond i un o'r ddau gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio y ceir talu arian a drosglwyddir i'r cyfrif ymddiriedolaeth ac a gedwir ynddo.

ARIAN YCHWANEGOL A GESGLIR AR RAN TRYSORLYS EM

Yn ystod 2009/10 fe wnaeth Ofcom anfonebu a chasglu £195.9m (2008/9: £223.0m). Trosglwyddir hwn i bwrs y wlad. Cesglir y referniw o dair ffynhonnell:

- Ffioedd trwyddedau dan y Ddeddf Telegraffi Di-wifr;
- Taliadau ychwanegol oddi wrth drwyddedeion teledu a radio; a
- Cosbau ariannol.

Bydd Ofcom yn paratoi set o Ddatganiadau Ariannol ar wahân at ddibenion Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

Ar 31 Mawrth 2010, roedd anfonebau yng nghyswllt ffioedd sbectrwm gwerth £70.0m (2008/9: £60.7m) yn dal heb eu talu. Mae cyfran sylweddol o'r symiau hyn yn ddyledus ar ffurf rhandaliadau. Ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, roedd £0.9m yn dal yn ddyledus ers dros 12 mis gan Inquam Telecom (Holdings) Limited. Yn ystod

2009/10, gwnaethpwyd gorchymyn dirwyn i ben yn erbyn Inquam Telecom (Holdings) Limited.

GEMAU OLYMPAIDD A GEMAU PARALYMPAIDD LLUNDAIN 2012

Mae cyfrifon 2009/10 yn cynnwys rhaglen waith gyntaf Ofcom am flwyddyn lawn ar gyfer Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd 2012 Llundain. Ofcom sy'n gyfrifol am drefnu cynllun sbectrwm llawn ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain yn 2012 a fydd yn cael eu cynnal rhwng 27 Gorffennaf a 9 Medi 2012, am drefnu'r holl drwyddedau yn brydlon i gefnogi'r cynllun ac am sicrhau na fydd ymyrraeth niweidiol yn tarfu ar wasanaethau di-wifr allweddol. Ysgwyddir y cyfrifoldebau hyn yn unol â'r ddwy warant a roddwyd gan Lywodraeth y DU i'r Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol (IOC) i gefnogi cais Llundain i gynnal y Gemau yno. Mae hyn yn gwarantu y bydd y sbectrwm a fydd yn ofynnol ar gyfer y Gemau'n cael ei ddyrannu a hepgor y ffioedd y byddai'n rhaid eu talu fel arall am y sbectrwm hwnnw gan aelodau'r teulu Olympaidd.

Yn ystod 2009/10, cwblhaodd Ofcom gam dylunio ei raglen baratoi ar gyfer y gemau a symud i'r cam adeiladu. Cyhoeddassom fersiwn gyntaf y cynllun sbectrwm ym mis Hydref 2009, cytuno ar ddull o drwyddedu, dylunio'r offer IS ar gyfer aseinio technegol a gweinyddu trwyddedau. Yn ogystal cwblhawyd y gwaith o werthuso a dewis yr offer synhwyr y mae'n rhaid ei gael ar gyfer rheoli ymyrraeth yn y ffordd orau bosibl yn ystod y Gemau. Flwyddyn nesaf byddwn wedi cwblhau'r Cynllun Aseinio Trwyddedau, wedi rhoi'r systemau TG newydd ar waith a fydd yn ei gefnogi ac wedi cyflwyno ein rhwydwaith o synwryddion ar gyfer monitro a chanfod cyfeiriad. Bydd ein digwyddiadau treialu ar raddfa fawr yn dechrau yn ystod haf 2010 a'r digwyddiadau profi traws-sefydliadol integredig yn dechrau yn ystod haf 2011.

BUDDSODDI MEWN ASEDAU SEFYDLOG

Adlewyrchir costau cyfalafu'r prosiect i integreiddio systemau TG Ofcom yn yr asedau anniriaethol fel yr oeddent ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd yr asedau a oedd wrthi'n cael eu hadeiladu ar 31 Mawrth 2010 yn werth £1.7m (2008/9 £0.3m) ac maent yn cynnwys datrysiad ar gyfer monitro'r sbectrwm syn cael ei ddatblygu i baratoi ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012.

TALU CYFLENWYR

Targed Ofcom yw parhau i dalu holl anfonebau cyflenwyr nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 10 diwrnod yn unol ag addewid y Llywodraeth a ddaeth i rym ym mis Rhagfyr 2008. Yn ogystal â chyflenwyr bach a chanolig, roedd Ofcom hefyd yn cynnwys cyflenwyr mawr yn hyn hefyd er mwyn eu hannog hwythau i dalu'n gyflymach i fusnesau bach sy'n eu cyflenwi hwy.

O ran perfformiad Ofcom yng nghyswllt y targedau hyn yn 2009/2010, llwyddwyd i gyrraedd 97.7 y cant (2008/9: 98.6 y cant).

ADRAN CH - DATGANIAD O GYFRIFON A LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Rhagair

ADRODDIAD Y BWRDD

Cyflwyno'r Bwrdd ei Adroddiad a'r datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010.

DATGANIAD O GYFRIFON

Paratowyd y Datganiad o Gyfrifon hwn yn unol ag Atodlen 1 Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac yn ôl cyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Cyfrifon yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2009 ac 31 Mawrth 2010.

PRIF WEITHGARWCH

Mae Ofcom yn gorfforaeth statudol heb randdeiliaid, a sefydlwyd dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Deddf Cyfathrebiadau 2003 sy'n rhoi grym i Ofcom reoleiddio a thrwyddedu teledu, radio, defnydd o'r sbectrwm radio a thelegyfathrebu yn unol â'r dyletswyddau a roddwyd iddo dan y Ddeddf.

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

Mae Neges y Cadeirydd ar dudalennau 6 a 7, Adroddiad Cadeirydd y Bwrdd Cynnwys ar dudalennau 12 i 14, Adroddiad y Prif Weithredwr ar dudalennau 8 i 11 a'r Adolygiad Gweithredol ac Ariannol ar dudalennau 32 i 47, yn ffurfio rhan o'r Adroddiad hwn ac yn darparu gwybodaeth am weithgarwch Ofcom yn ystod y flwyddyn. Mae datganiadau ariannol Ofcom wedi'u nodi ar dudalennau 71 i 103.

ARCHWILWYR ALLANOL

Penodir y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol, sy'n bennaeth ar y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, fel archwilydd allanol Ofcom dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Yr oedd yr archwiliad statudol ar gyfer 2009/10 yn costio £103,000, a chyfrifon archwiliedig Adran 400 yn costio £17,000. Hyd y gŵyr y Swyddog Atebol, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Ofcom yn ymwybodol ohoni, ac mae'r Swyddog Atebol wedi cymryd yr holl gamau gofynnol i sicrhau ei fod yn gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr Ofcom yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Y BWRDD

Y Bwrdd sy'n llwyr gyfrifol am benderfynu ar faterion Ofcom a'u gweithredu. Nodir manylion Aelodau'r Bwrdd ar dudalennau 50 a 51. Rhoddir manylion taliadau Aelodau ar dudalennau 64 i 70.

BUDDIANNAU AELODAU

Mae Ofcom o ddifrif ynghylch datgelu buddiannau Aelodau'n llawn. Ceir y manylion hyn ar-lein yn www.ofcom.org.uk.

DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Nid oedd dim digwyddiadau y gellir adrodd amdanynt rhwng dyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol a dyddiad ardstyio'r cyfrifon. Nid yw'r datganiadau ariannol yn adlewyrchu digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn.

CENHADAETH A GWERTHOEDD OFCOM

Mae Aelodau Bwrdd a chydweithwyr Ofcom yn rhannu ymrwymiad Ofcom i'w genhadaeth a'i werthoedd. Diben y genhadaeth a'r gwerthoedd ar y cyd yw sicrhau bod pob Aelod Bwrdd a chydweithiwr yn arddel cyfres glir o werthoedd craidd wrth gyflawni gwaith Ofcom.

Yr oedd cydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad yn allweddol wrth ddatblygu'r chwech o werthoedd sy'n adlewyrchu dymuniad Ofcom i weithio mewn ffordd agored, effeithiol ac sy'n canolbwyntio ar bobl. Drwy weithio fel hyn, mae Ofcom yn ymdrechu i fod yn ddeinamig, yn ymatebol ac yn effro i'r sefyllfa fasnachol; mae Ofcom yn rhoi pwys ar feddwl yn graff, dadansoddi'n drylwyr ar sail tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Dyma werthoedd Ofcom: Cyfathrebu'n agored ac yn onest; Gwranddo â meddwl agored; Gwneud gwahaniaeth; Grymuso a blaenoriaethu; Buddsoddi yn ein cydweithwyr a'u cefnogi; a Chydweithio gwirioneddol.

YMGYNGHORI Â CHYDWEITHWYR A'U CYNNWYS

Mae ansawdd, ymrwymiad ac effeithiolrwydd cydweithwyr Ofcom yn allweddol i'w lwyddiant. Mae cynnwys cydweithwyr yn cael ei annog yn frwd fel rhan o brosesau beunyddiol Ofcom. Mae Ofcom yn benodol yn hysbysu ei gydweithwyr ac yn ymgynghori â nhw drwy'r dulliau canlynol:

- Fforwm Cydweithwyr Ofcom, sef fforwm ymgynghori a gwybodaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr cydweithwyr ar draws Ofcom ac sy'n cwrdd yn rheolaidd gyda'r uwch reolwyr yng nghyfarfodydd y Cydbwyllgor Ymgynghori (sy'n cynnwys dau aelod o'r Undeb Partner);
- mewnwyd Ofcom, sydd ar gael i bob cydweithiwr ym mhob un o swyddfydd Ofcom;

- cyflwyniadau a roddir gan uwch reolwyr pan gaiff cynlluniau strategol newydd eu hegluro wrth gydweithwyr a phan ddarperir yr wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau sydd ar y gweill;
- cyfarfodydd rheolaidd rhwng grwpiau er mwyn gwrandao ar gydweithwyr a rhannu gwybodaeth; a
- negeseuon rheolaidd gan y Prif Weithredwr.

POLISIÂU CYFLOGAETH, DATBLYGU PERFFORMIAD A DYLETSWYDDAU SECTOR CYHOEDDUS

Mae Ofcom wedi ymrwymo i sicrhau y caiff pob cydweithiwr ei drin yn deg a chydag urddas a pharch. Mae'r holl bolisiâu AD wedi cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn gyfoes ac yn gyson â gwerthoedd y sefydliad, yn ogystal â gofynion cyfraith cyflogaeth.

Mae gallu Ofcom i gyflawni ei ddyletswyddau rheoleiddio yn seiliedig ar ansawdd, ymrwymiad ac effeithiolrwydd ei aelodau. Er mwyn sicrhau hyn, mae Ofcom, drwy ymgynghori â chydweithwyr, wedi ailddiffinio ei fframwaith cymhwysedd ymddygiad ac wedi datblygu cyfres o gymwyseddau sgiliau ar draws y sefydliad. Hefyd, mae Ofcom wedi datblygu cyfres o fodiwlau datblygu arweinyddiaeth ar ymarfer a sgiliau sy'n gysylltiedig â sgursiau effeithiol; caiff y modiwlau hyn eu rhoi ar waith ar gyfer pob cydweithiwr sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros reoli pobl, gyda'r nod o ddatblygu a gwella sgiliau rheoli pobl.

DYDDIAU A GOLLWYD OHERWYDD ABSENOLDEB

Mae Ofcom yn annog diwylliant lle disgwylir presenoldeb da a rhoddir pwys ar hynny, ond, mae'n cydnabod na ellir osgoi absenoldebau o bryd i'w gilydd am resymau meddygol. Nod Ofcom yw trin ei staff sy'n sâl gyda chydymdeimlad a thegwch, a rhoi cefnogaeth iddynt lle bo hynny'n bosibl. Bydd hynny'n eu galluogi i wella ac i fynychu'r gwaith yn rheolaidd. Yn 2009/10, nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd oedd 3.46 diwrnod y flwyddyn fesul gweithiwr. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd yn y sector cyhoeddus, sef 9.7 diwrnod y flwyddyn fesul gweithiwr.

CYFLOGWYR GORAU PRYDAIN

Am y drydedd flwyddyn yn olynol, cydnabuwyd ymrwymiad Ofcom i ragoriaeth ym maes Adnoddau Dynol wrth iddo ennill gwobr yn arolwg 'Cyflogwyr Gorau Prydain'. Eleni, yr oedd Ofcom yn 15fed o blith y 59 o gyrrff eraill a gymerodd ran yn yr arolwg hwn, a gynhelir yn flynyddol gan CRE, cwmni ymchwil rhyngwladol blaenllaw.

YMRWYMIAD OFCOM I GYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A HAWLIAU DYNOL

Mae Ofcom yn benderfynol o hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol yn y sefydliad ac yn y sectorau ehangach y mae'n eu rheoleiddio, yn unol â'i ddyletswyddau statudol. Ei amcan yw gwreiddio'r dyletswyddau hyn er mwyn iddynt fod yn rhan hanfodol o broses weithredu Ofcom.

Ar ôl ymgynghori, cyhoeddodd Ofcom ei Gynllun Cydraddoldeb Sengl (SES) yn ystod y flwyddyn, sy'n egluro ei bolisiâu a'i flaenoriaethau er mwyn bodloni gofynion yng nghyswllt cynlluniau cydraddoldeb hil, cydraddoldeb anabledd a chydraddoldeb rhyw, a gweithredu'r rhain mewn ffordd

gynhwysol sy'n ystyried crefydd a/neu gred, cyfeiriadedd rhywiol ac oed. Mae cynllun gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn sicrhau bod gan Ofcom amcanion penodol a mesuradwy a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd.

MATERION AMGYLCHEDDOL

Yn dilyn archwiliad carbon cychwynnol yn 2007, ymrwymodd Ofcom i darged cyffredinol i leihau ei allyriadau carbon 25 y cant erbyn 2012/13. Dangosodd ail archwiliad carbon yn 2009 bod Ofcom eisoes wedi lleihau ei ollyngiadau carbon 15 y cant, a hynny'n sgil arbedion ynni sylweddol yn bennaf. Bydd Ofcom yn parhau i fonitro ei gynnydd mewn blynyddoedd i ddod, ac yn ymgymryd â gweithgareddau eraill sy'n cyd-fynd â'r arferion amgylcheddol gorau.

Yn 2009, cafodd ymrwymiad Ofcom i leihau carbon ei gydnabod wrth iddo sicrhau ardystiad Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon ar gyfer ei swyddfa yn Llundain.

DATGANIAD AM BOLISI AC ARFERION IECHYD A DIOGELWCH

Y Prif Swyddog Gweithredol sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros iechyd a diogelwch yn Ofcom. Ysgrifennydd Cynorthwyol y Gorfforaeth yw Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, sy'n cwrdd bob chwarter ac sy'n adrodd i'r Bwrdd Gweithrediadau. Yn ystod y flwyddyn adrodd, cofnodwyd un anaf gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

DIOGELU DATA

Mae Ofcom yn Rheolydd Data dan Ddeddf Diogelu Data 1998 ('y Ddeddf') ac mae wedi ymrwymo i brosesu'r holl ddata personol yn ddiogel mewn ffordd sy'n ateb gofynion y Ddeddf, gan gynnwys yr egwyddorion diogelu data. Mae gan Ofcom hefyd raglen hyfforddi ar ddiogelu data i sicrhau bod pob cydweithiwr yn deall eu cyfrifoldebau o ran cydymffurfio â'r Ddeddf a dilyn arfer da wrth drin gwybodaeth.

RHYDDID GWYBODAETH

Dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a sefydlodd hawl gyffredinol i gael mynediad at bob math o wybodaeth a ddelir gan awdurdodau cyhoeddus, mae Ofcom yn parhau i adolygu ei gynllun cyhoeddi fel bo amrediad ehangach o wybodaeth ar gael yn hwylus ar ei wefan. Yn ystod y cyfnod dan sylw, cafodd Ofcom 765 cais am wybodaeth, ac wrth lynu wrth amcan y Ddeddf o feithrin diwylliant agored, darparodd Ofcom yr holl wybodaeth, neu ran ohoni, i 85 y cant o'r ceisiadau.

BUSNES BYW

seiliedig ar weithdrefnau rheoli a chynllunio busnes arferol, mae'r Bwrdd yn credu'n rhesymol bod gan Ofcom ddigon o adnoddau i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld. Am y rheswm hwn, mae'r Bwrdd yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes byw ar gyfer parato'r datganiadau ariannol.

Colette Bowe Cadeirydd

Ed Richards Prif Weithredwr

16 Mehefin 2010

BWRDD OFCOM



COLETTE BOWE

Daeth Colette Bowe yn Gadeirydd Anweithredol Ofcom ym mis Mawrth 2009. Hi yw Cadeirydd Pwyllgor Enwebiadau Ofcom, ac mae'n Aelod o Bwyllgor Archwilio a Risg a Phwyllgor Taliadau Ofcom. Hyfforddodd fel economegydd ac mae wedi dal nifer o uwch swyddi yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Dechreuodd ar ei gyrfa yn yr Adran Masnach a Diwydiant, ac ar ôl hynny bu'n gweithio yn yr Awdurdod Darlledu Annibynnol, y Bwrdd Gwarantau a Buddsoddi, fel Prif Weithredwr yr Awdurdod Buddsoddi Personol ac fel Cadeirydd Gweithredol Busnes Rheoli Asedau Ewropeaidd yn Robert Fleming. Bu'n Gadeirydd Panel Defnyddwyr Ofcom rhwng adeg ei sefydlu yn 2003 a mis Rhagfyr 2007. Ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd ar Electra Private Equity plc, yn Aelod Bwrdd o Fanc Rhyngwladol Morgan Stanley, London and Continental Railways, Axa Deutschland GmBh, Awdurdod Ystadegau'r DU, y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Camden People's Theatre, ac yn un o Lywodraethwyr Ysgol Bancroft.



PHILIP GRAF CBE

Philip Graf yw Dirprwy Gadeirydd Anweithredol Ofcom. Mae'n Gadeirydd ar Fwrdd Cynnwys, Pwyllgor Trwyddedu Radio, Pwyllgor Dyraniadau Teledu Daearol Digidol a Phwyllgor Sancysnau Darlledu Ofcom, ac mae hefyd yn Aelod o Bwyllgor Taliadau, Pwyllgor Archwilio a Risg, a Phwyllgor Enwebiadau Ofcom, ac yn Aelod ar batrwm cylch o'r Pwyllgor Adolygu Darlledu. Ymunodd â'r Liverpool Daily Post and Echo ym 1983, a drodd yn Trinity International Holdings ym 1985. Daeth yn Brif Weithredwr ym 1993 ac fe'i benodwyd yn Brif Weithredwr Trinity Mirror Group pan ymunodd y cwmni â'r Mirror Group ym 1999. Bu yn y swydd hon tan fis Chwefror 2003. Mae'n gyn-gadeirydd Bwrdd Cyllid Safonau'r Wasg a'r Grŵp Rhanddeiliaid Band Eang. Ar hyn o bryd, mae'n gydymaith yn Praesta Partners LLP ac yn un o Ymddiriedolwyr Crisis, yr elusen i bobl ddigartref.



ED RICHARDS

Ed Richards yw Prif Weithredwr Ofcom. Yn flaenorol, yr oedd yn Brif Swyddog Gweithredol Ofcom, yn gyfrifol am Strategaeth, Ymchwil Marchnad, Cyllid, Adnoddau Dynol a swyddogaethau eraill. Cyn ymuno ag Ofcom, yr oedd yn Uwch Gynghorydd Polisi i'r Prif Weinidog ar y cyfryngau, telegyfathrebu, y rhyngwrwyd ac e-lywodraeth, a chyn hynny'n Rheolydd Strategaeth Gorfforaethol yn y BBC. Mae hefyd wedi gweithio ym maes ymgynghori yn London Economics Ltd, a dechreuodd ei yrfa fel ymchwilydd gyda Diverse Production Ltd lle bu'n gweithio ar raglenni ar gyfer Channel 4. Mae hefyd yn Gyfarwyddwr Donmar Warehouse, yn Gyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth Gwobrau Addysgu, ac yn aelod o Bwyllgor Polisi'r Ganolfan Perfformiad Economaidd yn Ysgol Economeg Llundain.



MILLIE BANERJEE CBE

Mae Millie Banerjee yn Aelod Anweithredol o Ofcom. Mae hefyd yn Gadeirydd ar Bwyllgor Taliadau Ofcom, yn Aelod o Fwrdd Cynnwys a Phwyllgor Enwebiadau Ofcom, ac yn Aelod ar batrwm cylch o'r Pwyllgor Adolygu Darlledu a'r Pwyllgor Sancysnau Darlledu. Mae hefyd yn Gadeirydd Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain, yn un o Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Peabody, ac yn aelod o Fwrdd Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Newham. Cyn hynny, treuliodd 25 mlynedd gyda BT gan gyrraedd lefel Gyfarwyddwr yn Isdran Cynnyrch a Gwasanaethau BT, ac wedyn bu'n Uwch Is-lywydd ICO Global Communications. Bu'n aelod o Fwrdd Strategaeth Swyddfa'r Cabinet ac mae wedi cael ei phenodi i nifer o uwch swyddi anweithredol, gan gynnwys swyddogaethau gyda'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, yr Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector, Channel 4 TV, y Bwrdd Carchardai a Postwatch. Bu hefyd yn un o Aelodau Bwrdd Focus, yn aelod o gorff llywodraethu Prifysgol South Bank ac yn Gomisiynydd Penodiadau Barnwrol.

TIM GARDAM

Mae Tim Gardam yn Aelod Anweithredol o Ofcom. Mae'n Aelod o Fwrdd Cynnwys Ofcom ac yn Gadeirydd ar Bwyllgor Gwledydd Ofcom, yn Aelod o Bwyllgorau Enwebiadau, Taliadau, a Dyraniadau Teledu Daeareol Digidol Ofcom, ac yn aelod ar batrwm cylch o'r Pwyllgor Adolygu Darlledu a'r Pwyllgor Sancsiynau Darlledu. Gweithiodd am 25 mlynedd ym maes darlledu gan ddechrau yn y BBC lle'r oedd yn olygydd ar Panorama a Newsnight cyn dod yn Bennaeth Materion Cyfoes a Newyddion Wythnosol. Yr oedd yn un o'r tîm cyntaf o uwch-reolwyr yn Five ac yn Gyfarwyddwr Rhaglenni gyda Channel 4. Ef oedd awdur Adolygiad y DCMS o Wasanaethau Radio Digidol y BBC yn 2004, ac yr oedd yn aelod o Banel Ymgynghori'r Arglwydd Burns ar yr Adolygiad o Siarter y BBC. Yr oedd yn Gyfarwyddwr SMG plc rhwng 2005 a 2007. Ef yw Pennaeth Coleg St Anne, Rhydychen er 2004, ac mae'n Gadeirydd Sefydliad Reuters ar gyfer Astudiaethau Newyddiaduraeth ym Mhrifysgol Rhydychen.

**MIKE MCTIGHE**

Mae Mike McTighe yn Aelod Anweithredol o Ofcom. Mae'n Gadeirydd ar Bwyllgor Archwilio a Risg Ofcom ac yn aelod o Bwyllgorau Taliadau ac Enwebiadau Ofcom. Cyn hynny, yr oedd yn Gadeirydd ac yn Brif Weithredwr Carrier1 International SA, a chyn hynny, yn Gyfarwyddwr Gweithredol a Phrif Weithredwr Gweithrediadau Byd-Eang Cable & Wireless plc. Ar hyn o bryd, mae'n Gadeirydd Pace plc, Cadeirydd Volex Group plc, Cadeirydd WYG Plc, uwch gyfarwyddwr annibynnol Betfair Ltd, ac yn Gadeirydd nifer o gwmnïau technoleg preifat.

**NORMAN BLACKWELL**

Penodwyd Norman Blackwell yn Aelod Anweithredol o Ofcom ar 1 Medi 2009, ac mae'n Aelod o Bwyllgorau Gwledydd, Enwebiadau a Thaliadau Ofcom. Rhwng 1995 ac 1997, Norman Blackwell oedd pennaeth Uned Bolisi'r Prif Weinidog ar y pryd, John Major, lle bu'n cydlynu datblygiadau polisi domestig Whitehall. Fe'i gwnaed yn Arglwydd am Oes ym 1997, ac mae'n dal yn aelod gweithgar o Dŷ'r Arglwyddi gyda seddi ar y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio a Phwyllgor Dethol y Mesur Cyllid. Yn y gorffennol, bu'n Gyfarwyddwr Anweithredol ac yn Gadeirydd ar y Swyddfa Masnachu Teg, SEGRO Plc, Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol Plc, Akers Biosciences Inc, SmartStream Technologies Ltd a Dixons Plc, a bu hefyd yn Gyfarwyddwr Datblygu Grŵp yn NatWest Group Plc. Ef yw Cadeirydd presennol Bwrdd Interserve plc, ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol Standard Life plc. Mae hefyd yn aelod ar Fwrdd y Ganolfan Astudiaethau Polisi.

**STUART MCINTOSH**

Ymunodd Stuart McIntosh ag Ofcom fel Partner Cystadleuaeth ym mis Ionawr 2008. Cyn ymuno ag Ofcom, yr oedd yn bartner Strategol yn adain gyfathrebu IBM yn yr Unol Daleithiau. Cyn hynny, yr oedd ganddo swyddi uchel gyda PwC, lle'r oedd yn arwain Adain Ymgynghori ar Delegyfythrebu PricewaterhouseCooper (yn y DU a'r Unol Daleithiau), ac yr oedd yn Uwch Is-lywydd gydag Adventis, sef cwmni ymgynghori ar strategaeth. Dechreuodd ei yrfa fel Economegydd yng Ngwasanaeth Economeg Llywodraeth y DU. Mae hefyd wedi gweithio i BT fel Pennaeth Economeg Busnes.

**PETER PHILLIPS**

Ymunodd Peter Phillips ag Ofcom yn 2006, ac mae'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros y timau strategaeth, technoleg, polisi defnyddwyr, prif economegydd ac ymchwil marchnad. Mae'n aelod o'r Pwyllgor Dyraniadau Teledu Daeareol Digidol. Cyn hynny, yr oedd yn Gyfarwyddwr Datblygu Busnes yn y BBC, ac ef arweiniodd werthiant arobryn BBC Broadcast yn 2005. Mae ei swyddi blaenorol yn y BBC yn cynnwys Prif Swyddog Gweithredol yn Adran Newyddion a Materion Cyfoes y BBC a Phennaeth Cynllunio Corfforaethol y BBC. Yr oedd yn uwch reolwr yn nhim uno a phrynu busnesau yn SG Warburg, a chyn hynny treuliodd saith mlynedd yn y cwmni ymgynghori ar strategaeth, Bain & Company. Mae'n ymddiriedolwr gyda'r Cyngor Crefftau ac Ymddiriedolaeth Nuffield ac yn gynghorydd i Goleg Brenhinol y Ffisigwyr.



LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Fel corfforaeth statudol annibynnol heb randdeiliaid, a sefydlwyd dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, nid yw Ofcom yn ddarostyngedig i'r Côd Cyfun ar Lywodraethu Corfforaethol a gyhoeddwyd gan Awdurdod Rhestru'r DU.

Fodd bynnag, mae ei egwyddorion yn rhoi meincnod defnyddiol i'r holl gyrff sy'n dymuno gwneud datganiad am eu perfformiad o ran llywodraethu corfforaethol. Mae Ofcom wedi cydymffurfio â phrif egwyddorion y Côd Cyfun yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2009 ac 31 Mawrth 2010. I'r perwyl hwnnw, bydd Ofcom yn parhau i fabwysiadu egwyddorion y côd lle mae'n gallu gwneud hynny, neu lle mae'n addas iddo wneud hynny, a chofio ei statws fel corfforaeth statudol annibynnol.

Rhoddir manylion taliadau Aelodau ar dudalennau 64 i 70.

Y Bwrdd

Mae Bwrdd Ofcom yn cynnwys Aelodau Gweithredol ac Anweithredol, ill dau. Caiff Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol Ofcom eu penodi ar y cyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, am gyfnod hyd at bum mlynedd. Mae Pwyllgor Enwebiadau Ofcom wedi cynorthwyo'r ddwy Adran drwy weithio gyda nhw ar y prosesau dethol ar gyfer penodi Aelodau Anweithredol newydd. Penodir Aelodau Gweithredol y Bwrdd gan y Cadeirydd a'r holl Aelodau Anweithredol annibynnol. Mae manylion bywgraffyddol yr Aelodau ar dudalennau 50 a 51. Mae Ofcom wedi mabwysiadu model Bwrdd unedol. Ar hyn o bryd, mae chwe Aelod Anweithredol, gan gynnwys y Cadeirydd, sy'n gyfrifol am redeg y Bwrdd, a thri Aelod Gweithredol, gan gynnwys y Prif Weithredwr, yn rhan o'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol ac yn atebol am gyflawni swyddogaethau statudol Ofcom, darparu arweiniad strategol a rheoli gweithgareddau cyffredinol Ofcom. Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau Aelodau wedi'u rhestru yng Nghôd Ymddygiad yr Aelodau, a chedwir cofrestr o fuddiannau'r Aelodau. Mae'r naill a'r llall ar gael ar wefan Ofcom. At ddibenion mabwysiadu egwyddorion y Côd Cyfun:

- mae'r Bwrdd yn ystyried bod yr holl Aelodau Anweithredol yn annibynnol ar y tîm rheoli ac yn rhydd rhag unrhyw berthynas fusnes neu berthynas arall a allai amharu i raddau arnynt wrth wneud penderfyniadau;
- mae'r Bwrdd o'r farn bod gan yr Aelodau, rhyngddynt, amrediad eang o brofiad sy'n sicrhau bod y Bwrdd yn effeithiol i arwain a rheoli Ofcom;
- Aelodau Anweithredol yw mwyafrif o aelodau'r Bwrdd. Ystyrir mai Millie Banerjee yw'r uwch-Aelod Anweithredol at ddibenion y Côd Cyfun;
- bydd pob Aelod yn cael eu cynefino'n llawn am eu cyfrifoldebau adeg eu penodi ac ar ôl hynny byddant yn cael rhagor o arweiniad ac yn cael eu briffio yn ôl y gofyn;
- mae'r Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Mae'r Bwrdd yn cadw rhai materion penodol i'w hun, ond fel arall bydd yn dirprwyo cyfrifoldebau penodol i uwch reolwyr a phwyllgorau. Swyddogaeth y rheolwyr gweithredol yw gweithredu polisiau'r Bwrdd. Mae nifer o gyrff ymgynghori yn cyfrannu at waith y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol;
- mae'r Bwrdd yn cael gwybodaeth amserol a rheolaidd mewn dull ac ansawdd sy'n addas iddo gyflawni ei swyddogaethau; ac
- mae gan bob Aelod fyndiad at Ysgrifennydd y Gorfforaeth, sy'n atebol i'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod y rheolau a'r gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn. Gall yr holl Aelodau gael cyngor gan weithwyr proffesiynol annibynnol, a bydd Ofcom yn talu am hynny.

Yn gyffredinol, mae'r Cadeirydd yn rheoli'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod:

- gan Ofcom amcanion priodol a strategaeth effeithiol;
- tîm y Prif Weithredwr yn gallu rhoi'r strategaeth ar waith;
- gweithdrefnau ar waith i hysbysu'r Bwrdd am y perfformiad yn erbyn yr amcanion; a bod
- Ofcom yn gweithredu yn unol â'r safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol. Anfonir Adroddiad Blynyddol Ofcom i'r Adran dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau, sy'n gosod copïau ohono gerbron Dau Dŷ'r Senedd, y mae Ofcom yn atebol iddynt

PWYLLGORAU'R BWRDD

Wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i'r Rheolwyr Gweithredol yn Ofcom a rhai i Bwyllgorau'r Bwrdd sydd ag awdurdodaeth a chylch gorchwyl diffiniedig clir.

Disgrifir cyfansoddiad a phrif swyddogaethau'r Pwyllgorau pwysicaf hyn isod.

Y Bwrdd Cynnwys

Mae swyddogaeth a chylch gwaith y Bwrdd Cynnwys wedi'i nodi yn adroddiad Cadeirydd y Bwrdd Cynnwys ar dudalennau 12 i 14. Mae'r Bwrdd Cynnwys yn cwrdd bob mis, a chynhaliwyd 11 cyfarfod yn ystod y flwyddyn. Dyma Aelodau'r Bwrdd Cynnwys yn ystod y flwyddyn:

- Philip Graf (Cadeirydd)
- Adam Singer (Dirprwy Gadeirydd)
- Richard Ayre (Cadeirydd y Pwyllgor Adolygu Darlledu o 15/12/09 ymlaen)
- Sue Balsom
- Millie Banerjee
- Chris Banatvala
- Tim Gardam (penodwyd 21 Gorffennaf 2009)
- Pam Giddy
- Anthony Lilley OBE
- Dr Paul Moore
- Stewart Purvis CBE
- Joyce Taylor
- Kath Worrall (Cadeirydd y Pwyllgor Tegwch tan 15/12/09)

Chris Banatvala a Stewart Purvis yw'r unig Aelodau Gweithredol ar y Bwrdd Cynnwys.

Mae aelodau'r Bwrdd Cynnwys hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor Trwyddedu Radio, y Pwyllgor Sancsiynau Darlledu (y Pwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys gynt) a'r Pwyllgor Adolygu Darlledu (y Pwyllgor Tegwch gynt). Yn ystod y cyfnod dan sylw, cafodd wyth achos eu hystyried gan y Pwyllgor Tegwch a rhoddodd y Pwyllgor Sancsiynau ar Gynnwys sancsiynau mewn chwe achos. Rhoddid manylion llawn am waith y pwyllgorau ar dudalennau 42 a 43.

Y Pwyllgor Gwaith

Y Pwyllgor Gwaith yw'r uwch dîm gweithredol sy'n gyfrifol am oruchwyllo rheolaeth dros Ofcom. Ei brif ffocws yw pennu cyfeiriad i'r sefydliad, a gwneud penderfyniadau

am faterion ariannol a gweinyddol a'u monitro. Caiff ei gyfrifoldebau o ran llunio polisi eu cyfyngu i bolisi rheoli yn unig. Dyma'r aelodau:

- Ed Richards (Cadeirydd)
- Jill Ainscough
- Stuart McIntosh
- H. Nwana (penodwyd ar 24 Medi 2009)
- Peter Phillips
- Stewart Purvis
- Polly Weitzman (penodwyd ar 31 Mawrth 2010)
- Chris Woolard (penodwyd ar 13 Gorffennaf 2009)

Gwahoddir uwch swyddogion Ofcom eraill i fynyachu cyfarfodydd y Pwyllgor ar sail ad-hoc.

Y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnwys tri Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ac Aelod Anweithredol allanol annibynnol. Dyma aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg:

- Mike McTighe (Cadeirydd)
- Peter Teague
- Philip Graf
- Colette Bowe

Mae Peter Teague, yr Aelod Anweithredol allanol annibynnol, yn gyfrifydd siartredig cymwys ac mae'n bodloni gofynion y Côd Cyfun bod gan un Aelod o'r Pwyllgor brofiad ariannol perthnasol. Caiff gofynion ychwanegol y Côd Cyfun eu bodloni i'r graddau bod tri Aelod o'r Pwyllgor yn Aelodau Anweithredol annibynnol o Fwrdd Ofcom.

Gwahoddir y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Cyllid, yn ogystal â'r archwilwyr mewnol ac allanol, i fynyachu cyfarfodydd y Pwyllgor. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn adrodd yn ôl i Fwrdd Ofcom ar ganlyniadau cyfarfodydd y Pwyllgor.

Dyma brif ddyletswyddau'r Pwyllgor Archwilio a Risg:

PWYLLGORAU'R BWRDD

- monitro ac adolygu effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg, ar ran y Bwrdd;
- adolygu a chyfeirio'r swyddogaeth archwilio mewnol a phenodi archwilwyr mewnol;
- adolygu natur a chwmpas yr archwiliad allanol a chanfyddiadau'r archwilwyr allanol;
- monitro ac adolygu cywirdeb, ansawdd a dibynadwyedd y datganiadau ariannol, y Cynllun Blynnyddol a'r Cyfrifon, ar ran y Bwrdd; ac
- adolygu cwmpas a chanlyniadau'r archwiliadau mewnol ac allanol yn barhaus.

Cyflawnir y swyddogaeth archwilio mewnol gan KPMG yn annibynnol ar Ofcom. Cred y Pwyllgor Archwilio a Risg ei bod yn briodol bod yr archwilwyr mewnol hefyd yn darparu cyngor penodol ar risgiau mewnol i Ofcom. Gwneir penderfyniadau ynghylch gofyn i KPMG ddarparu gwasanaethau eraill fesul achos unigol. Cyflawnir y swyddogaeth archwilio allanol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg bum gwaith yn ystod y flwyddyn. Gellir gweld y cylch gorchwyl ar wefan Ofcom.

Y Pwyllgor Taliadau

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn cynnwys holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom. Dyma aelodau'r Pwyllgor Taliadau:

- Millie Banerjee (Cadeirydd)
- Norman Blackwell (penodwyd ar 1 Medi 2009)
- Colette Bowe
- Tim Gardam
- Philip Graf
- Mike McTighe

Mae'r Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn mynychu cyfarfodydd ar wahoddiad y Pwyllgor Taliadau.

Mae'r Pwyllgor yn cynghori Ofcom ynghylch y taliadau i'r Prif Weithredwr, Aelodau Gweithredol eraill y Bwrdd ac i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith, yn ogystal â'u telerau ac amodau gwasanaeth. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynghori Ofcom am delerau ac amodau aelodau rhan-amser y Bwrdd Cynnwys, y Panel Defnyddwyr, y Pwyllgor Ymgynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl, a phedwar Pwyllgor Ymgynghorol y Gwledydd a'r Rhanbarthau.

Mae'r Pwyllgor yn goruchwilio'r broses ar gyfer pennu telerau ac amodau holl gydweithwyr eraill Ofcom. Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwilio ac yn penderfynu ar faterion yn ymwneud â'r trefniadau pensiwn a sefydlwyd gan Ofcom

ar gyfer holl gydweithwyr Ofcom pan na fyddant wedi'u cynnwys yn nhelerau ac amodau safonol cydweithwyr.

Mae'r Pwyllgor Taliadau'n cwrdd yn ôl y gofyn. Yn ystod y cyfnod dan sylw, cyfarfu'r Pwyllgor wyth gwaith. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau yn adrodd yn ôl ar ganlyniadau cyfarfodydd y Pwyllgor Taliadau i'r Bwrdd.

Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n pennu'r taliadau i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom, a nodir hynny yn Nodyn 10 yr Adroddiad Taliadau. Petai angen i Ofcom ystyried unrhyw agwedd ar daliadau Aelodau Anweithredol, mae Pwyllgor Taliadau Aelodau Anweithredol wedi'i sefydlu sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth, a fydd yn cwrdd ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Ysgrifenyddion Gwladol, fel y bo'n briodol. O ganlyniad, nid oes dim un Aelod Bwrdd yn cyfrannu at bennu ei daliadau ei hun.

Mae'r Adroddiad Taliadau ar dudalennau 64 i 70 yn nodi sut mae Ofcom yn gweithredu egwyddorion perthnasol y Côt Cyfun.

Y Pwyllgor Enwebiadau

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau'n cynnwys holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom. Dyma aelodau'r Pwyllgor Enwebiadau:

- Colette Bowe (Cadeirydd)
- Millie Banerjee
- Tim Gardam
- Philip Graf
- Mike McTighe
- Norman Blackwell (penodwyd ar 1 Medi 2009)

Mae'r Pwyllgor yn gweithio gyda'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar broses ddethol yr Aelodau Anweithredol ar Fwrdd Ofcom ac yn gwneud argymhellion ynghylch penodiadau Aelodau Gweithredol. Mae'r Pwyllgor yn cwrdd yn ôl y gofyn.

Y Pwyllgor Adolygu Darlledu, y Pwyllgor Sancsiynau Darlledu, a'r Pwyllgor Etholiadau

Mae'r pwyllgorau hyn yn cynnwys aelodau o'r Bwrdd Cynnwys a Bwrdd Ofcom.

Mae gan y Pwyllgorau Gadeirydd parhaol, ac yn ystod y cyfnod dan sylw, Philip Graf oedd Cadeirydd y Pwyllgor Sancsiynau Darlledu a'r Pwyllgor Etholiadau, a Kath Worrall oedd Cadeirydd y Pwyllgor Tegwch tan 15 Rhagfyr

PWYLLGORAU'R BWRDD

2009. Richard Ayre oedd y Cadeirydd ar ôl hynny, pan gafodd y Pwyllgor Tegwch ei ddisodli gan y Pwyllgor Adolygu Darlledu.

Mae'r Pwyllgorau'n cwrdd yn ôl y gofyn a cheir manylion am eu gweithgarwch ar dudalennau 42 a 43.

Y Pwyllgor Trwyddedu Radio

Mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Trwyddedu Radio i gyflawni swyddogaethau Ofcom yng nghyswllt trwyddedu darlledu radio (sain). Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys penderfynu ar ddyfarnu trwyddedau radio newydd a'r rheini sydd wedi cael eu hail-hysbysebu, amrywio trwyddedau a diddymu trwyddedau.

Philip Graf sy'n cadeirio'r pwyllgor hwn. Mae'r aelodau'n cynnwys dau Aelod Anweithredol parhaol y Bwrdd Cynnwys, sef Joyce Taylor a Pam Giddy yn ystod y cyfnod dan sylw, a phum cydweithiwr Ofcom. Mae'n cwrdd bob mis a cheir manylion am ei weithgarwch ar dudalen 23.

Panel y Gronfa Radio Cymunedol

Mae adran 359 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn caniatáu sefydlu cronfa ar gyfer gweithredwyr radio cymunedol, a bod Ofcom yn gweinyddu'r gronfa honno gan "roi grantiau y mae'n eu hystyried sy'n briodol" i ddeiliaid trwydded radio cymunedol. Mae'r Panel yn cwrdd yn ôl y gofyn i archwilio ceisiadau ac i roi cyfraniadau o'r Gronfa. Mae'n annibynnol ar y Pwyllgor Trwyddedu Radio (gweler uchod) sy'n dyfarnu trwyddedau radio cymunedol.

Mae tri aelod anweithredol ar y Panel: Kevin Carey (Cadeirydd), Richard Hilton a Thomas Prag.

Y Pwyllgor Gwledydd

Sefydlwyd y Pwyllgor Gwledydd ym mis Hydref 2009. Mae'n cytuno ar broffil a swyddogaeth pedwar Pwyllgor Ymgynghorol Cenedlaethol Ofcom, ac yn cydlynu eu gweithgarwch. Mae ei swyddogaeth yn cynnwys: deall deinameg wledyddol pob Gwlad yn y Deyrnas Unedig a rhoi cyngor ar ymgysylltiad gwledyddol Ofcom ym mhob Gwlad; cytuno ar brosesau priodol ar gyfer ymgysylltiad Ofcom â phob Pwyllgor Ymgynghorol Cenedlaethol; monitro digwyddiadau rhanddeiliaid ym mhob Gwlad a goruchwyllo cyfraniad ac ymgysylltiad Bwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys, aelodau'r Pwyllgorau Ymgynghorol Cenedlaethol a swyddogion gweithredol Ofcom ym mhob Gwlad. Mae ei aelodau'n cynnwys dau aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom, gydag un ohonynt i weithredu fel Cadeirydd, a Chadeiryddion y Pwyllgorau Ymgynghori Cenedlaethol. Gwahoddir Cyfarwyddwyr Gweithredol

pob Gwlad, ynghyd â'r Partner, Materion Allanol a Llywodraethu, i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Gwledydd. Dyma aelodau'r Pwyllgor Gwledydd:

- Tim Gardam (Cadeirydd)
- Norman Blackwell
- Yr Athro Tony Davies
- Yr Athro William Dutton
- Yr Athro Wallace Ewart, OBE
- Yr Athro Philip Schlesinger

Y Pwyllgor Cyllid Clirio Sbectwm

Yn ystod y flwyddyn, sefydlodd y Bwrdd y Pwyllgor Cyllid Clirio Sbectwm. Dirprwyodd i'r Pwyllgor hwnnw gyfrifoldeb dros ddarparu grantiau ar sail effeithlonrwydd sbectwm ar gyfer unrhyw gynllun clirio sbectwm arfaethedig dan adran 1(5) Deddf Telegraffi Di-wifr 2006 yn ogystal â'r telerau ac amodau ar gyfer darparu grantiau, yn amodol ar y telerau ac amodau grant y mae rhaid cael cydsyniad Trysorlys EM ar eu cyfer. Cyfarfu'r Pwyllgor am y tro cyntaf ym mis Tachwedd. Mae manylion ei weithgarwch i'w gweld ar dudalen 16. Mae Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor yn Aelodau Anweithredol annibynnol allanol. Dyma'r Aelodau:

- Syr David Brown (Cadeirydd)
- Peter Teague (Dirprwy Gadeirydd)
- H. Nwana
- Kate Stross
- Yr Athro William Webb

Y Pwyllgor Dyranadau Teledu Daearol Digidol

Yn unol â gorchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dros weithredu ei swyddogaethau yng nghyswllt dyrannu lle ar Amlblecs B teledu daearol digidol i'r Pwyllgor Dyranadau Teledu Daearol Digidol. Dyma'r aelodau:

- Philip Graf (Cadeirydd)
- Tim Gardam
- Sue Balsom
- Greg Bensberg
- Peter Phillips
- Kate Stross

Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn ystod y flwyddyn i ystyried ceisiadau ar gyfer lle ar amlblecs, ond penderfynodd beidio â chadw lle ar gyfer dim un o'r ymgeiswyr, sef Channel 5 Broadcasting Ltd, a Channel 4 a'i bartner S4C. Mae manylion gweithgarwch y Pwyllgor i'w gweld ar dudalen 17.

PWYLLGORAU HEBLAW RHAI'R BWRDD

Y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau

Mae Adran 16 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Panel Defnyddwyr. Mae'r Panel yn gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' i Ofcom sy'n darparu cyngor cadarn ac annibynnol, ond sydd hefyd yn pragmatig ac yn adeiladol.

Drwy'r cyngor y bydd yn ei roi, mae'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn ceisio darbwylo Ofcom, y Llywodraeth a'r diwydiant i edrych ar faterion o safbwynt defnyddwyr, ac i amddiffyn a hybu eu buddiannau. Mae'r Panel yn rhoi sylw penodol i anghenion pobl hŷn a phobl ag anableddau, anghenion pobl mewn ardaloedd gwledig a phobl ar incwm isel, ac anghenion busnesau bach, sy'n wynebu llawer o'r un problemau â defnyddwyr unigol.

Mae'r Panel yn annibynnol ar Ofcom, ac mae'n cynnwys deg o'r arbenigwyr annibynnol a nodir isod, gan gynnwys pedwar o'r Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr, ac mae ganddynt brofiad mewn amryw o wahanol feysydd: eiriolaeth defnyddwyr, rheoleiddio, y trydydd sector, y byd academiaidd, y mudiad undeb llafur, ymchwil marchnad a diwydiant.

- Anna Bradley (Cadeirydd)
- Fiona Ballantyne
- Louisa Bolch
- Kim Brook
- Colin Browne
- Roger Darlington
- Dr Maureen Edmondson OBE
- Leen Petre
- Bob Warner CBE
- Dr Damian Tambini

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Panel wedi cael dylanwad cadarnhaol mewn ystod eang o feysydd.

Cynhaliodd y Panel ymchwil ar ddarpariaeth gwasanaethau symudol i gael clywed barn a phrofiadau defnyddwyr a busnesau bach. Defnyddiodd yr ymchwil hon fel sail i'w ymateb i Asesiad Ofcom o'r Sector Symudol, a galwodd ar y diwydiant i wella'r wybodaeth am ddarpariaeth gwasanaethau symudol a gallu defnyddwyr i ganslo contractau os na allant gael y ddarpariaeth y mae ei hangen arnynt.

Mae'r Panel wedi datblygu fframwaith ar gyfer cyfranogiad digidol, sy'n dechrau gyda phrofiad defnyddwyr ac yn sôn am y daith fesul cam wrth i bobl ddechrau mynd ar-lein

a mwynhau manteision hynny. Mae'r Llywodraeth wedi mabwysiadu'r fframwaith hwn yn ei Chynllun Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Digidol, ac fe'i defnyddir gan y Consortiwm Cyfranogiad Digidol a arweinir gan Ofcom.

Mae'r Panel wedi gwneud y canlynol hefyd:

- cyngori Ofcom ar amryw o faterion, gan gynnwys: prosesau newid; delio â chwynion; adolygiadau o farchnadoedd band eang cyfanwerthol a mynediad lleol cyfanwerthol; cyflymder band eang; gwasanaethau mynediad i deledu; gwasanaeth cyffredinol a mynediad y genhedlaeth nesaf;
- comisiynu ymchwil i fod yn sail i'r drafodaeth ynghylch yr ymrwymiad band eang cyffredinol a gyflwynwyd gan y Llywodraeth yn ystod yr adolygiad o Brydain Ddigidol; a
- chyhoeddi'r adroddiad diweddaraf am gynlluniau band eang cymunedol y genhedlaeth nesaf sy'n mynd rhagddynt ledled y wlad.

Mae adroddiad blynyddol y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn rhoi sylw i ddylanwad y Panel yn 2009/10 a'r blaenoriaethau ar gyfer 2010/11, ac mae ar gael ar-lein yn www.communicationsconsumerpanel.org.uk.

Bwrdd Ymgynghori Ofcom ar Faterion Sbectwm

Sefydlwyd Bwrdd Ymgynghori Ofcom ar Faterion Sbectwm yn 2004 i roi cyngor annibynnol i Ofcom am faterion strategol sy'n ymwneud â rheoli sbectwm. Mae'r Bwrdd yn cwrdd bum neu chwe gwaith y flwyddyn. Dyma aelodau'r Bwrdd:

- Y Brigadydd David Meyer (Cadeirydd) (penodwyd ar 1 Mehefin 2009)
- Yr Athro Linda Doyle (penodwyd ar 1 Mehefin 2009)
- Robin Foster (penodwyd ar 1 Mehefin 2010)
- Phillipa Marks
- Philip Marnick (penodwyd ar 1 Mehefin 2009)
- Dr Robert Pepper
- Jean-Jacques Sahel (penodwyd ar 1 Mehefin 2010)
- Yr Athro Simon Saunders
- Sam Sharps (yn rhinwedd ei swydd) (penodwyd ar 1 Rhagfyr 2009)
- Yr Athro Tommaso Valletti
- Mike Walker (penodwyd ar 1 Mehefin 2010)
- Yr Athro William Webb (yn rhinwedd ei swydd) (penodwyd ar 1 Mawrth 2010)
- Gavin Young (penodwyd ar 1 Mehefin 2009)

PWYLLGORAU HEBLAW RHAI'R BWRDD

Ymdeolodd Syr David Brown fel Cadeirydd ar 31 Mai 2010, a chafodd ei olynu gan y Brigadydd David Meyer. Ymdeolodd Barry Evans a'r Athro Will Stewart o'r Bwrdd ar 31 Mai 2010, ac fe ymdeolodd David Clevely, yr Athro Leela Damadoran, Andrew Sleigh a Walter Tuttlebee ar 30 Ebrill 2009. Ymddiswyddodd Debbie Gillatt o'r Bwrdd ar 30 Tachwedd 2009.

Yn ystod ei chweched flwyddyn, un o themâu sylfaenol trafodaethau'r Bwrdd Ymgynghori oedd yr amgylchedd newidiol y gallai Ofcom fod yn gweithredu ynddo yn sgil adroddiad Prydain Ddigidol a'r Ddeddf Economi Ddigidol. Dyma'r eitemau allweddol a drafodwyd:

- datblygiadau o ran cysylltiadau band eang;
- y posibilrwydd y bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn rhyddhau sbectrwm;
- goblygiadau adroddiad Prydain Ddigidol;
- Ofcom yn monitro cyflwr seilwaith cyfathrebu'r DU;
- pa ddull rheoleiddio priodol y dylid ei ddefnyddio ar gyfer sicrhau niwtraliaeth net; ac
- esblygiad seilweithiau cyfathrebu dros yr 20 mlynedd nesaf.

Mae Adroddiad Blynyddol y Bwrdd yn rhoi sylw i'w weithgarwch yn ystod ei chweched flwyddyn, ac mae ar gael ar wefan y Bwrdd yn www.osab.org.uk.

Y Pwyllgorau Ymgynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl

Mae Adran 21(1) Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Pwyllgor i gynghori Ofcom am faterion yn y sector cyfathrebu sy'n effeithio ar bobl hŷn a phobl anabl yn arbennig. Mae'r Pwyllgor yn cwrdd pedair gwaith y flwyddyn o leiaf ac mae'n mynd i'r afael â darnau penodol o waith mewn is-grwpiau. Dyma Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl:

- Jo Connell (Cadeirydd) (penodwyd ar 1 Ebrill 2010)
- Liz Atkins
- Simon Cramp
- Dr Laura Muir
- Dr Maurice Mulvenna
- Robert Peckford
- Suneel Shivdasani
- David Sindall
- Nicholas Young

Ymdeolodd Mike Whitlam CBE fel Cadeirydd ar 31 Mawrth 2010, ac ymdeolodd John Welshman fel Aelod ar 31 Mawrth 2010.

Yn ei chweched flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi parhau i gynghori Ofcom i sicrhau bod pobl hŷn a phobl anabl yn bartneriaid cyfartal ac yn gyfranogwyr llawn ar draws technolegau telegyfathrebu a darlledu cydgyfeiriol sy'n datblygu, platfformau cyfryngau newydd, a chyfryngau darlledu traddodiadol a digidol. Mae wedi darparu cyngor ysgrifenedig ffurfiol i Ofcom ar ei ymgynghoriadau ynghylch y Cynllun Cydraddoldeb Sengl, yr Adolygiad o Wasanaethau Mynediad i Deledu, a Chynllun Blynyddol Ofcom ar gyfer 2010/11. Hefyd, mae'r Pwyllgor wedi parhau i gynghori Ofcom ar ei ystod o gyfrifoldebau eraill, gan gynnwys rhaglenni Llythrennedd yn y Cyfryngau, Ymchwil, Cyfranogiad Digidol a Pholisi Defnyddwyr Ofcom.

Ym mis Mehefin 2009, cyhoeddodd Ofcom ymchwil a gomisiynwyd gan y Pwyllgor, a oedd yn ceisio deall sut mae gweithgynhyrchwyr, cyflenwyr ac adwerthwyr cyfarpar, cynhyrchion a gwasanaethau cyfathrebu yn y DU yn mynd i'r afael â gofynion pobl hŷn a phobl anabl. Yr oedd yr adroddiad yn edrych ar y rhwystrau sy'n bodoli, a'r rhesymau pam y dylai'r diwydiant ystyried mynd i'r afael â'r gofynion hynny'n well.

Yn yr hydref, cynhaliodd y pwyllgor ddiwyddiadau rhanddeiliaid ym mhob un o'r tair Gwlad sydd wedi'u datganoli, ac ym mis Chwefror 2010, bu'n gweithio gyda BT i gynnal cynhadledd ar Ddylunio Cynhwysol, gan ddatblygu'r gwaith ymchwil a gyhoeddodd y Pwyllgor yn ystod yr haf.

Y Pwyllgorau Ymgynghorol ar gyfer y Gwledydd a'r Rhanbarthau

Mae Adran 20 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Pwyllgorau Ymgynghorol ar gyfer Gwledydd gwahanol yn y Deyrnas Unedig. Swyddogaeth pob Pwyllgor yw darparu cyngor i Ofcom ar faterion yn ymwneud â chyfathrebu yn deillio o ddiddordebau a safbwyntiau pobl sy'n byw yn y rhan o'r DU a wasanaethir gan y Pwyllgor. Dyma aelodau pob Pwyllgor:

RHANBARTHU LLOEGR

- Professor William Dutton (Cadeirydd)
- Olwyn Hocking
- Dharmash Mistry
- John Varney
- Graham Creelman OBE
- Wendy Pilmer
- Helen Foster
- Robert Watson
- Anne Scorer

YR ALBAN

- Professor Philip Schlesinger (Cadeirydd)
- Thomas Prag
- Laura Alexander

PWYLLGORAU HEBLAW RHAI'R BWRDD

- Andrew Anderson
- Dr Franck Chevalier
- Andrew Jones
- Mairi Mcleod
- Dr Andrew Muir
- Mike Shaw

GOGLEDD IWERDDON

- Professor Wallace Ewart OBE (Cadeirydd)
- Paul Cavanagh
- Isolde Goggin
- Lesley Holmes
- Maire Killoran
- Libby Kinney
- Billy McClean
- Dr Sally Montgomery OBE
- Dr Leslie Orr
- Ben Preston

Ymddiswyddodd Jim Dougal o'r Pwyllgor ar 31 Awst 2009.

CYMRU

- Yr Athro Tony Davies (Cadeirydd)
- Julie Barton
- Nick Bennett
- Ian Clarke
- John Davies
- Mark Elliott
- Simon Gibson OBE
- Glyn Mathias

Nid yw'r ffioedd ar gyfer aelodau Pwyllgorau heblaw rhai'r Bwrdd wedi cynyddu yn 2009/10.

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU

Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Dan delerau Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae'n ofynnol i'r Bwrdd baratoi Datganiad o Gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am anfon copi o'r Datganiad o Gyfrifon at y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

Caiiff y Datganiad o Gyfrifon hwn ei baratoi, i'r graddau y mae hynny'n berthnasol ar sail gronpus ac yn unol â Deddf Cwmnïau 1985 a safonau cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a gaiff eu derbyn yn gyffredinol. Rhaid iddo roi darlun cywir a theg o gyflwr busnes Ofcom fel yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac o'i incwm a'i wariant, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau ei fod, wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon hwn, wedi dilyn y gofynion perthnasol ar gyfer cyfrifyddu a datgelu, wedi defnyddio polisiau cyfrifyddu addas yn gyson, wedi rhoi barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol, wedi dilyn safonau cyfrifyddu perthnasol ac wedi paratoi'r datganiad o gyfrifon hwn ar sail busnes byw.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cynnal a'u cadw sy'n datgelu i raddau sy'n rhesymol gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol Ofcom, ac yn ei alluogi i sicrhau bod y Datganiad o Gyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 1985. Yn ogystal â hynny, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddiogelu asedau Ofcom, ac felly mae'n gyfrifol am gymryd camau rhesymol i atal ac i ganfod twyll ac anghysondebau eraill.

Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr

Penodir y Prif Weithredwr gan y Bwrdd, sy'n dirprwyo iddo'r cyfrifoldeb dros reoli Ofcom o ddydd i ddydd. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Atebol Ofcom. Nid yw wedi'i benodi'n ffurfiol yn Swyddog Atebol yn ôl ystyr y Llywodraeth, ond mae'r penodiad yn cynnwys dyletswyddau cyfrifoldeb o ran rheoleiddio, priodoldeb, gwerth am arian, rheolaeth ariannol dda a diogelu cronfeydd cyhoeddus.

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldebau penodol dros sicrhau y cydymffurfir â thelerau'r Memorandwm Ariannol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennyddion Gwladol. Rhaid iddo hefyd sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu priodol yn cael eu cadw a rhaid iddo lofnodi'r cyfrifon.

Fel Aelod o'r Bwrdd, rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau nad yw ei gyfrifoldebau o ran atebolrwydd yn gwrthdaro â'r rheini sydd ganddo fel Aelod Bwrdd. Hefyd, gall y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau Seneddol eraill alw ar y Prif Weithredwr i roi tystiolaeth am y modd y mae'n cyflawni ei ddyletswyddau.

DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL

Cwmpas y Cyfrifoldeb

A minnau'n Swyddog Atebol, yr wyf yn gyfrifol am gynnal system rheolaeth fewnol gadarn sy'n gymorth i wireddu polisiau Ofcom, ei nodau a'i amcanion, a system sydd, ar yr un pryd, yn diogelu cronfeydd cyhoeddus ac asedau adrannol. Yr wyf yn bersonol gyfrifol am y cronfeydd a'r asedau hyn a gwnaf hynny'n unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi dan y drefn Rheoli Ariannol Cyhoeddus ac ym Memorandwm Ariannol Ofcom gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Mae gofyn i mi gynghori'r Bwrdd petai unrhyw gam a gymerid yn tarfu ar briodoldeb neu gysondeb, neu ar fy nghyfrifoldebau ehangach i sicrhau gwerth am arian.

Bydd Ofcom, fel sy'n ofynnol, yn cyflawni adroddiad gwaith a model risg ar gyfer yr Ysgrifennydd Parhâol a Bwrdd Rheoli'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau.

Pwrpas y System Rheolaeth Fewnol

Lluniwyd y system rheolaeth fewnol er mwyn rheoli risg i lefel resymol yn hytrach nag er mwyn dileu'n llwyr y risg o fethu cyflawni polisiau, nodau ac amcanion; felly, dim ond sicrwydd rhesymol y gall ei ddarparu yn hytrach na sicrwydd absoliwt y bydd yn effeithiol. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a luniwyd i:

- nodi a blaenoriaethu'r risgiau wrth geisio cyflawni polisiau, nodau ac amcanion adrannol;
- gwerthuso'r tebygolrwydd y caiff y risgiau hynny eu gwireddu a beth fyddai effaith hynny;
- rheoli'r risgiau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus; a
- chynnwys rheoli risg ym mhrosesau busnes ehangach Ofcom.

Bu'r system rheolaeth fewnol ar waith gan Ofcom am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2010 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon a'r adroddiad blynyddol, a hynny'n unol â chyfarwyddyd y Trysorlys.

Y Gallu i Drin Risg

Mae Ofcom wedi parhau i ddangos arweinyddiaeth gadarn dros reoli risg drwy waith y Bwrdd a'i is-bwyllgorau, sy'n gyfrifol am reoli'r risg y bydd Ofcom yn agored iddi.

Wrth roi cymorth i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith, mae'r Bwrdd Gweithrediadau a'r Tîm Gweithredol ym maes Polisi'n gyfrifol am ddarparu arweiniad ar reoli risgiau sy'n codi yn sgil datblygiadau rheoleiddio a gweithredu penodol.

Fel rhan o'r broses barhaus i wella ei allu i reoli risg, penododd Ofcom Reolwr Risg ac Yswiriant i ysgwyddo'r prif gyfrifoldeb dros oruchwylio'r gwaith o weithredu gwell fframwaith rheoli risg, yn seiliedig ar gyfres o argymhellion yn adolygiad risg blynyddol 2009 Ofcom. Caiff y cynllun parhaus ar gyfer gweithredu'r fframwaith rheoli risg ei feincnodi'n flynyddol yn erbyn Fframwaith Asesu Rheoli Risg y Llywodraeth, ac mae'n destun adolygiad rheolaidd ac annibynnol a gynhelir gan archwilydd mewnol.

Mae polisi rheoli risg Ofcom yn diffinio'n glir ei ymagwedd at reoli risg, ei amcanion a'i brosesau, yn ogystal â nodi cyfrifoldebau, atebolrwydd a swyddogaethau rheoli risg penodol y Bwrdd, y Pwyllgor Gwaith, y Pwyllgor Archwilio a Risg, Grwpiau Llywio, archwilwyr mewnol, rheolwyr a chyfarwyddwyr prosiect, cydweithwyr, a'r swyddogaeth rheoli risg.

Mae uwch reolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod gan gydweithwyr y sgiliau priodol i ragweld risgiau posib, i asesu ac i reoli'r posibilrwydd o risg yn unol â dymuniad Ofcom i wreiddio a chefnogi diwylliant o reoli risg yn dda. Wrth gefnogi rôl yr uwch reolwyr i hyrwyddo'r broses risg, mae'r Rheolwr Risg ac Yswiriant yn gweithio ar draws pob adran yn y sefydliad i hyrwyddo ac integreiddio'r broses rheoli risg, ac i gefnogi ac addysgu cydweithwyr.

DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL

Y Fframwaith Risg a Rheoli

FFRAMWAITH RHEOLI RISG

Dyma rai o elfennau allweddol fframwaith rheoli risg Ofcom:

- y polisi rheoli risg;
- cyfarfodydd misol sy'n cynnwys y Rheolwr Risg ac Yswiriant ac Uwch Reolwyr/Arweinwyr Grŵp i adnabod, asesu ac adolygu'r prif risgiau;
- adolygiad misol o'r risgiau strategol gan y Pwyllgor Gwaith;
- adroddiad bob chwarter gan y Rheolwr Risg ac Yswiriant i'r Pwyllgor Archwilio a Risg;
- adolygiad a thrafodaethau blynyddol ar reolaeth fewnol gan y Bwrdd gyda Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg;
- adolygiad blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Risg o gyfrifon blynyddol Ofcom;
- sicrwydd gan swyddogaethau a phwyllgorau arbenigol bod risgiau cyfreithiol a risgiau sy'n berthnasol i ddiogelwch, twyll, iechyd a diogelwch, amrywiaeth a'r amgylchedd, yn cael eu rheoli'n briodol;
- methodoleg sy'n seiliedig ar risg ar gyfer asesu gofynion yswiriant gweithredol;
- cynnal asesiadau effaith (fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003), sy'n cynnwys adnabod ac asesu'r risgiau sydd ynghlwm wrth y polisiau arfaethedig a gyflwynir gan Ofcom;
- darparu pecyn gwybodaeth reoli misol ar gyfer y Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith, sy'n cynnwys y gofrestr risg strategol a'r dangosyddion perfformiad;
- cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd un ac un rheolaidd er mwyn adnabod risgiau allweddol a'u rheoli;
- achreidiad Gorfodaeth a Pheirianneg Sbectrwm gydag ISO 9001.

Caiff cofrestr risg strategol Ofcom ei hadolygu gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith bob mis. Caiff pob risg a nodwyd ei dynodi i un unigolyn, sef aelod o'r Uwch Grŵp Rheoli, sy'n atebol am reoli'r risg honno. Caiff achos ac effaith pob risg eu datgan yn glir, a bydd risgiau'n cael eu categorio yn erbyn cynllun y cytunwyd arno. Caiff camau lliniaru eu dynodi ar gyfer pob risg. Dynodir lefel y risg bresennol a'r risg weddillol ar gyfer pob risg; mae lefel y risg weddillol yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y caiff y cynllun camau lliniaru

ei roi ar waith yn effeithiol ac yn llwyddiannus. Caiff y grwpiau risg eu hadolygu gan y Rheolwr Risg ac Yswiriant fesul mis, a'u cynnwys ar y gofrestr risg strategol pan fo'n briodol. Mae'r Rheolwr Risg ac Yswiriant yn hwyluso'r gwaith o gofnodi prif risgiau prosiectau a rhaglenni, ac yn ysgogi adolygiad yn y Pwyllgor Gwaith.

Adolygir adroddiadau perfformiad misol gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith. Mae'r rheini'n ymwneud â'r perfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol yng nghyswllt gwerth am arian ac effeithlonrwydd mewnol, marchnadoedd, defnyddwyr, a Sbectrwm a Rhanddeiliaid. Darperir adroddiadau ariannol misol hefyd, sy'n ymdrin â'r gwariant o'i gymharu â'r gyllideb, y rhagolygon a'r alldro, ac fe'u hadolygir.

Mae'r polisi rheoli risg hefyd yn sôn am agwedd Ofcom at risg, gan ddweud ei fod yn gyndyn iawn o gymryd risg o ran ei weithgareddau gweithredol craidd, ond ei fod yn goddef lefel briodol o risg mewn meysydd rheoleiddio perthnasol lle gallai hynny ddwyn budd i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr.

RÔL Y PWYLLGOR GWAITH

Mae pob aelod o'r Pwyllgor Gwaith yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'r prif feysydd risg y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae'r aelodau'n gweithio gyda'u timau a'r Rheolwr Risg ac Yswiriant i sicrhau y gall pob cydweithiwr adnabod a rheoli risg yn unol ag agwedd Ofcom at risg.

RHANDDEILIAID A PHARTNERIAID

Rheolir risgiau sy'n effeithio ar fudd i ddefnyddwyr a dinasyddion drwy gyfrwng prosesau ymgynghori Ofcom, sy'n rhan hanfodol o broses diwygio trefniadau rheoleiddio'r sefydliad. Bydd aelodau a chydweithwyr y Pwyllgor Gwaith yn cysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid i drafod diwygio rheoleiddio a materion cysylltiedig sy'n ymwneud â'u rhoi ar waith er mwyn adnabod y risgiau a fydd yn effeithio ar allu Ofcom i gyflawni ei ddyletswyddau statudol.

Mae Ofcom yn parhau i weithio'n agos gyda chyflenwyr a phartneriaid i leihau risgiau economaidd a masnachol. Bydd y gofrestr busnes ar gyfer y risgiau sy'n gysylltiedig â chontractau hollbwysig yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Cyflwynir adroddiad ynghylch y gofrestr hon bob mis, a chaiff ei chyflwyno gerbron y Pwyllgor Gwaith fel y bo'n briodol.

Cafodd y Grŵp Materion Allanol a Llywodraethu ei sefydlu ym mis Gorffennaf 2009 i gydlyn gweithgareddau rheoleiddio Ofcom yn unol â'r dyletswyddau statudol. Mae'n dwyn ynghyd y meysydd busnes hynny sy'n berthnasol i drefniadau llywodraethu, cyfathrebu a rheoleiddio rhanddeiliaid Ofcom, a hynny'n genedlaethol ac yn rhyngwladol.

DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL

RHEOLI ARGYFWNG A DILYNIANT BUSNES

Mae Ofcom yn dal i adolygu ac i wella'i drefniadau i sicrhau ei wytnwch. Penodwyd tîm rheoli argyfwng a chydlynwyr dilyniant busnes er mwyn sicrhau ymateb priodol os digwydd argyfwng. Mae cynlluniau dilyniant busnes yn gymesur ag anghenion dilyniant busnes tîm.

Mae argymhellion archwiliad mewnol yn cael eu rhoi ar waith, tra bo gwendidau a ganfuwyd y llynedd mewn ymatebion gan ddarparwr gwasanaeth gwybodaeth allanol wedi cael eu datrys a'u profi mewn prawf adfer trychineb llwyddiannus.

Cyflawnwyd ymarfer ymateb i argyfwng ym mis Tachwedd, a oedd yn gyfle i ymarfer ac i brofi gallu Ofcom i reoli argyfwng. Mae'r gwersi a ddysgwyd yn sgil yr ymarfer wedi arwain at fwy o welliannau yn y fframwaith rheoli argyfwng.

Hefyd, bu Ofcom yn cymryd rhan yn ymarfer White Noise yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, a luniwyd i brofi sut y byddai adrannau'r llywodraeth a darparwyr telegyfathrebu, petai'r rhwydwaith telegyfathrebu yn methu ledled y DU, yn ymdopi ag effaith a chanlyniadau'r trychineb hwnnw. Mae'r ymarfer hwn yn rhan o Raglen Parodrwydd Cenedlaethol y Llywodraeth.

Mae Grŵp Arbenigwyr Rheoli Argyfwng Ofcom yn cwrdd bob mis i ddatblygu'r agenda gwytnwch, i gynllunio ymarferion, i roi cyngor arbenigol ac i brofi trefniadau.

IECHYD A DIOGELWCH

Cyfarfu'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch (IaD) bum gwaith yn ystod y flwyddyn, a chyfarfu'r Is-bwyllgor Gorfodaeth a Pheirianneg Sbectrwm bedair gwaith. Mae'r Pwyllgor IaD yn adrodd i'r Bwrdd Gweithrediadau ddwywaith y flwyddyn. Parhawyd i ddarparu hyfforddiant IaD yn ystod y flwyddyn, gyda'r modiwlau e-ddysgu gofynnol yn ymwneud ag ystum ac IaD cyffredinol.

DIOGELWCH

Mae'r Pwyllgor Diogelwch yn cwrdd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i ystyried trefniadau diogelwch Ofcom. Bydd y Pwyllgor yn adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg bob chwarter, drwy gyfrwng Ysgrifennydd y Gorfforaeth.

Cafodd y Polisi Diogelwch, sy'n cynnwys diogelwch gwybodaeth, ei ddiwygio yn ystod y flwyddyn i sicrhau ei fod yn parhau i adlewyrchu gofynion gweithredol Ofcom. Er mwyn deall y Polisi Diogelwch yn well, mae modiwl e-ddysgu wedi cael ei ddatblygu, a chaiff ei roi ar waith yn ystod 2010. Bydd y modiwl yn orfodol i bob cydweithiwr.

Cynhaliwyd prawf treiddiad o systemau allanol Ofcom ar y cyd â'r Ganolfan Gyfrifiadurol Genedlaethol, a gwelwyd bod gan Ofcom drefniadau diogelwch cadarn. Mae trefniadau diogelwch Ofcom ar gyfer diogelwch gwybodaeth dan ystyriaeth barhaus, yn sgil ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Economi Ddigidol 2010.

RHEOLAETHAU ARIANNOL

Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd amryw o gynlluniau ar waith i wella fframwaith rheolaethau ariannol Ofcom ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cyfuno'r systemau gweinyddu budd-daliadau a'r gyflogres gydag un cyflenwr sy'n integreiddio â systemau mewnol Ofcom ac yn sicrhau gwell rheolaethau;
- rhaglen rheoli treuliau ar y we sy'n cymeradwyo llyf gwaith, yn dilysu polisi treuliau amser real, ac yn darparu trywydd archwilio manylach;
- fframwaith cysoni, archwilio a rheolaeth ariannol ar gyfer rheoli taliadau clirio sbectrwm er mwyn bodloni dyletswyddau'r Pwyllgor Rheoli Clirio Sbectrwm;
- gweithredu amryw o fframweithiau caffael OJEU ffurfiol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau, er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r gyfraith a lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â thelerau ac amodau contract ansafonol.

Hefyd, cynhaliwyd adolygiadau o'r Polisi Treuliau a'r Fframwaith Awdurdodau Ariannol.

Yn unol â'r cynllun archwilio a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, cynhaliwyd adolygiadau/archwiliadau mewnol ar ein prosesau ariannol a phennu tariffiau craidd, treuliau gweithwyr, proses contractau busnes hollbwysig, system ddiogelwch SMS a Siebel, cydymffurfio â strategaethau caffael a Chyfrifon Adran 400 – Dirwyon, Arwerthiadau a Thaliadau Ychwanegol.

Yr oedd yr adran Gyllid yn dal i ddarparu cyfrifon rheoli misol, a gaiff eu hadolygu bob mis gan ddeiliaid cyllidebau, y Pwyllgor Gwaith a'r Bwrdd. Defnyddir y cyfrifon rheoli hyn fel sail i'r rhagolwg gwariant chwarterol.

DATGELU CAMARFER A THWYLL

Yn unol â'n hymrwymiad i wella'r amgylchedd rheoli'n barhaus, cafodd polisi Datgelu Camarfer Ofcom ei adolygu yn ystod mis Chwefror. Mae adolygiad o'r cynllun Gwrthdwyll ac Ymateb i Dwyll yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae'r ddau bolisi yn cael eu hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL

Adolygu Effeithiolrwydd

A minnau'n Swyddog Atebol, yr wyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad ar effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar waith yr archwilyr mewnlol a'r rheolwyr gweithredol yn yr adran sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a'r sylwadau a wnaed gan yr archwilyr allanol yn eu llythyr rheolaeth ac adroddiadau eraill.

Cefais gyngor gan y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Bwrdd ynghylch goblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae cynllun ar waith i roi sylw i wendidau ac i sicrhau bod y system yn gwella'n barhaus.

Y BWRDD

Y Bwrdd sy'n bennaf gyfrifol am fonitro effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol Ofcom, a bydd yn cael adroddiadau rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Y PWYLLGOR GWAITH

Bydd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn llofnodi datganiad blynyddol er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol ynglŷn ag effeithiolrwydd cyffredinol y system rheolaeth fewnol yn y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt.

Y PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG

Rôl y Pwyllgor Archwilio a Risg yw cynghori'r Bwrdd ynghylch pa mor ddigonol yw polisïau a phrosesau rheoli risg Ofcom, i ba raddau y cânt eu rhoi ar waith, ac adolygu pa mor ddibynadwy a dilys yw'r sicrwydd a roddir. Gwna hyn drwy gyfrwng y sicrwydd a geir yn sgil gwaith archwilyr allanol a mewnlol, adolygiadau chwarterol a ddarperir gan y Rheolwr Risg ac Yswiriant a chan adroddiadau rheolaidd a ddarperir i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ynglŷn â risgiau sy'n ymwneud ag achosion cyfreithiol, cyllid, diogelwch a thwyll.

Adolygwyd cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu datblygiadau o ran arferion gorau i Bwyllgorau Archwilio, ac yn parhau i ddilyn arweiniad y Llywodraeth.

RHEOLWR RISG AC YSWIRIANT

Mae'r Rheolwr Risg ac Yswiriant yn gyfrifol am oruchwylio fframwaith rheoli risg Ofcom a'r cynllun cysylltiedig ar gyfer gwelliant parhaus. Mae'r Rheolwr Risg ac Yswiriant yn adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg bob chwarter.

ARCHWILIAD MEWNOL

Defnyddir KPMG i wneud yr archwilio mewnlol ac mae'n gwneud ei waith yn unol â'r Cynllun Archwilio Blynyddol a gymeradwyir gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Bydd Archwilyr Mewnlol yn adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ac yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Wrth adolygu systemau Ofcom yn unol â'r cynllun archwilio, mae'r Archwilyr Mewnlol wedi rhoi sicrwydd rhesymol, ond nid absoliwt, eu bod yn fodlon bod digon o waith archwilio mewnlol wedi'i wneud iddynt allu ffurfio barn bod trefniadau rheoli risg Ofcom yn ddigonol ac yn effeithiol, a bod ganddo brosesau rheoli a llywodraethu digonol i reoli'r gwaith o gyflawni ei amcanion. Ni nodwyd dim gwendidau mawr, er bod gwaith yr Archwilyr Mewnlol wedi nodi nifer o gyfleoedd i wella'r trefniadau rheoli a'r gweithdrefnau, ac mae Ofcom wedi ymateb yn gadarnhaol i'r rheini.

ADOLYGIAD RISG BLYNYDDOL

Gwnaed cyfres o argymhellion yn Adolygiad Risg 2008/09 a fu'n sylfaen i raglen waith i wella fframwaith rheoli risg Ofcom ymhellach. Dechreuwyd ar y rhaglen waith yn ystod y flwyddyn, ac mae'n para tan 2010/11. Gan fod rhaid i'r Rheolwr Risg ac Yswiriant adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg bob chwarter am statws y rhaglen, cytunwyd i ohirio Adolygiad Risg 2009/10. Hefyd, cynhaliodd yr Archwilyr Mewnlol adolygiad o fframwaith rheoli risg Ofcom yn ystod y flwyddyn. Cynhelir yr Adolygiad Risg nesaf yn 2010/11.

MATERION O BWYS O RAN TREFNIADAU RHEOLI

Ni chododd dim materion o bwys ynghylch rheolaeth fewnlol yn ystod y flwyddyn.

Ed Richards Prif Weithredwr

16 Mehefin 2010

ADRODDIAD TALIADAU

Wrth baratoi'r Adroddiad Taliadau a sefydlu ei bolisi, mae'r Bwrdd wedi ystyried darpariaethau'r Côt Cyfun ac wedi mabwysiadu'r darpariaethau, lle bo hynny'n briodol ac yn berthnasol. Nid oes rhaid i Ofcom gydymffurfio â Rheoliadau Adroddiadau Taliadau Cyfarwyddwyr 2002, ond mae wedi paratoi'r adroddiad hwn i gydymffurfio cyn belled â bod hynny'n ymarferol ac yn briodol.

Cyfansoddiad y Pwyllgor Taliadau

Mae cyfansoddiad y Pwyllgor Taliadau i'w weld ar dudalen 54.

Cynghorwyr

Mae'r Pwyllgor Taliadau'n cael cyngor a/neu wasanaethau gan yr endidau allanol canlynol:

- Towers Watson, ar dâl y tîm gweithredol; ac
- Allen & Overy LLP, ar gontractau cyflogaeth a materion cyfreithiol cysylltiedig.

Mae Towers Watson hefyd yn darparu cyngor a gwasanaethau i Ofcom yng nghyswllt pensiynau, ymddriedolwyr pensiwn a chymorth gweinyddol a materion sefydliadol eraill. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael cyngor gan Gyfarwyddwr AD Ofcom. Gan amlaf, mae'r Pwyllgor Taliadau'n gwahodd y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Gweithredol i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor. Ni fydd dim un unigolyn yn bresennol ar gyfer unrhyw drafodaeth am ei dâl ei hun.

Polisi Cyffredinol

Wrth bennu polisi taliadau Ofcom, cred y Pwyllgor Taliadau y dylai Ofcom, o fewn y cyfyngiadau sydd ar gorrfoaeth gyhoeddus, gynnig gwobrau a fydd yn denu ac yn cadw'r rheolwyr o'r safon uchaf y mae'n rhaid eu cael i alluogi Ofcom i gyflawni ei gyfrifoldebau a'i gylch gwaith statudol. Ni ddisgwylir newid yng nghyfeiriad y polisi cyffredinol dros y flwyddyn i ddod.

Elfennau Taliadau

Dyma brif elfennau taliadau'r Aelodau Gweithredol:

CYFLOG A BUDDION HYBLYG

Pennir cyflog sylfaenol pob Aelod Gweithredol ac uwch reolwr drwy ystyried cyfrifoldebau, perfformiad a phrofiad pob cydweithiwr ynghyd â thueddiadau'r farchnad. Hefyd, darperir lwfans buddion hyblyg i bob Aelod Gweithredol ac uwch reolwr. Caiff cyflog sylfaenol pob cydweithiwr ei adolygu'n flynyddol yn effiethiol ar 1 Gorffennaf bob blwyddyn. Dyw cyflogau sylfaenol 2010 ddim wedi eu hadolygu eto. Yn dilyn yr adolygiad yn 2009, penderfynwyd peidio â chynnig codiad cyflog i unrhyw gydweithiwr. Hefyd, gwrthododd Ofcom dderbyn unrhyw gynnydd yn ffioedd yr aelodau Anweithredol, na dyfarnu unrhyw gynnydd yn ffioedd aelodau'r Bwrdd Cynnwys, y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau na'r Pwyllgorau Ymgynghori yn dilyn Adolygiad Cyflogau Uwch-swyddogion y Llywodraeth.

BUDDION O FATH ARALL

Mae pob Aelod Gweithredol ac uwch reolwr yn derbyn rhai buddion safonol a ddisgrifir yn ddiweddarach yn yr adran hon.

TÂL PERFFORMIAD BLYNYDDOL

Mae pob Aelod Gweithredol ac uwch reolwr yn cymryd rhan mewn cynllun tâl perfformiad, a gaiff ei gyfrifo fel canran o'r cyflog ar sail perfformiad yr unigolyn, hyd at uchafswm o 20 y cant o'r cyflog, yn dibynnu ar yr unigolyn dan sylw. Nid oes dim un elfen o'r tâl perfformiad yn bensiynadwy.

ADRODDIAD TALIADAU

Ni wnaed penderfyniad hyd yma ynghylch tâl perfformiad ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2009 ac 31 Mawrth 2010.

TREFNIADAU PENSIWN

Rheolwyr Gweithredol

Mae pob Aelod Gweithredol ac uwch reolwr (ac eithrio Chris Banatvala fel y nodir isod) yn cael lwfans, a bennir fel canran o'r cyflog sylfaenol, y gall yr unigolyn ei gymryd fel cyflog ychwanegol a/neu ei fuddsoddi mewn cynllun pensiwn o'i ddewis.

Mae Chris Banatvala yn gymwys i gymryd rhan yng nghynllun Pensiwn â Buddion Diffiniedig Ofcom ar delerau tebyg a oedd yn berthnasol pan gâi ei gyflogi'n flaenorol gan yr ITC. Mae'r cynllun hwn yn darparu buddion pensiwn sy'n gysylltiedig â chyflog ar sail buddion diffiniedig, gyda chyfradd gronni o 1 rhan o 60 o'r cyflog terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth, yn amodol ar Derfyn Enillion Cynllun Ofcom lle bo hynny'n briodol.

Aelodau Anweithredol

Ni chafodd dim un Aelod Anweithredol fudd pensiwn gan Ofcom yn ystod y flwyddyn dan sylw.

Mae manylion y taliadau i'r Bwrdd, y Bwrdd Cynnwys a'r Pwyllgor Gwaith, sydd wedi'u harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ar gael yn y tablau a'r nodiadau ar dudalennau 66 i 70.

ADRODDIAD TALIADAU

ARWEINIAD I'R RHESTRAU TALIADAU

Mae'r rhestrau hyn yn cyfeirio at y taliadau yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r rhestr yn adlewyrchu'r taliadau am y rhan honno o'r flwyddyn pan oedd yr unigolion un ai'n darparu gwasanaethau i'r Bwrdd, y Bwrdd Cynnwys neu'r Pwyllgor Gwaith, neu'n Aelodau Gweithredol ohonynt. Yr oedd yr unigolion â '+' wrth eu henwau yn y rhestrau ddim ond yn eu swydd am ran o 2008/9 neu 2009/10. Lle bo aelodau'r Pwyllgor Gwaith wedi ymuno yn ystod 2009/10, rhoddir eu taliad ar gyfer cyfnod llawn eu cyflogaeth yn ystod y flwyddyn. Os yw'r unigolion yn aelodau o fwy nag un Bwrdd/Pwyllgor (fel y nodir ar dudalennau 50 i 55) dim ond unwaith y bydd eu henwau yn ymddangos yn y rhestrau taliadau, a rhestrir yr holl Aelodau Gweithredol dan y Pwyllgor Gwaith. Mae'r pwyntiau wedi'u rhifo sydd wrth enwau unigolion yn cyfeirio at y pwyntiau wedi'u rhifo ar dudalennau 68 a 69.

Mae'r wybodaeth canlynol wedi bod yn destun archwiliad allanol.

TALIADAU BWRDD OFCOM 2009/10

	Nodyn Cyfarwyddyd	Ffioedd 09/10	Lwfans/ Hawl Pensiwn 09/10	Lwfans Buddion Hyblyg 09/10	Buddion o Fath Arall 09/10	Tâl Perfformiad 09/10	Cyfanswm Taliadau 09/10	Cyfanswm Taliadau 08/09
		£	£	£	£	£	£	£
Millie Banerjee CBE	(6, 10, 13)	59,357			280		59,637	65,029
Norman Blackwell +	(1, 6, 10, 13)	24,803					24,803	
Colette Bowe +	(6, 10, 13)	200,000					200,000	49,585
David Currie +	(2, 10)							212,473
Tim Gardam	(6, 10, 13)	42,519					42,519	42,519
Philip Graf CBE	(6, 10, 13)	106,298			280		106,578	106,970
Stephanie Liston +	(2, 10)							17,480
Mike McTighe	(6, 10, 13)	42,519			280		42,799	43,191
Cyfanswm		475,496			840		476,336	537,247

Gan fod cynifer wedi ymuno ac ymadael â Bwrdd Ofcom yn 2008/9 ac yn 2009/10, rhoddydd ffigur blynyddol er mwyn darparu cymhariaeth gliriach o'r cyfanswm costau.

Cyfanswm costau blynyddol ar gyfer 2008/9 – £519,767

Cyfanswm costau blynyddol ar gyfer 2009/10 – £494,052

ADRODDIAD TALIADAU

TALIADAU BWRDD CYNNWYS OFCOM 2009/10

	Nodyn Cyfarwyddyd	Ffioedd 09/10	Lwfans/ Hawl Pensiwn 09/10	Lwfans Buddion Hyblyg 09/10	Buddion o Fath Arall 09/10	Tâl Perfformiad 09/10	Cyfanswm Taliadau 09/10	Cyfanswm Taliadau 08/09
		£	£	£	£	£	£	£
Richard Ayre	(6, 8, 12, 13)	23,786			125		23,911	21,949
Chris Banatvala	(6, 14, 17)	121,665	37,205	15,000	988		174,858	162,338
Sue Balsom	(6, 12, 13)	21,649			280		21,929	22,321
Pam Giddy	(6, 12, 13)	21,649			280		21,929	22,321
Anthony Lilley	(6, 12, 13)	21,649			280		21,929	22,321
Dr Paul Moore	(6, 12, 13)	21,649			280		21,929	22,321
Adam Singer	(6, 12, 13)	28,865			280		29,145	29,537
Joyce Taylor	(6, 12, 13)	21,649			280		21,929	25,321
Kath Worrall	(6, 9, 12,13)	27,061			186		27,247	29,206
Cyfanswm		309,622	37,205	15,000	2,979		364,806	357,635

TALIADAU PWYLLGOR GWAITH OFCOM 2009/10

	Nodyn Cyfarwyddyd	Cyflog 09/10	Lwfans/ Hawl Pensiwn 09/10	Lwfans Buddion Hyblyg 09/10	Buddion o Fath Arall 09/10	Tâl Perfformiad 09/10	Cyfanswm Taliadau 09/10	Cyfanswm Taliadau 08/09
		£	£	£	£	£	£	£
Jill Ainscough	(7, 14, 15, 16)	191,446	28,717	15,000	1,695	25,000	261,858	231,792
Ian Hargreaves	(2)							45,451
Stuart McIntosh	(7, 14, 15, 16)	230,821	34,623	15,000	1,695		282,139	280,667
H Nwana	(3,7, 14, 15, 16)	96,058	14,409	7,788	824		119,079	
Peter Phillips	(7, 14, 15, 16)	192,084	28,813	20,000	1,975		242,872	240,489
Stewart Purvis	(7, 11, 14, 15, 16)	189,021	28,353	15,000	1,975		234,349	202,249
Ed Richards	(7, 14, 15, 16)	299,821	59,964	19,953	1,975		381,713	392,056
Philip Rutnam	(2)							229,311
Polly Weitzman	(5, 7, 14, 15, 16)	203,718	30,558	15,000	1,695		250,971	
Christopher Woolard	(4, 7, 14, 15, 16)	166,724	31,725	13,981	1,695		214,125	
Cyfanswm		1,569,693	257,162	121,722	13,529	25,000	1,987,106	1,622,015

Gan fod cynifer wedi ymuno ac ymadael â'r Pwyllgor Gwaith yn 2008/9 ac yn 2009/10, rhoddwyd ffigur blynyddol er mwyn darparu cymhariaeth gliriach o'r cyfanswm costau.

Cyfanswm costau blynyddol ar gyfer 2008/9 – £2,083,808

Cyfanswm costau blynyddol ar gyfer 2009/10 – £2,111,643

Nodiadau ar gyfer y tablau taliadau

1. Ymunodd Norman Blackwell â'r Bwrdd fel Aelod Anweithredol ar 1 Medi 2009.
2. Gadawodd David Currie, Ian Hargreaves, Stephanie Liston a Philip Rutnam y Bwrdd yn ystod 2008/9, ac maent wedi'u rhestru yn yr adroddiad hwn at ddibenion cymharu yn unig; mae eu taliadau'n adlewyrchu'r rhan o'r flwyddyn yn 2008/9 pan oeddent yn aelodau o'r Bwrdd neu, yn achos Stephanie Liston, pan oedd yn cael iawndal yn sgil gorfodi cyfamodau cyfyngu.
3. Ymunodd H. Nwana ag Ofcom a'r Pwyllgor Gwaith ar 24 Medi 2009.
4. Ymunodd Christopher Woolard ag Ofcom ar 27 Ebrill 2009, ac mae ei daliadau'n dechrau o'r dyddiad hwn. Ymunodd â'r Pwyllgor Gwaith ar 13 Gorffennaf 2009.
5. Ymunodd Polly Weitzman â'r Pwyllgor Gwaith ar 31 Mawrth 2010. Bu'n gweithio i Ofcom drwy gydol 2009/10 a dangosir ei thaliadau ar gyfer y flwyddyn gyfan.
6. Dilëwyd y cyfraniad gan Ofcom at gost cynnal teledu digidol ar gyfer Bwrdd Ofcom a'r Aelodau Bwrdd Cynnwys o 31 Awst 2009 ymlaen.
7. Cafodd holl aelodau'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mai 2009 gynnydd bach o £335.77 yn eu cyflogau o 1 Medi 2009 ymlaen gan i'r Pecyn Digidol gael ei ddileu ar 31 Awst 2009.
8. Mae ffioedd Richard Ayre yn adlewyrchu codiad cyflog a dalwyd iddo pan ysgwyddodd y cyfrifoldeb dros fod yn Gadeirydd y Pwyllgor Adolygu Darlledu ym mis Rhagfyr 2009.
9. Mae ffioedd Kath Worrall yn adlewyrchu gostyngiad yn ei chyflog o 1 Ionawr 2010 ymlaen ar ôl iddi ymddiswyddo fel Cadeirydd y Pwyllgor Tegwch ym mis Rhagfyr 2009.
10. Mae'r ffioedd ar gyfer holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn cael eu pennu drwy gytundeb â'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am gyfnod llawn eu penodiad. Mae'r ffioedd a ddangosir yn cynrychioli blwyddyn gyfan neu, lle bo'n briodol, yn cynrychioli rhan o'r flwyddyn os gwnaeth yr Aelod Anweithredol perthnasol ymuno â Bwrdd Ofcom neu ymddeol ohono yn ystod y cyfnod dan sylw. Y ffi sylfaenol i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom (ac eithrio'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a Millie Banerjee) oedd £42,519 y flwyddyn o 1 Ebrill 2008 ymlaen. Ni chafodd ffi sylfaenol Bwrdd Ofcom, gan gynnwys y ffi i'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a Mille Banerjee, ei chynyddu o 1 Ebrill 2009 ymlaen. Mae'r Aelodau Anweithredol i gyd wedi'u penodi am dymor penodol i neilltuo amser penodol i Ofcom o hyd at ddau ddiwrnod yr wythnos (heblaw am Colette Bowe, Philip Graf a Millie Banerjee sydd ar hyn o bryd yn neilltuo hyd at dri diwrnod yr wythnos, tri diwrnod yr wythnos, a dau ddiwrnod a hanner yr wythnos).
11. Cyflogwyd Stewart Purvis gan Ofcom ar sail rhan amser tan Ragfyr 1 2008, ac ar sail amser llawn wedi hynny. Mae ei dâl a ddangosir (at ddibenion cymharu) ar gyfer 2008/9 yn cynrychioli'r union swm a dalwyd iddo ac nid cyflog cyfwerth ag amser llawn.
12. Bwrdd Ofcom sy'n pennu ffioedd Aelodau Anweithredol y Bwrdd Cynnwys. Mae'r ffioedd a ddangosir yn cynrychioli blwyddyn gyfan neu, lle bo'n briodol, yn cynrychioli rhan o flwyddyn os gwnaeth yr Aelod Anweithredol perthnasol ymuno â'r Bwrdd Cynnwys neu ymddeol ohono yn ystod y cyfnod dan sylw. Ffi sefydlog Aelodau'r Bwrdd Cynnwys (ac eithrio Adam Singer (Dirprwy Gadeirydd), Kath Worrall a Richard Ayre, (Cadeirydd y Pwyllgor Adolygu Darlledu) sy'n cael ffioedd uwch am y rolau ychwanegol hyn, yw £21,649 y flwyddyn. Ni chafodd ffioedd sylfaenol aelodau'r Bwrdd Cynnwys, gan gynnwys Adam Singer a Kath Worrall, eu cynyddu o 1 Ebrill 2009 ymlaen.

NODIADAU AR GYFER Y TABLAU TALIADAU

13. Ni chafodd Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom nac Aelodau'r Bwrdd Cynnwys daliadau ychwanegol gan Ofcom ar ben eu ffoedd heblaw am yr hawl i gael rhai buddion safonol, sef pecyn digidol i'w ddefnyddio gartref ac ar gyfer busnes (tan Awst 31 2009), ac, i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn unig, offer TG ar gyfer gweithio gartref. Ni wnaeth pob un o Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom na'r Bwrdd Cynnwys fanteisio ar yr hawl hon yn ystod y cyfnod dan sylw.
14. Mae'r taliadau blynyddol i swyddogion gweithredol Ofcom (Aelodau Gweithredol Bwrdd Ofcom, Aelodau Gweithredol y Bwrdd Cynnwys ac uwch reolwyr ar y Pwyllgor Gwaith) yn cynnwys cyflog sylfaenol ynghyd â lwfans arian ar gyfer buddion hyblyg a chanran o'r cyflog sylfaenol a delir fel lwfans pensiwn (heblaw am Chris Banatvala).
15. Cynyddwyd cyflog sylfaenol pob aelod o'r Pwyllgor Gwaith ar 1 Ebrill 2009 i ddangos cydymffurfiaeth â'r broses adolygu cyflogau ar gyfer holl weithwyr Ofcom; yn y gorffennol, câi aelodau'r Pwyllgor Gwaith ac uwch reolwyr eraill eu hadolygu ar 1 Ebrill bob blwyddyn, a gweddill gweithwyr Ofcom yn cael eu hadolygu ar 1 Gorffennaf bob blwyddyn. Yn awr, caiff cyflogau holl weithwyr Ofcom eu hadolygu ar 1 Gorffennaf bob blwyddyn. Ni chafodd dim un o weithwyr Ofcom godiad cyflog sylfaenol o dan adolygiad Gorffennaf 2009. Mae holl Aelodau Gweithredol Ofcom ar Fwrdd Ofcom neu uwch reolwyr yn gallu manteisio ar yswiriant bywyd, diogelwch incwm grŵp a'r gallu i gael archwiliad iechyd blynyddol. Nid yw gwerth diogelwch incwm grŵp, yswiriant bywyd nac archwiliadau iechyd blynyddol wedi cael eu datgelu yn y rhestrau taliadau gan nad yw Cyllid a Thollau EM yn eu trin fel enillion trethadwy.
16. Mae aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn cymryd rhan mewn cynllun tâl perfformiad, a delir ar sail perfformiad yr unigolyn. Mae'r holl daliadau'n cael eu cymeradwyo gan Bwyllgor Taliadau Ofcom ac fe'u cyfrifir fel canran o'r cyflog sylfaenol, gan amrywio o 0 i 20 y cant. Cafodd Jill Ainscough £25,000 o dâl perfformiad anarferol am ei gwaith yn cwblhau prosiect TG Ofcom yn ystod y flwyddyn, sydd wedi rhesymoli a moderneiddio seilwaith TG Ofcom. Mae'r prosiect wedi darparu buddion ariannol a gweithredol sylweddol i Ofcom a bydd yn sylfaen gref i waith Ofcom ar gyfer gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012.
17. Mae Chris Banatvala yn aelod o Gynllun Pensiwn â Buddion Diffiniedig Ofcom. Mae datgeliad ar wahân yng nghyswllt y cynllun hwn wedi'i wneud yn y tabl ar dudalen 70.

NODIADAU AR GYFER Y TABLAU TALIADAU

Datgeliad Gweithredol ar gyfer Pensiynau â Buddion Diffiniedig

Dangosir datgeliad ar gyfer pensiwn â buddion diffiniedig i Chris Banatvala yn y tabl isod.

Mae'r gwerth trosglwyddo a'r pensiwn sydd wedi cronni ar gyfer Chris Banatvala yn adlewyrchu'r pensiwn ychwanegol a gyfyd yn sgil trosglwyddo ei fuddion oddi wrth ei gyflogwr blaenorol.

Mae gwerth trosglwyddo'r croniadau pensiwn yn cynrychioli amcangyfrif o'r gost i'r cynllun pensiwn am ddarparu'r buddion pensiwn a gronnwyd hyd yn hyn (wedi'u cyfrifo'n unol â Nodyn Canllaw Actiwaraid GN11). Mae nifer o ffactorau'n effeithio ar y gwerth, sy'n cynnwys oedran yr unigolyn, cyflog pensiwnadwy ac amodau'r farchnad fuddsoddiadau adeg gwneud y cyfrifiad.

Cytundebau Gwasanaeth

Nid oes gan ddim un Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom na chydweithiwr arall yn Ofcom gytundeb gwasanaeth sy'n cynnwys cyfnod rhybudd o fwy na blwyddyn. Mae'r Pwyllgor Taliadau wedi ystyried y cyfnod rhybudd a'r trefniadau terfynu yng ngoleuni'r Côd Cyfun, ac mae o'r farn eu bod yn briodol.

Mae'r Aelodau Anweithredol i gyd wedi'u penodi am dymor penodol i neilltuo amser penodol i Ofcom o hyd at ddau ddiwrnod yr wythnos (heblaw am Colette Bowe, Philip Graf a Millie Banerjee sydd ar hyn o bryd yn neilltuo hyd at dri diwrnod yr wythnos, tri diwrnod yr wythnos, a dau ddiwrnod a hanner yr wythnos).

IAWNDAL AM DERFYNU'N GYNNAR

Yn achos Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom neu uwch reolwr, y Pwyllgor Taliadau sy'n penderfynu ar y trefniadau ar gyfer terfynu contract gwasanaeth yn gynnar, ac fe'u gwneir yn unol â chontract gwasanaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol neu'r uwch reolwr perthnasol. Mae pob contract gwasanaeth yn darparu ar gyfer taliad yn lle rhybudd os terfynir contract yn gynnar fel y gwel Ofcom yn dda.

Nid oes gan Aelodau Anweithredol hawl i iawndal os caiff contract ei derfynu'n gynnar.

YMGYMRYD Â SWYDDOGAETH CYFARWYDDWR ALLANOL

Ni chaiff unrhyw Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom dderbyn penodiad anweithredol heb gael caniatâd ymlaen llaw gan y Bwrdd i sicrhau na fydd hyn yn achosi gwrthdaro rhwng buddiannau.

Rhaid hysbysu Bwrdd Ofcom am bob penodiad a dderbynnir gan Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd er mwyn sicrhau na cheir gwrthdaro rhwng buddiannau; os credir bod gwrthdaro o'r fath yn codi, bydd yn rhaid i'r Aelod Anweithredol ymddiswyddo o'r swydd dan sylw.

Ar ran Ofcom,

Millie Banerjee Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau

16 Mehefin 2010

DATGELIAD GWEITHREDOL AR GYFER PENSIYNAU Â BUDDION DIFFINIEDIG

	Pensiwn Cronedig ar 31 Mawrth 2009	Gwerth trosglwyddo'r pensiynau cronedig ar 31 Mawrth 2009 (sail trosglwyddo 31 Mawrth 2009)	Pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2010	Cynnydd yn y pensiwn cronedig dros y cyfnod	Gwerth trosglwyddo'r pensiynau cronedig ar 31 Mawrth 2010 (sail trosglwyddo 31 Mawrth 2009)	Gwerth trosglwyddo'r pensiynau cronedig ar 31 Mawrth 2010 (sail trosglwyddo 31 Mawrth 2010))	Cynnydd mewn gwerth trosglwyddo llai cyfraniadau aelodau
	£	£	£	£	£	£	£
Chris Banatvala	13,000	246,000	14,700	1,700	283,000	187,000	(65,000)

ADRAN D

Cyfrifon ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2010

Tystysgrif rheolwr ac archwiliwr cyffredinol y senedd

Yr wyf yn ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Swyddfa Gyfathrebiadau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010 dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Incwm a Gwariant, y Datganiad Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian, y Datganiad Newidiadau Ecwiti, a'r nodiadau perthnasol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Yr wyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth a archwiliwyd.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Atebol a'r archwiliwr

Fel yr eglurwyd yn fwy manwl yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Atebol, mae'r Swyddog Atebol yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a sicrhau eu bod yn rhoi disgrifiad cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU ac Iwerddon). Mae'r Safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a fy staff gydymffurfio â'r Safonau Moesegol ar gyfer Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

Cwmpas yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys sicrhau digon o dystiolaeth ynglŷn â'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiad sylweddol, boed hwnnw'n deillio o dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: a yw'r polisiau cyfrifyddu yn addas ar gyfer amgylchiadau'r Swyddfa Gyfathrebiadau ac a ddefnyddir hwy yn gyson ac a ddatgelir hwy yn ddigonol; a yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu pwysig a wneir gan y Swyddfa Gyfathrebiadau yn rhesymol; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Hefyd, mae gofyn i mi sicrhau digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Y farn ynghylch Cysondeb

Yn fy marn i, ym mhob ffordd sydd o bwys, mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

TYSTYSGRIF

RHEOLWR AC ARCHWILIWR CYFFREDINOL Y SENEDD

Y farn ynghylch datganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi disgrifiad cywir a theg o sefyllfa'r Swyddfa Gyfathrebiadau fel yr oedd ar 31 Mawrth 2010 a'i gwarged gweithredol net, ei newidiadau ecwiti a'i llif arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 a chyfarwyddiadau Y Gweinidogion dros Fusnes Arloesedd a Sgiliau, a Diwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon.

Y farn ynghylch materion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w archwilio wedi'i baratoi'n gywir yn unol â chyfarwyddiadau Y Gweinidogion dros Fusnes Arloesedd a Sgiliau, a Diwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon a wnaed dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr adran Perfformiad Ariannol, yn adran y Rhagair ac yn yr adran Bwrdd Ofcom, sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer, yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt fel eithriad yn unig

Nid oes gen i ddim i'w adrodd ynghylch y materion canlynol, y byddaf yn adrodd amdanynt os credaf:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu wedi'u cadw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r enillion neu'r cofnodion cyfrifyddu neu'r enillion; neu
- na chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae arnaf eu hangen er mwyn archwilio; neu

- nad yw'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn dangos eu bod yn cydymffurfio ag arweiniad Trysorlys EM.

Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w cynnig ynglŷn â'r datganiadau ariannol hyn.

Amyas C E Morse

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

23 Mehefin 2010

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

157 - 197 Buckingham Palace Road

Victoria

Llundain

SW1W 9SP

DATGANIAD INCWM A GWARIANT

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2010

	Nodiadau	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 £'000	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 £'000
Incwm	4	132,735	131,910
Gwariant gweithredol			
Costau staff	5	(62,276)	(58,376)
Costau gweithredol eraill	7	(59,318)	(65,765)
Gwarged gweithredol		11,141	7,769
Eiddo gwag	8	202	(3,786)
Lleihau asedau	11,12	-	(349)
Incwm cyllid		316	1,315
Costau ariannu	9	(23)	-
Costau ariannu eraill	18,24	(473)	(1,670)
Cost dybiannol cyfalaf	19	(212)	(1,288)
Gwarged ar weithgareddau arferol		10,951	1,991
Gwrthdroi cost dybiannol cyfalaf	19	212	1,288
Gwarged ar gyfer y flwyddyn ariannol cyn treth		11,163	3,279
Trethiant	10	(151)	21
Gwarged ar gyfer y flwyddyn ariannol ar ôl treth		11,012	3,300

Mae'r polisiau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 77 i 103 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

DATGANIAD NEWIDIADAU ECWITI

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2010

	Nodiadau	Cronfa wrth gefn £'000
Y balans ar 31 Mawrth 2008 (UK GAAP)		39,623
Effaith y newidiadau dan y Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol	2	(30,012)
Balans newydd ar 1 Ebrill 2008		9,611
Newidiadau ecwiti ar gyfer 2008-09		
Adenillion gwirioneddol heb gynnwys yr adenillion a ddisgwylir ar asedau'r cynllun	24	(40,390)
Colledion a brofwyd ar rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn	24	(1,207)
Newidiadau mewn rhagdybiaethau sy'n sail i werth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn	24	4,151
Lleihad yn y gofyniad cyllido sylfaenol	24	32,190
Gwarged ar gyfer y flwyddyn		3,300
Cyfanswm y costau a'r incwm cydnabyddedig ar gyfer 2008-09		(1,956)
Balans ar 31 Mawrth 2009		7,655
Newidiadau ecwiti ar gyfer 2009-10		
Adenillion gwirioneddol heb gynnwys yr adenillion a ddisgwylir ar asedau'r cynllun	24	20,980
Enillion a brofwyd ar rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn	24	4,630
Newidiadau mewn rhagdybiaethau sy'n sail i werth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn	24	(20,640)
Cynnydd o ran rhwymedigaeth y gofyniad cyllido sylfaenol	24	(6,410)
Gwarged ar gyfer y flwyddyn		11,012
Cyfanswm y costau a'r incwm cydnabyddedig ar gyfer 2009-10		9,572
Balans ar 31 Mawrth 2010		17,227

Mae mwy o fanylion am bensiynau ar gael yn Nodyn 24.

Mae'r polisiau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 77 i 103 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

DATGANIAD SEFYLLFA ARIANNOL

AR 31 MAWRTH 2010

	Nodiadau	Ar 31 Mawrth 2010 £'000	Ar 31 Mawrth 2009 £'000	Ar 31 Mawrth 2008 £'000
Asedau anghyfredol				
Eiddo, peiriannau a chyfarpar	11	11,988	11,373	13,620
Asedau anniriaethol	12	14,932	17,694	15,302
Asedau treth gohiriedig	10	2,542	2,693	2,672
Symiau Masnach a symiau derbyniadwy eraill	14	468	299	728
Asedau buddion ymddeol	24	1,586	-	-
Cyfanswm asedau anghyfredol		31,516	32,059	32,322
Asedau cyfredol				
Symiau Masnach a symiau derbyniadwy eraill	13	12,272	10,614	9,160
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod	15	35,348	39,055	52,346
Cyfanswm asedau cyfredol		47,620	49,669	61,506
Cyfanswm asedau		79,136	81,728	93,828
Rhwymedigaethau cyfredol				
Symiau Masnach a symiau taladwy eraill	16	47,035	48,277	58,579
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau	18	1,134	1,376	1,692
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol		48,169	49,653	60,271
Rhwymedigaethau anghyfredol				
Symiau Masnach a symiau taladwy eraill – symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	17	10,523	11,931	12,678
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau	18	3,217	3,283	2,160
Rhwymedigaethau buddion ymddeol	24	-	9,206	9,108
Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol		13,740	24,420	23,946
Cyfanswm rhwymedigaethau		61,909	74,073	84,217
Asedau llai rhwymedigaethau		17,227	7,655	9,611
Ecwiti				
Cronfeydd wrth gefn		17,227	7,655	9,611
Cyfanswm ecwiti		17,227	7,655	9,611

Mae'r polisiâu a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 77 i 103 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu cymeradwyo gan y Bwrdd ar 8 Mehefin 2010.

Colette Bowe
Cadeirydd

Ed Richards
Prif Weithredwr

DATGANIAD LLIF ARIAN

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2010

	Nodiadau	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 £'000	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 £'000
Llif arian o weithgareddau gweithredol			
Gwarged gweithredol		11,141	7,769
Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol			
Amorteiddio	12	5,109	4,323
Dibrisiant	11	2,911	3,479
Colled ar waredu eiddo, peiriannau a chyfarpar	7	6	13
Elw ar waredu eitemau anniriaethol	7	-	-
Cynnydd mewn symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill	13,14	(1,827)	(1,025)
Lleihad mewn symiau masnach a symiau taladwy eraill	16,17	(2,650)	(11,049)
Lleihad mewn darpariaethau	18	(169)	(3,006)
Cynnydd mewn rhwymedigaethau ac asedau pensiwn	24	(12,642)	(6,801)
Mewnlif / (all-lif) arian net o weithgareddau gweithredol		1,879	(6,297)
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Llog a gafwyd		316	1,315
Llog a dalwyd	9	(23)	-
Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar	11	(3,580)	(1,613)
Prynu eitemau anniriaethol	12	(2,347)	(6,735)
Elw ar werthu eiddo, peiriannau a chyfarpar		48	39
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi		(5,586)	(6,994)
Llif arian o weithgareddau cyllido			
Ad-dalu benthyciadau		-	-
Mewnlif / (all-lif) arian net o weithgareddau cyllido		-	-
Lleihad mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn ystod y flwyddyn		(3,707)	(13,291)
Arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn	15	39,055	52,346
Lleihad mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn ystod y flwyddyn		(3,707)	(13,291)
Cronfeydd net terfynol	15	35,348	39,055

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 77 i 103 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

NODIADAU'R CYFRIFON

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2010

1. Y Sail dros Gyflwyno a'r Prif Bolisiau Cyfrifyddu

Mae'r Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom) yn gorfforaeth gyhoeddus sydd wedi'i lleoli yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n darparu amrediad eang o wasanaethau rheoleiddio. Cafodd datganiadau ariannol y Sefydliad ar gyfer 31 Mawrth 2010 eu paratoi'n unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS), a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB), yn ogystal â'r dehongliadau a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Dadansoddi Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC), fel y'u cymeradwywyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd drwy ailbriso rhai asedau anghyfredol, ar sail busnes byw, yn unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol. Paratwir y datganiadau ariannol ar sail holl ddehongliadau a safonau cyfrifyddu IFRS, ac yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n llunio adroddiadau dan IFRS ac Erthygl 4 Rheoliad IAS yr Undeb Ewropeaidd, ac eithrio pan gaiff y rhain eu diystyru gan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Paratwir y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddwyd ar 16 Ionawr 2008 gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sy'n rhan o'r Memorandwm Ariannol fel y'i cymeradwywyd gan yr adrannau hynny.

Caiff symiau yn y Datganiadau Ariannol eu nodi mewn punnoedd sterling, sef yr arian y mae'r sefydliad yn delio ag ef.

A) IFRS 1- MABWYSIADU AM Y TRO CYNTAF

Y datganiadau ariannol hyn yw'r rhai cyntaf i gael eu paratoi'n unol ag IFRS. Y dyddiad trosglwyddo yw 1 Ebrill 2008. Mae 'IFRS 1 First-time Adoption of International Financial Reporting Standards' yn caniatáu i endidau sy'n mabwysiadu IFRS am y tro cyntaf wneud rhai eithriadau o ofynion IFRS yn ystod y flwyddyn drosglwyddo (e.e. 2008-09). Penderfynodd Ofcom beidio â gwneud dim eithriadau.

B) MABWYSIADU SAFONAU NEWYDD A DIWYGIEDIG

Mae rhai safonau, diwygiadau a dehongliadau newydd ar gyfer safonau cyfredol wedi cael eu cyhoeddi, ond nid ydynt yn berthnasol yng nghyswllt cyfnod cyfrifyddu Ofcom.

Mae Ofcom wedi mabwysiadu'n gynnar y Dehongliadau IFRS ac IFRIC canlynol o 1 Ebrill 2008 ymlaen:

- 'IAS 1 Presentation of Financial Statements (Revised)', wedi dod i rym ar 1 Ionawr 2009

Nid yw'r safonau, y diwygiadau na'r dehongliadau newydd canlynol ar gyfer y safonau cyfredol yn weithredol eto, ac nid ydynt wedi cael eu mabwysiadu'n gynnar gan Ofcom:

- 'IFRS 1 First-time Adoption of International Financial Reporting Standards (Revised)', wedi dod i rym ar 1 Gorffennaf 2009
- 'IFRS 2 (Amendment) Share-based Payment', wedi dod i rym ar 1 Ionawr 2010
- 'IFRS 3 Business Combinations (Revised)', wedi dod i rym ar 1 Gorffennaf 2009
- 'IAS 27 Consolidated and Separate Financial Statements (Revised)', wedi dod i rym ar 1 Gorffennaf 2009
- 'IAS 32 Amendments to IAS 32 – Classification of Rights Issues', wedi dod i rym ar 1 Chwefror 2010
- 'IAS 39 Financial Instruments: Recognition and Measurement – Eligible Hedged Items', wedi dod i rym ar 1 Gorffennaf 2009
- 'IFRIC 17 Distributions of Non-cash Assets to Owners', wedi dod i rym ar 1 Gorffennaf 2009
- 'IFRIC 18 Transfers of Assets from Customers', wedi dod i rym ar 1 Gorffennaf 2009
- 'IFRIC 19 Extinguishing Financial Liabilities with Equity Instruments', wedi dod i rym ar 1 Gorffennaf 2010

Mae'r safonau, y diwygiadau a'r dehongliadau newydd canlynol ar gyfer safonau cyfredol yn weithredol yn 2010.

- 'IFRS 7 Financial Instruments Disclosures: Improving Disclosures about Financial Instruments', wedi dod i rym ar 1 Ionawr 2009

Mae'r safonau, y diwygiadau a'r dehongliadau newydd canlynol ar gyfer safonau cyfredol yn weithredol, ond nid ydynt yn effeithio ar weithrediadau Ofcom:

- 'IFRS 2 Amendment to IFRS 2: Vesting Conditions and Cancellations', wedi dod i rym ar 1 Ionawr 2009
- 'IFRS 8 Operating Segments', wedi dod i rym ar 1 Ionawr 2009
- 'IAS 23 Borrowing Costs (Revised)', wedi dod i rym ar 1 Ionawr 2009

NODIADAU'R CYFRIFON

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2010

1. Y Sail dros Gyflwyno a'r Prif Bolisiau Cyfrifyddu (parhâd)

- 'Amendment to IAS 32 and IAS 1: Puttable Financial Instruments and Obligations Arising on Liquidation', wedi dod i rym ar 1 Ionawr 2009
- 'Amendment to IFRIC 9 and IAS 39', wedi dod i rym ar 1 Gorffennaf 2008
- 'IFRIC 13 Customer Loyalty Programmes', wedi dod i rym ar 1 Gorffennaf 2008
- 'IFRIC 15 Agreements for the Construction of Real Estate', wedi dod i rym ar 1 Ionawr 2009
- 'IFRIC 16 Hedges of a Net Investment in a Foreign Operation', wedi dod i rym ar 1 Hydref 2008

Mae'r Bwrdd yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r safonau a'r dehongliadau hyn yn y dyfodol yn effeithio llawer ar ddatganiadau ariannol Ofcom.

C) CYDNABOD INCWM

Mae incwm yn cynnwys gwerth teg y gydnabyddiaeth a gafwyd neu sy'n dderbyniadwy yn ystod gweithgarwch arferol Ofcom. Dangosir incwm heb gynnwys treth ar werth, enillion, ad-daliadau na gostyngiadau.

Mae Ofcom yn cydnabod incwm pan fydd yr incwm yn gallu cael ei fesur yn ddibynadwy a'i bod yn debygol y bydd buddion economaidd yn deillio i'r endid yn y dyfodol.

Cymorth Grant

Mae'r incwm hwn yn cynnwys cymorth grant gan yr adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau i dalu costau rheoli sbectrwm, dyfarnu sbectrwm, clirio sbectrwm, ôl-gystadleuaeth a diddordeb y cyhoedd, a chan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o ran llythrennedd yn y cyfryngau. Caiff cymorth grant a geir gan yr adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ei ddyrannu a'i gyfateb i'r costau yn y flwyddyn sy'n berthnasol iddynt.

Ffioedd gweinyddu gwasanaethau a rhwydweithiau

Rhoddir cyfrif am incwm ar sail gronnu sy'n cynnwys ffioedd gweinyddol a anfonebwyd gan Ofcom. Caiff incwm sy'n uwch na chostau arian rhwydweithiau a gwasanaethau ei nodi fel incwm gohiriedig ar y Datganiad Sefyllfa Ariannol. Caiff costau arian sy'n fwy na'r incwm a gafwyd eu trin fel symiau derbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

Ffioedd trwydded ddarlledu

Mae incwm o ffioedd trwydded ddarlledu'n cynrychioli'r swm a anfonebwyd i ddeiliaid trwydded, ac fe gaiff ei gyfrifo

ar sail gronnu. Caiff incwm sy'n uwch na chostau arian Darlledu ei drin fel incwm gohiriedig ar y Datganiad Sefyllfa Ariannol. Caiff costau arian sy'n fwy na'r incwm a gafwyd eu trin fel symiau derbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

Ffioedd ymgeisio

Ni ellir ad-dalu ffioedd Darlledu a Rhwydweithiau na gwasanaethau un-tro, ac felly cânt eu cofnodi fel incwm adeg derbyn cais y rhanddeiliad.

Incwm arall

Caiff incwm arall ei gyfrif ar sail gronnu, a chaiff ei gyfateb i'r gwariant y mae'n cyfrannu ato.

CH) DERBYNIADAU A GASGLWYD GAN OFCOM O FEWN CWMPAS ADRAN 400 DEDDF CYFATHREBIADAU 2003

Yn unol ag Adran 400 Deddf Cyfathrebiadau 2003, bydd Taliadau Ychwanegol y Ddeddf Darlledu a chosbau a dirwyon y mae Ofcom yn eu codi yn cael eu had-dalu i'r Gronfa Gyfunol. Hefyd, caiff ffioedd trwydded y mae Ofcom yn eu codi, sy'n deillio o gyhoeddi neu adnewyddu trwyddedau dan y Deddfau Telegraffi Di-wifi, eu had-dalu i'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau i'w talu i'r Gronfa Gyfunol.

Ni wneir unrhyw gofnodion yn y Datganiadau Ariannol hyn o ran trafodion sy'n gysylltiedig ag Adran 400, ac eithrio taliadau a ffioedd sydd wedi'u casglu a'u rhoi ym mhrif gyfrif banc Ofcom ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Dangosir y rhain fel eu bod yn ddyledus i'r Gronfa Gyfunol yn y Symiau Taladwy sy'n ddyledus o fewn blwyddyn.

Mae Ofcom yn paratoi cyfres o gyfrifon ariannol ar wahân hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn at ddibenion Adran 400 Deddf Cyfathrebiadau 2003. Caiff y rhain eu cyflwyno gerbron y Senedd.

D) LESOEDD

Bydd lesioedd lle bydd y lesddaliwr yn agored i gyfran sylweddol o'r risgiau a'r manteision sydd ynghlwm wrth berchnogaeth yn cael eu trin fel lesioedd gweithredol. Caiff taliadau a wnaed ac a gafwyd dan lesioedd gweithredol eu cydnabod fel Incwm neu Wariant ar sail llinell syth dros gyfnod y les. Caiff cymhellion lesioedd eu cydnabod fel rhan greiddiol o gyfanswm gwerth y les, dros gyfnod y les pan na ellir ei chanslo.

DD) EIDDO, PEIRIANNAU A CHYFARPAR

Mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynnwys prynu asedau newydd ac ymestyn, datblygu neu ddisodli asedau cyfredol.

NODIADAU'R CYFRIFON

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2010

1. Y Sail dros Gyflwyno a'r Prif Bolisiau Cyfrifyddu (parhâd)

Mae arweiniad gan y Trysorlys ar eiddo, peiriannau a chyfarpar yn caniatáu i Ofcom ddefnyddio costau hanesyddol dibrisiedig i gynrychioli gwerth presennol asedau nad ydynt yn eiddo sydd ag oes ddefnyddiol fer neu werth isel. Mae holl asedau Ofcom yn perthyn i'r categori hwn. Mae cost hanesyddol yn cynnwys gwariant a gaiff ei briodoli'n uniongyrchol i gaffael yr eitemau.

Caiiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu cofnodi fel costau neu eu pennu'n gostau ar ddyddiad y newid i IFRS, llai dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion. Caiiff eiddo, peiriannau a chyfarpar gwerth dros £2,500 eu cyfalafu.

Dim ond pan fydd yn debygol y bydd buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r eitem yn deillio i Ofcom yn y dyfodol, ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy, y caiff costau dilynol eu cynnwys yng ngwerth llyfr yr ased neu eu cydnabod fel ased ar wahân, fel y bo'n briodol. Caiiff gwerth llyfr y darn a ddisodlir ei ddat-gydnabod. Caiiff yr holl waith atgyweirio a chynnal a chadw arall ei gofnodi yn y Datganiad Incwm a Gwariant yn ystod y cyfnod ariannol y mae'n daladwy.

Caiiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu dibrisio, ar sail llinell syth, ar gyfraddau a amcangyfrifwyd i ddiddymu eu gwerth llyfr dros eu hamcan oes ddefnyddiol. Wrth asesu amcan oes ddefnyddiol, a gaiff ei adolygu'n flynyddol, rhoddir ystyriaeth i unrhyw drefniadau contract a gofnion gweithrediadol sy'n ymwneud ag asedau penodol.

Caiiff dibrisiant ei gyfrifo o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith dros amcan oes ddefnyddiol yr ased. Oni bai bod gofnion gweithrediadol yn pennu fel arall, nodir yn y tabl isod, yn gyffredinol, y cyfnodau dibrisiant ar gyfer y prif gategoriâu eiddo, peiriannau a chyfarpar:

Gosodiadau a ffitiadau – Gwelliannau les	Cyfnod y les
Gosodiadau a ffitiadau – Dodrefn	7 mlynedd
Offer swyddfa a maes	4 i 7 mlynedd
Caledwedd cyfrifiadurol	3 i 5 mlynedd
Cerbydau modur	5 mlynedd

Caiiff oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yr asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd.

Pennir enillion a cholledion ar yr hyn a werthir drwy gymharu'r elw â'r gwerth llyfr, a chânt eu cydnabod yn 'Colledion/ (Elw) ar waredu asedau anghyfredol' yn adran 'Costau gweithredol eraill' y Datganiad Incwm a Gwariant.

E) ASEDAU ANNIRIAETHOL

Nodir asedau anniriaethol ar yr union gost, llai amorteiddiad cronedig, gan ddefnyddio'r model ailbriso lle caiff yr ailbrisiad effaith sylweddol. Cânt eu hadolygu'n flynyddol i weld a oes lleihad yn eu gwerth. Mae'r gwariant a gyfalafwyd yn cynnwys costau rhaglenni meddalwedd a ffioedd datblygu a thrwyddedau cysylltiedig.

Caiiff asedau anghyfredol, anniriaethol, a gynhyrchwyd yn fewnol, megis meddalwedd cyfrifiadurol, eu cydnabod ddim ond os gellir adnabod yr ased a grëwyd; os yw'n debygol y bydd yr ased a grëwyd yn creu buddion economaidd yn y dyfodol; ac os gellir mesur cost datblygu'r ased yn ddibynadwy. Os na ellir cydnabod ased anniriaethol a gynhyrchwyd yn fewnol, caiff gwariant datblygu ei gofnodi fel cost yn y cyfnod y mae'n daladwy. Nid yw gwariant datblygu a gydnabuwyd yn flaenorol fel cost yn cael ei gydnabod fel ased mewn cyfnod dilynol.

Mae costau a briodolir yn uniongyrchol sy'n cael eu cyfalafu fel rhan o'r cynnyrch meddalwedd yn cynnwys costau gweithwyr datblygu meddalwedd a chyfran briodol o'r gorbenion perthnasol.

Caiiff amorteiddiad ar gostau datblygu a gyfalafwyd ei nodi ar y datganiad incwm ar sail llinell syth, o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith, dros amcan oes ddefnyddiol yr ased. Amcangyfrifir mai rhwng tair a phum mlynedd yw'r oes ddefnyddiol.

Mae asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cynnwys costau a geir wrth ddatblygu systemau cyfrifiadurol a fydd yn disodli rhai o'r rhaglenni presennol. Caiiff gwariant ar ymchwil ei ddiddymu fel gwariant a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant. Nid yw amorteiddiad yn effeithio ar asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu.

F) LLEIHAU GWERTH ASEDAU

Caiiff lleihau gwerth asedau ei gyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr yr ased a'i swm adferadwy, os yw'n llai.

Diffinnir swm adferadwy fel y gwerth teg uchaf, llai costau gwerthu, ac amcangyfrif o'i werth mewn defnydd ar ddyddiad yr adolygiad lleihau. At ddibenion asesu lleihad, caiff asedau eu grwpio ar y lefelau isaf lle ceir llifoedd arian y gellir eu hadnabod ar wahân (unedau cynhyrchu arian).

NODIADAU'R CYFRIFON

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2010

1. Y Sail dros Gyflwyno a'r Prif Bolisiau Cyfrifyddu (parhâd)

Caiiff gwerth llyfr ased ei briodoli'n syth i'w swm adferadwy os yw gwerth llyfr yr ased yn fwy na'i swm adferadwy amcangyfrifedig.

Cydnabyddir colledion yn ôl y swm sy'n gyfwerth â'r gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr yr ased a'i swm adferadwy.

Ar bob dyddiad adrodd, caiiff gwerth llyfr asedau anghyfredol ei adolygu i weld a oes unrhyw arwydd bod gwerth llyfr yr asedau wedi lleihau. Caiiff lleihad sylweddol ei gydnabod ar wahân yn y Datganiad Incwm a Gwariant. Caiiff asedau sydd wedi lleihau mewn gwerth eu hadolygu ar bob dyddiad adrodd i weld a ellir gwrthdroi'r lleihad.

FF) SYMIAU MASNACH DERBYNIADWY

Ystyr symiau masnach derbyniadwy yw arian sy'n ddyledus gan randdeiliaid am drwyddedau, ffioedd a thaliadau. Os disgwylir i'r arian gael ei gasglu mewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gweithredu arferol y busnes os yw hynny'n hwy), cânt eu trin fel asedau cyfredol. Os na, cânt eu cyflwyno fel asedau anghyfredol.

Caiiff symiau masnach derbyniadwy eu cydnabod ar werth teg yn y dechrau, ac yna eu mesur ar gost amorteiddio drwy ddefnyddio'r dull llog gweithredol, llai darpariaeth ar gyfer lleihad.

G) ARIAN PAROD A'R HYN SY'N GYFWERTH AG ARIAN PAROD

Mae arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, blaendaliadau a ddelir gan fanciau a blaendaliadau rhent.

NG) SYMIAU MASNACH TALADWY

Ystyr symiau masnach taladwy yw rhwymedigaethau i dalu am nwyddau neu wasanaethau a gafwyd gan gyflenwyr fel rhan o drefniadau busnes arferol. Caiiff cyfrifon taladwy eu trin fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gwaith arferol y busnes os yw hynny'n hwy). Os na, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol.

Caiiff symiau masnach taladwy eu cydnabod ar werth teg yn y dechrau, ac yna eu mesur ar gost amorteiddio drwy ddefnyddio'r dull llog gweithredol.

H) BUDDION GWEITHWYR

Cynlluniau pensiwn

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynlluniau cyfraniadau diffiniedig, cynlluniau buddion diffiniedig, a chynlluniau na chânt eu hariannu.

Cynlluniau cyfraniadau diffiniedig

Cynllun buddiannau ôl-gyflogaeth yw cynllun cyfraniadau diffiniedig, lle mae endid yn talu cyfraniadau penodedig i endid ar wahân ac nid oes ymrwymiad cyfreithiol nac adeiladol arno i dalu symiau ychwanegol. Caiiff ymrwymiadau i dalu cyfraniadau i gynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig eu cydnabod fel gwariant er budd gweithwyr yn y datganiad incwm a gwariant yn unol â'r gwasanaeth sy'n arwain at yr ymrwymiad. Caiiff cyfraniadau rhagdalau eu cydnabod fel ased i'r graddau bod ad-daliad ariannol neu leihad mewn taliadau i'r dyfodol ar gael.

Gall staff newydd ymuno â chynllun pensiwn rhanddeiliaid, sy'n gynllun cyfraniadau diffiniedig.

Cynlluniau buddion diffiniedig

Mae'r cynllun buddion diffiniedig hefyd yn gynllun buddion ôl-gyflogaeth, ond mae'n wahanol i gynllun cyfraniadau diffiniedig. Caiiff ymrwymiadau net Ofcom o ran cynlluniau pensiwn buddion diffiniedig ei gyfrifo ar wahân ar gyfer pob cynllun drwy amcangyfrif swm y budd y bydd gweithwyr wedi'i ennill yn y dyfodol am eu gwasanaeth yn y cyfnodau presennol a blaenorol; tynnir disgownt oddi ar y budd hwnnw er mwyn pennu ei werth cyfredol. Caiiff unrhyw gostau gwasanaeth yn y gorffennol nas cydnabuwyd a gwerth teg asedau unrhyw gynllun eu didynnu. Y gyfradd ddisgownt yw'r incwm ar y dyddiad adrodd o'r bondiau â sgôr credyd AA sydd â dyddiadau aeddfedu sy'n debyg i delerau ymrwymiadau Ofcom ac sydd wedi'u trosi i'r un math o arian y disgwylir talu'r buddion ynndo. Gwneir y cyfrifiad yn flynyddol gan actiwari cymwys, gan ddefnyddio'r dull credyd uned disgwylidig. Os bydd Ofcom ar ei ennill ar ôl gwneud y cyfrifiad, caiiff yr ased a gydnabuwyd ei gyfyngu i gyfanswm net unrhyw gostau gwasanaeth yn y gorffennol nas cydnabuwyd a gwerth presennol unrhyw ad-daliadau i'r dyfodol o'r cynllun neu leihad mewn cyfraniadau i'r cynllun yn y dyfodol. Caiiff colledion ac enillion actiwaraidd eu cydnabod yn llawn yn y cyfnod y byddant yn codi. Cânt eu cydnabod y tu hwnt i'r datganiad incwm a gwariant a'u cyflwyno yn y Datganiad Newidiadau Ecwiti.

Mae Ofcom yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn buddion diffiniedig sy'n gysylltiedig â staff a drosglwyddodd i Ofcom o sefydliadau blaenorol. Nid yw'r cynlluniau hyn ar gael i aelodau newydd.

Mae'r cynllun cyntaf, Cynllun Pensiwn Buddion Diffiniedig Ofcom yn darparu buddion sy'n gyfwerth i raddau helaeth â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae Ofcom yn cymryd rhan yn y cynllun ar y cyd â'r Awdurdod Safonau Hysbysebu. Yr ail gynllun yw Cynllun Pensiwn

NODIADAU'R CYFRIFON

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2010

1. Y Sail dros Gyflwyno a'r Prif Bolisiau Cyfrifyddu (parhâd)

Staff Ofcom (ITC gynt) ac mae Ofcom yn un o'r pedwar cyflogwr sy'n cymryd rhan ynddo. Caiff asedau'r cynllun hwn eu dal mewn ymddiriedolaeth a weinyddir ar wahân.

Mae'n ofynnol dan IAS 19, lle bydd cynllun mewn gwagedd yn ôl tybiaethau IAS 19, na ellir cydnabod y gwagedd ar Ddatganiad Sefyllfa Ariannol endid oni bai bod budd economaidd "ar gael" i'r endid yn sgil y gwagedd.

Mae IFRIC 14 yn berthnasol i'r holl fuddion diffiniedig ôl-gyflogaeth a buddion diffiniedig eraill ar gyfer gweithwyr tymor hir. Mae Ofcom yn dilyn y dehongliad o'r safon hon.

Cynlluniau na chânt eu hariannu

Mae gan Ofcom rwymedigaethau hefyd o ran taliadau pensiwn i dri chyn-gadeirydd y Comisiwn Teledu Annibynnol, dau gyn-gadeirydd yr Awdurdod Radio a dau gyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol y Swyddfa Telegyfathrebiadau. Mae'r rhain yn gynlluniau na chânt eu hariannu ac fe gyfrifir amdanynt dan IAS 19 gyda darpariaeth wedi'i chynnwys yn Natganiad Sefyllfa Ariannol Ofcom ar gyfer prisiad yr actiwari o'r rhwymedigaethau.

Buddion Gweithwyr Eraill

Costau ymddeol yn gynnar

Yr oedd yr Asiantaeth Radiogyfathrebiadau ac Oftel yn gweithredu Cynllun Ymddeoliad Cynnar a roddodd fuddion ymddeoliad i rai gweithwyr cymwys. Mae'r buddion hyn yn cydymffurfio â rheolau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cafodd rhwymedigaeth yr Asiantaeth ac Oftel i dalu costau'r buddion hyn eu trosglwyddo i Ofcom ar 29 Rhagfyr 2003. Pery'r rhwymedigaeth tan oedran ymddeol arferol y gweithwyr sy'n ymddeol dan y Cynllun Ymddeoliad Cynnar. Mae'r costau ychwanegol hyn yn seiliedig ar werth gostyngol y symiau blynyddol sy'n daladwy ar y dyddiad adrodd, ac maent wedi'u cynnwys mewn darpariaethau. Mae'r gwir symiau sy'n daladwy yn cynyddu'n flynyddol yn unol â rheolau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Rhwymedigaeth cydweithwyr sy'n gadael

Dan Fuddion Gweithwyr IAS 19, rhaid i'r holl gostau gael eu cofnodi fel treuliau cyn gynted â chyfyd y rhwymedigaeth i dalu gweithwyr. Mae hyn yn cynnwys costau unrhyw wyliau heb eu cymryd ar ddiwedd y flwyddyn. Caiff cronriad, sy'n seiliedig ar ddata cyfredol ar gyflog a chofnodion gwyliau, ei gynnwys fel rhan o'r cronriadau.

Mae hawl gan gydweithwyr sydd wedi cwblhau pum mlynedd o wasanaeth di-dor gael gwyliau sabothol â thâl am 5 wythnos ac ar ôl hyn yn cronni wythnos ychwanegol am bob blwyddyn, hyd at cyfanswm o ddeg wythnos. Caiff cronriad, sy'n seiliedig

ar amcangyfrifon gorau'r rheolwyr gan ddefnyddio data cyfredol ar gyflog a chyfraddau trosiant, ei gynnwys fel rhan o'r cronriadau. O 1af Ionawr 2008 ymlaen, diddymwyd y budd hwn ar gyfer gweithwyr newydd.

I) DARPARIAETHAU

Caiff darpariaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar, eiddo gwag, costau ailstrwythuro a hawliadau cyfreithiol eu cydnabod: pan fo gan Ofcom rwymedigaeth adeiladol neu gyfreithiol gyfredol yn sgil digwyddiadau yn y gorffennol; pan fo'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau i setlo'r rhwymedigaeth; a phan gafwyd amcangyfrif dibynadwy o'r swm. Ni chaiff darpariaethau eu cydnabod ar gyfer colledion gweithredol yn y dyfodol.

Mae Ofcom yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau sy'n ymwneud â lle dros ben yn les ei eiddo, llai cyfradd ddisgownt y Trysorlys, sy'n 2.2% ar hyn o bryd. Mae'r darpariaethau'n cynrychioli gwerth presennol net amcan gostau yn y dyfodol ar ôl cydnabod yr incwm rhent eithaf sicr yn y dyfodol. Wrth i'r disgownt ddod i ben, mae hwn wedi'i gynnwys o fewn y costau cyllid eraill yn y datganiad Incwm a Gwariant.

Pan geir amryw o rwymedigaethau tebyg, penderfynir a yw'n debygol y bydd angen all-lif mewn setliad drwy ystyried categori cyfran y rhwymedigaethau. Caiff darpariaeth ei chydnabod hyd yn oed os yw'n bur annhebygol y caiff all-lif unrhyw un eitem ei chynnwys yn yr un categori rhwymedigaethau.

J) SETLO HAWLIADAU

Gwneir darpariaeth ar gyfer iawndal ac amcan gostau cyfreithiol trydydd parti o ran herio penderfyniadau rheoleiddiol Ofcom a'i sefydliadau blaenorol os bernir ei bod yn debygol y bydd y rhain yn daladwy.

L) CYFNEWID ARIAN TRAMOR

Caiff trafodion a ddynodir mewn arian tramor eu trosi'n sterling yn ôl y gyfradd gyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodyn. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol a ddynodir mewn arian tramor eu trosi yn ôl y cyfraddau sydd mewn grym ar y dyddiad adrodd a chydnabyddir yr elw neu'r golled ddilynol yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn.

LL) OFFERYNNAU ARIANNOL A RISG CREDYD

Benthyciadau

Mae gan Ofcom bwerau cyfyngedig i fenthycg arian i ariannu amrywiadau tymor byr mewn llif arian.

NODIADAU'R CYFRIFON

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2010

1. Y Sail dros Gyflwyno a'r Prif Bolisiau Cyfrifyddu (parhâd)

Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, blaendaliadau a ddelir gan fanciau a blaendaliadau rhent. Caiff incwm llog ar arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ei gydnabod wrth iddo gael ei ennill.

Symiau masnach derbyniadwy

Ni cheir llog ar symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill, ac fe'u nodir ar eu gwerth teg. Gwneir darpariaeth os oes tystiolaeth na chaiff yr arian sy'n weddill ei dalu'n llawn.

Symiau masnach taladwy

Ni cheir llog ar symiau masnach taladwy ac fe'u nodir ar eu gwerth teg.

M) TRETH INCWM CYFREDOL A GOHIRIEDIG

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi barnu nad yw swyddogaethau rheoleiddio Ofcom yn golygu ei fod yn fusnes sy'n masnachu. O'r herwydd, ni all Ofcom adennill TAW ar wariant sy'n rhan o'i weithgareddau rheoleiddio.

Gellir asesu Treth Gorfforaeth ar log a dderbynnir, ac o ran incwm rhent net y gwariant ar eiddo sy'n deillio o osod eiddo dros ben.

Ar y dyddiad adrodd, yr oedd gan Ofcom golledion treth nas defnyddiwyd i'w gosod yn erbyn incwm trethadwy yn y dyfodol. Daw'r colledion hyn o ganlyniad i ddarpariaethau les beichus ar eiddo a etifeddwyd gan gyrff blaenorol nad oedd mo'u hangen pan ymgorfforwyd Ofcom.

Treth Ohiriedig

Darperir treth incwm gohiriedig, gan ddefnyddio'r dull rhwymedigaeth, ar bob gwahaniaeth dros dro ar y dyddiad adrodd rhwng sylfaen trethi asedau a rhwymedigaethau sy'n berthnasol i weithgareddau trethadwy, a'u gwerth llyfr at ddibenion adroddiadau ariannol.

Cydnabyddir asedau treth gohiriedig ar gyfer pob gwahaniaeth dros dro y gellir ei didynnu, asedau treth heb eu defnyddio sy'n cael eu dwyn ymlaen a cholledion treth heb eu defnyddio, i'r graddau y mae'n debygol y bydd elw trethadwy ar gael yn y dyfodol y gellir ei ddefnyddio yn eu herbyn.

Cydnabod asedau treth gohiriedig

Caiff gwerth llyfr asedau treth gohiriedig ei adolygu ar bob dyddiad adrodd. Wrth asesu'r tebygolrwydd y bydd elw trethadwy yn deillio ohono, rhoddir ystyriaeth i ganlyniadau'r flwyddyn flaenorol, canlyniadau rhagolygon

i'r dyfodol, ac eitemau achlysurol sy'n annhebygol o godi yn y dyfodol. Gan hynny, mae'r asesiad o allu'r Sefydliad i ddefnyddio'r colledion treth a ddygwyd ymlaen yn seiliedig ar farn i raddau helaeth. Os bydd canlyniadau trethadwy yn y dyfodol yn wahanol iawn i'r rheini a ddisgwyld, bydd gwerth llyfr asedau treth gohiriedig yn cynyddu neu'n lleihau, ac mae'n bosibl y caiff hynny effaith sylweddol ar y Datganiad Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad Incwm a Gwariant.

Caiff asedau treth gohiriedig eu mesur yn ôl y cyfraddau treth y disgwylir iddynt fod yn berthnasol i Ofcom pan gaiff yr ased ei wireddu yn seiliedig ar y cyfraddau treth gweithredol, neu pan gânt eu gweithredu ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

N) DADANSODDIAD FESUL SEGMENT

Ystyr segment yw elfen amlwg yn y sefydliad sy'n ymwneud â naill ai darparu cynnyrch neu wasanaethau (segment busnes), neu ddarparu cynnyrch neu wasanaethau mewn amgylchedd economaidd penodol (segment daearyddol), ac mae'n agored i risgiau a buddion gwahanol i segmentau eraill. Ni chyflwynwyd dadansoddiad o drosiant Ofcom o weithgarwch mewn segment daearyddol neu segment busnes, gan y cynhelir holl weithgarwch Ofcom yn y DU ac yn y sector rheoleiddio. Fodd bynnag, er mwyn bodloni gofynion Deddf Cyfathrebiadau 2003 i ddarparu gwybodaeth am gostau a ffioedd, mae Nodyn 3 y datganiadau ariannol hyn yn cyflwyno'r datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn dan sylw fesul sector.

O) TÂL CYFALAF

Dan delerau Memorandwm Ariannol Ofcom a gyhoeddwyd gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, a gan adlewyrchu'r adenillion ar gyfalaf Ofcom (yn unol ag arfer cyfrifyddu safonol y llywodraeth), rhoddir debyd ar y gwarged cyn trethiant. Cyfrifir y tâl yn unol ag arweiniad Trysorlys EM ar 3.5 y cant ar werth llyfr yr holl asedau perthnasol heb rwymedigaethau perthnasol. Caiff hwn ei wyrdroi i bennu'r gwarged wrth gefn ar weithgareddau arferol cyn trethiant.

P) SAFBWYNTIAU PERSONOL AC ANSICRWYDD YNGHYLCH AMCANGYFRIFON

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae gofyn i'r rheolwyr wneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar yr asedau a'r rhwymedigaethau a gofnodwyd, y datgeliadau rhwymedigaethau a'r asedau wrth gefn, a'r referniw a'r treuliau a gofnodwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Gallai'r

NODIADAU'R CYFRIFON

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2010

1. Y Sail dros Gyflwyno a'r Prif Bolisiau Cyfrifyddu (parhâd)

canlyniadau eu hunain fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Ceir gwybodaeth am safbwyntiau ac amcangyfrifon o'r fath yn y polisiau cyfrifyddu neu'r nodiadau ar gyfer y datganiadau ariannol, a cheir crynodeb o'r prif rai isod.

Dyma'r safbwyntiau sy'n effeithio fwyaf ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol:

- Cydnabod refeniw ac asesu refeniw nas biliwyd – polisi cyfrifyddu C
- Defnyddio asedau treth gohiriedig o ran elw trethadwy yn y dyfodol – polisi cyfrifyddu M

Dyma'r prif feysydd lle ceir ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon a allai achosi addasiad sylweddol i werth llyfr asedau a rhwymedigaethau yn y flwyddyn ariannol nesaf:

- Amcangyfrifon o rwymedigaethau ar gyfer pensiwn a buddion eraill ar ôl ymddeol – polisi cyfrifyddu FF

NODIADAU'R CYFRIFON

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2010

2. Mabwysiadu Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS)

O 1 Ebrill 2009 ymlaen, mae'n ofynnol i Ofcom gyflwyno adroddiad ar ei ddatganiadau ariannol cyfunol yn unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd. Y dyddiad trosglwyddo i fabwysiadu IFRS yw 1 Ebrill 2008. Mae'r tabl isod yn disgrifio sut mae'r broses drosglwyddo o Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU (UK GAAP) i IFRS yn effeithio ar y Datganiad Sefyllfa Ariannol.

A) EFFAITH MABWYSIADU IFRS AR ECWITI AR 1 EBRILL 2008

Mae'r canlynol yn grynodedb o addasiadau cyflwyno a mesur IFRS fel yr oeddent yn effeithio ar asedau net ar 1 Ebrill 2008 (dyddiad mabwysiadu IFRS) ac 31 Mawrth 2009, a gyfyd yn sgil rhoi egwyddorion mesur IFRS ar waith, yn hytrach nag UK GAAP.

	Cronfeydd wrth gefn £'000
Ecwiti ar 31 Mawrth 2008 dan yr Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU	39,623
Addasiadau ar gyfer:	
IAS 19 Buddion Gweithwyr – Gwyliau â thal nas cymerwyd sydd wedi cronni	(795)
IAS 17 Lesoedd a Lesoedd Gweithredol SIC 15 – Cymhelliant	(13,692)
IAS 19 a IFRIC 14 – Pensiynau a buddion eraill ar ôl ymddeol	(18,120)
IAS 12 Treth Incwm	2,672
IAS 36 Lleihau Asedau	(77)
Ecwiti ar 1 Ebrill 2008 dan y Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol	9,611
Ecwiti ar 31 Mawrth 2009 dan yr Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU	35,996
Addasiadau ar gyfer:	
IAS 19 Buddion Gweithwyr – Gwyliau â thal nas cymerwyd sydd wedi cronni	(893)
IAS 17 Lesoedd a Lesoedd Gweithredol SIC 15 – Cymhelliant	(12,611)
IAS 19 a IFRIC 14 – Pensiynau a buddion eraill ar ôl ymddeol	(17,530)
IAS 12 Treth Incwm	2,693
Ecwiti ar 31 Mawrth 2009 dan y Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol	7,655

B) EFFAITH MABWYSIADU IFRS AR WARGED AR 31 MAWRTH 2009

Mae'r canlynol yn grynodedb o addasiadau cyflwyno a mesur IFRS fel yr oeddent yn effeithio ar y gwarged ar 31 Mawrth 2009, a gyfyd yn sgil rhoi egwyddorion mesur IFRS ar waith yn hytrach nag UK GAAP.

	Cronfeydd wrth gefn £'000
Gwaged ar 31 Mawrth 2009 dan yr Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig	2,219
Addasiadau ar gyfer:	
IAS 19 Buddion Gweithwyr – Gwyliau â thal nas cymerwyd sydd wedi cronni	(98)
IAS 17 Lesoedd a Lesoedd Gweithredol SIC 15 – Cymhelliant	1,081
IAS 12 Treth Incwm	21
IAS 36 Lleihau Asedau	77
Gwaged ar 31 Mawrth 2009 dan y Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol	3,300

NODIADAU'R CYFRIFON

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2010

2. Mabwysiadu Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS)

C) EFFAITH MABWYSIADU IFRS AR LIF ARIAN AR 31 MAWRTH 2009

Nid yw mabwysiadu IFRS yn effeithio o gwbl ar sefyllfa ariannol Ofcom. Felly nid oes angen cysoni â llif arian y flwyddyn flaenorol.

D) ADDASIADAU MESUR IFRS

Mae'r canlynol yn berthnasol i'r addasiadau mesur yn y Datganiad Incwm a Gwariant ac yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol.

1. Cronni gwyliau â thâl

Dan Fuddion Gweithwyr IAS 19, rhaid i'r holl gostau gael eu cofnodi fel treuliau cyn gynted a chyfyd y rhwymedigaeth i dalu gweithwyr. Mae hyn yn cynnwys cost unrhyw wyliau nas cymerwyd ar ddiwedd y flwyddyn. Mae darpariaethau wedi'u cydnabod pan fod oblygiadau cyfreithiol neu adeiladol wedi mynd at gostau fydd efallai yn arwain at all-lif adnoddau all gael eu hamcangyfrif yn rhesymol. Mae darpariaethau wedi'u cydnabod ar gyfer uchafswm y dyledion all ddigwydd fel canlyniad.

2. Cymhelliant lesoedd gweithredol

O ran Lesoedd IAS 17 a Lesoedd Gweithredol SIC 15 - Cymhelliant, mae'n rhaid cydnabod cymhelliant lesoedd dros gyfnod cyfan y les na ellir ei chanslo sy'n berthnasol i'r cymhelliant. Mae'r addasiad yn adlewyrchu balans y cymhelliant ar ôl dosrannu'r budd ar sail llinell syth.

3. Pensiynau a buddion eraill ar ôl ymddeol

Dan UK GAAP, yr oedd pensiynau a buddion eraill ar ôl ymddeol Ofcom yn dod o dan Fuddion Ymddeol FRS 17 cyn y dyddiad trosglwyddo. Dan IFRS, mae'r buddion hynny'n dod o dan Buddion Gweithwyr IAS 19, ac mae Ofcom yn cydnabod ei holl rwymedigaethau pensiwn set a buddion eraill ar ôl ymddeol yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol ar 1 Ebrill 2008, gan wneud newidiadau cyfatebol i'r cronfeydd.

Mae IFRIC 14 yn berthnasol i'r holl fuddion diffiniedig ôl-gyflogaeth a buddion diffiniedig eraill tymor hir i weithwyr. Mae Ofcom yn dilyn y dadansoddiad o'r safon hon. Darllenwch Nodyn 24 i gael rhagor o fanylion.

4. Asedau treth gohiriedig

Dan UK GAAP, ni chofnodwyd ased treth ohiriedig oherwydd ni fyddai'r ased yn cael ei gwireddu yn y dyfodol agos. Dan Dreth Incwm IAS 12, nid oes cyfnod amser penodedig ar gyfer adennill colledion treth; felly, cofnodwyd ased treth ohiriedig.

5. Yr effaith ar asedau anghyfredol yn sgil lleihau

Ar 1 Ebrill 2008, cafodd asedau â gwerth llyfr net o £76,703 eu lleihau'n unol â gofynion Lleihau Asedau IAS 36. Os hoffech gael rhagor o fanylion, darllenwch Nodyn 11 - Eiddo, peiriannau ac offer, a Nodyn 12 - Ased Anniriaethol.

NODIADAU'R CYFRIFON

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2010

3. Dadansoddiad Sectoraidd

Mae'r dadansoddiad isod yn cyfeirio at incwm fesul sector ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010, ynghyd â'r costau a briodolir. Paratoir y dadansoddiad hwn yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003, ac nid yng nghyswllt Adroddiad Segmentaidd 8 IFRS, yn unol â pholisi cyfrifyddu 1 (R)

	Rheoli sbectrw £'000	Clirio sbectrw £'000	Dyfarniadau sbectrw £'000	Rhwydweithiau a gwasanaethau £'000	Darledu £'000	Incwm arall £'000	Cyfanswm 31 Mawrth 2010 £'000	Cyfanswm 31 Mawrth 2009 £'000
Refeniw								
Ffioedd trwyddedau a gweinyddu	-	-	-	27,416	23,006	-	50,422	52,315
Ffioedd ymgeisio	-	-	-	30	569	-	599	607
Cymorth grant	73,290	-	3,812	-	-	2,661	79,763	81,087
Incwm arall	-	-	-	-	-	2,000	2,000	2,004
Incwm Cronedig/(Gohiriedig)	(2,668)	-	(651)	3,651	(289)	(396)	(353)	(5,209)
Cyfanswm refeniw	70,622	-	3,161	31,097	23,286	4,265	132,431	130,804
Rhent ac Incwm arall	166	-	-	73	55	10	304	1,106
Incwm Gweithredol	70,788	-	3,161	31,170	23,341	4,275	132,735	131,910
Llog derbyniadwy	173	-	-	76	57	10	316	1,315
Cyfanswm Incwm	70,961	-	3,161	31,246	23,398	4,285	133,051	133,225
Ad-daliadau benthyciad	-	-	-	-	-	-	-	-
Llog taladwy	-	-	-	-	-	-	-	-
Incwm gweithredol net	70,961	-	3,161	31,246	23,398	4,285	133,051	133,225
Eiddo beichus ac incwm rhent cronedig	1,138	-	-	501	375	69	2,083	950
Incwm Ariannol	72,099	-	3,161	31,747	23,773	4,354	135,134	134,175
Cyfanswm costau	(72,099)	-	(3,161)	(31,747)	(23,773)	(4,354)	(135,134)	(134,175)
Gwaged ar sail cost ariannol	-	-	-	-	-	-	-	-

Costau cymharol fesul sector								
